Rhif ymchwil gymdeithasol: 87/2025

Dyddiad cyhoeddi: 24/09/2025

# Ymchwil i ddylanwadau economaidd-gymdeithasol ar gyfranogiad democrataidd yng Nghymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-80633-391-2

Ymchwil i ddylanwadau economaidd-gymdeithasol ar gyfranogiad democrataidd yng Nghymru

Awduron: Alma Economics

Mae Alma Economics yn cyfuno arbenigedd dadansoddol digyffelyb â’r gallu i gyfleu syniadau cymhleth yn glir.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2025). *Ymchwil i ddylanwadau economaidd-gymdeithasol ar gyfranogiad democrataidd yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 87/2025

Ar gael yn: [hyperlink: https://www.llyw.cymru/dylanwadau-economaidd-gymdeithasol-ar-gyfranogiad-democrataidd

Safbwyntiau’r ymchwilydd yw’r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â’r canlynol:

Emma Wallace

Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr tablau ....... 2

Rhestr ffigurau ....... 3

Cyflwyniad a chefndir ....... 5

2. Methodoleg ....... 8

3. Canfyddiadau ....... 14

4. Casgliad ....... 55

5. Argymhellion ....... 61

6. Cyfeiriadau ....... 64

Atodiad A: Samplu a gwybodaeth ddemograffig o arolygon ....... 69

Atodiad B: Canfyddiadau o’r arolwg o ddinasyddion Cymru ....... 74

# Rhestr tablau

Tabl 1. Nifer y cyfranogwyr ar gyfer arolygon ac ymgysylltiad dilynol ..................................12
Tabl 2. Dadansoddiad pellach o aelodau etholedig ac ymgeiswyr a gymerodd ran yn yr arolwg..........................................................................................................................12

## Rhestr ffigurau

Ffigur 1. Y rhwystr recriwtio mwyaf arwyddocaol wrth geisio etholiad i'r cyngor tref, plwyf, neu gymuned am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr tref, plwyf neu gymuned (n = 22) ..... 22
Ffigur 2. Y rhwystr recriwtio mwyaf arwyddocaol wrth geisio etholiad i'r Awdurdod Lleol am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol (n = 52) ..... 22
Ffigur 3. Y rhwystr recriwtio mwyaf arwyddocaol wrth geisio etholiad i Senedd neu Gynulliad Cymru am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o ASau ac ymgeiswyr i'r Senedd (n = 19) ..... 22
Ffigur 4. Gan feddwl am eich profiadau yn y blaid wleidyddol yr ydych yn aelod ohoni ar hyn o bryd, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr tref, plwyf neu gymuned (n = 22). ..... 24
Ffigur 5. Gan feddwl am eich profiadau yn y blaid wleidyddol yr ydych yn aelod ohoni ar hyn o bryd, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol (n = 51) ..... 25
Ffigur 6. Gan feddwl am eich profiadau yn y blaid wleidyddol yr ydych yn aelod ohoni ar hyn o bryd, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Ffynhonnell: arolwg o ymgeiswyr Senedd neu Gynulliad Cymru (n = 12) ..... 26
Ffigur 7. Y rhwystr adnoddau mwyaf sylweddol a wynebwyd wrth geisio etholiad i'r cyngor tref, plwyf, neu gymuned am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr tref, plwyf neu gymuned (n = 22) ..... 33
Ffigur 8. Y rhwystr adnoddau mwyaf sylweddol a wynebwyd wrth geisio etholiad i'r Awdurdod Lleol am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol (n = 52) ..... 33
Ffigur 9. Y rhwystr adnoddau mwyaf sylweddol a wynebwyd wrth geisio etholiad i Senedd neu Gynulliad Cymru am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o ASau ac ymgeiswyr i'r Senedd (n = 19) ..... 34
Ffigur 10. Y rhwystr recriwtio mwyaf sylweddol sy'n wynebu pobl wrth geisio cael eu hethol i'r cyngor tref, plwyf, neu gymuned am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr tref, plwyf neu gymuned (n = 22) ..... 40
Ffigur 11. Y rhwystr recriwtio mwyaf sylweddol sy'n wynebu pobl wrth geisio cael eu hethol i'r Awdurdod Lleol am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol (n = 52) ..... 40

Ffigur 12. Y rhwystr recriwtio mwyaf sylweddol sy'n wynebu pobl wrth geisio cael eu hethol i Senedd neu Gynulliad Cymru am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o ASau ac ymgeiswyr i'r Senedd (n = 19)....40
Ffigur 13. A ydych chi'n gyfarwydd â'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig? Ffynhonnell: arolygon aelodau etholedig ac ymgeiswyr....46
Ffigur 14. Beth fyddai'n eich gwneud chi'n fwy tebygol o ymgeisio am etholiad? Ffynhonnell: arolwg dinasyddion (pobl nad ydynt yn aelodau o bleidiau gwleidyddol) (n = 14)...75
Ffigur 15. Beth fyddai'n eich gwneud chi'n fwy tebygol o ymgeisio am etholiad? Ffynhonnell: arolwg dinasyddion (aelodau o bleidiau gwleidyddol) (n = 3)....76
Ffigur 16. Beth ydych chi'n credu yw'r prif rwystrau adnoddau (amser ac arian) sy'n eich atal rhag ymgeisio am swydd etholedig? Ffynhonnell: arolwg dinasyddion (pobl nad ydynt yn aelodau o bleidiau gwleidyddol) (n = 14)....77
Ffigur 17. Beth ydych chi'n credu yw'r prif rwystrau adnoddau (amser ac arian) sy'n eich atal rhag ymgeisio am swydd etholedig? Ffynhonnell: arolwg dinasyddion (aelodau o bleidiau gwleidyddol) (n = 3)....77
Ffigur 18. Beth ydych chi'n credu yw'r prif rwystrau ymateb sy'n eich atal rhag ymgeisio am swydd etholedig? Ffynhonnell: arolwg dinasyddion (pobl nad ydynt yn aelodau o bleidiau gwleidyddol) (n = 14)....78
Ffigur 19. Beth ydych chi'n credu yw'r prif rwystrau ymateb sy'n eich atal rhag ymgeisio am swydd etholedig? Ffynhonnell: arolwg dinasyddion (aelodau o bleidiau gwleidyddol) (n = 3)....78

## Cyflwyniad a chefndir

Cydnabyddir yn gyffredinol bod gwleidyddion o gefndiroedd amrywiol a chynrychioliadol mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau gwleidyddol mewn ffordd sy'n fwy cynrychioliadol a theg (Sillet, 2024). Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys y canlynol:

- Os nad oes amrywiaeth mewn prosesau penderfynu, mae unigolion o'r un anian sydd â chefndiroedd tebyg yn fwy tebygol o 'feddwl fel grŵp', ac felly ni fydd syniadau'n destun digon o graffu a her (Hallet, 2024).
- Fe allai proses wleidyddol nad yw'n cynnwys safbwyntiau cymunedau sydd dan anfantais wneud penderfyniadau – yn fwriadol neu drwy anwybodaeth – sy'n achosi mwy o anfantais i'r cymunedau hyn (Cowper-Coles, 2020).
- Bydd rhwystrau strwythurol sy'n atal grwpiau economaidd-gymdeithasol sydd dan anfantais rhag cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd yn atal pobl ddawnus rhag cyfrannu at fywyd cyhoeddus, gan leihau crynswth y dalent mewn siambr cyngor neu senedd (Sillet, 2024).

At hynny, gall cynrychiolaeth ddemocrataidd is o grwpiau economaidd-gymdeithasol sydd dan anfantais mewn swyddi etholedig gael effaith gylchol. Gall tangynrychiolaeth grwpiau penodol leihau ymddiriedaeth mewn sefydliadau democrataidd, gan arwain at ddadrithio ac ymddieithrio ymhlith cymunedau a ymyleiddiwyd. Mewn cyferbyniad, gall cyrff etholedig sy'n fwy cynrychioliadol 'ddangos esiampl', gan annog mwy o gyfranogiad (Showunmi & Price, 2021).

Mae cynrychiolaeth yn hollbwysig hefyd oherwydd bod ymddiriedaeth mewn sefydliadau democrataidd wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ledled y Deyrnas Unedig (Curtice et al., 2024). Mae ymddieithrio gwleidyddol (a fesurir yn ôl agweddau tuag at wleidyddiaeth, cofrestru a phleidleisio, ymgeisyddiaeth, a chynrychiolaeth etholedig) ledled y Deyrnas Unedig yn uwch ymhlith rhai grwpiau, gan gynnwys pobl ifanc, pobl o grwpiau ethnig leiafrifol, a phobl sy'n ddi-waith hirdymor (Uberoi & Johnston, 2022). Amlygwyd y materion hyn yng Nghymru hefyd, wrth i ddwy astudiaeth ddiweddar amlinellu materion gan gynnwys diffyg gwybodaeth ac ymgysylltiad isel â'r system etholiadol, diffyg gwybodaeth hygyrch am systemau gwleidyddol (Moore, 2023), a phryderon ynglŷn ag "iechyd democrataidd" gwleidyddiaeth yng Nghymru (Valgardsson et al., 2023).

O ganlyniad i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth mewn democratiaeth leol, ac yn 2021-22 fe lansiodd y cynllun peilot Cronfa Mynediad i Swyddi Etholiedig i gynorthwyo pobl anabl i ymgeisio am swyddi etholedig. Nododd adolygiad o'r Gronfa y dylid ymestyn pecyn ehangach o ddarpariaeth i unigolion â nodweddion gwarchodedig eraill a heriau eraill (Davies et al., 2023). Arweiniodd hyn at ofyniad yn Neddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 ('y Ddeddf') i Weinidogion sefydlu cynllun cymorth ariannol i gynorthwyo ymgeiswyr anabl, gan ychwanegu at y cynllun peilot Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig blaenorol. Yn ogystal, mae'n cynnwys darpariaethau i ddatblygu cynlluniau cymorth ariannol tebyg ar gyfer unigolion â nodweddion gwarchodedig neu benodedig eraill.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau eraill yn ymwneud â mynediad at ddemocratiaeth. Er enghraifft, mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu gwasanaethau, fel gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant, a phrofiad gwaith, i hyrwyddo amrywiaeth ymhlith unigolion o grwpiau â nodweddion gwarchodedig a chefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol sy'n ceisio cael eu hethol i'r Senedd neu lywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi arweiniad i bleidiau gwleidyddol ar amrywiaeth a chynhwysiant.

Comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i gynnal astudiaeth ynglŷn â sut mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn dylanwadu ar gyfranogiad democrataidd. Canolbwyntiodd y gwaith ymchwil hwn ar ddeall y rhwystrau sy'n effeithio ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, sy'n lleihau eu gallu i gymryd rhan yn llawn mewn democratiaeth yng Nghymru – gan gynnwys ymgeisio am swydd etholedig mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru. Roedd y dulliau ymchwil yn cynnwys grwpiau ffocws a chyfweliadau ag arbenigwyr ar gyfranogiad democrataidd yng Nghymru, arolwg o aelodau etholedig ac ymgeiswyr a ddilynwyd gan gyfweliadau â chyfranogwyr â buddiant, ac arolwg ar wahân o ddinasyddion Cymru, a ddilynwyd gan gyfweliadau, hefyd.

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar 'gynrychiolaeth ddisgrifiadol' grwpiau economaidd-gymdeithasol yng ngwleidyddiaeth Cymru, sy'n golygu bod demograffeg berthnasol cynrychiolwyr etholedig yn gyfrannol â demograffeg y boblogaeth ehangach (Pitkin, 1967). Mae gan hyn gysylltiad cryf â 'chynrychiolaeth sylweddol', sy'n canolbwyntio ar b'un a yw blaenoriaethau polisi grwpiau sydd dan anfantais yn cael eu cynrychioli yn y penderfyniadau a wneir gan awdurdodau (Pitkin, 1967; Childs a Lovenduski, 2013). Pan na fydd gwleidyddion yn ddisgrifiadol gynrychioliadol o'r cymunedau amrywiol maen nhw'n eu cynrychioli (h.y., pan na fydd demograffeg gwleidyddion yn adlewyrchu'r boblogaeth gyffredinol), mae tystiolaeth bod penderfyniadau gwael ac annheg yn fwy tebygol o ddigwydd (e.e., Williams, 2022). Felly, mae'n hollbwysig bod gwleidyddion ar bob lefel yn gynrychioliadol o gyfansoddiad economaidd-gymdeithasol gwirioneddol Cymru.

## 1.1. Strwythur yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Mae Pennod 2 yn ymdrin â'n dull methodolegol, gan amlygu'r nod ar gyfer pob cam o'r astudiaeth a sut y llywiodd y cam nesaf. Bydd yr adran hon hefyd yn amlinellu meintiau sampl ar gyfer pob cam ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal â chyfyngiadau'r astudiaeth.

- Mae Pennod 3 yn amlinellu ein canfyddiadau yn ymwneud â'r rhwystrau allweddol rhag ymgeisio am swydd etholedig, yn ogystal ag archwilio ffyrdd o ddileu rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd yng Nghymru.

- Mae Pennod 4 yn crynhoi'r prif bwyntiau a gododd o'r astudiaeth hon trwy gyfosod a chymharu canfyddiadau rhwng y grwpiau allweddol yr ymgysylltwyd â nhw yn ystod y gwaith ymchwil.

- Mae Pennod 5 yn amlinellu cyfres o argymhellion i fynd i’r afael â rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd ar gyfer pobl sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru.

Yn ogystal, mae’r adroddiad yn cynnwys yr Atodiadau canlynol:

- Mae Atodiad A yn cynnwys manylion ynglŷn â samplu a demograffeg ymatebwyr i’r arolwg.
- Mae Atodiad B yn cynnwys canfyddiadau arolwg o ddinasyddion Cymru.

# 2. Methodoleg

## 2.1. Cam 1: Cwmpasu'r prosiect ac adolygu tystiolaeth

Roedd Cam 1 yn cynnwys adolygiad archwiliadol o lenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth lwyd (e.e., adroddiadau Llywodraeth Cymru), polisi, a deddfwriaeth, i wella ein dealltwriaeth o'r materion, rhoi sail i ddatblygu deunyddiau ymchwil, ac amlygu bylchau i fynd i'r afael â nhw trwy'r gwaith ymchwil hwn. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau pwyllgor y Senedd, adolygiadau a gwerthusiadau o fentrau, a ffynonellau eraill a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru wrth gychwyn y prosiect. Mae rhai ffynonellau allweddol yng nghyd-destun Cymru yn cynnwys ymchwiliad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd i amrywiaeth mewn llywodraeth leol (2023), adolygiad Canolfan Llywodraethiant Cymru o rwystrau rhag ymgeisio am Gynulliad Cymru (Awan-Scully et al., 2018), a'r Ddamcaniaeth Newid i ddileu rhwystrau rhag swyddi etholedig ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig (Smith & Davies, 2022).

Yn ogystal, cynhaliwyd dau gyfweliad cwmpasu â swyddogion polisi yn Llywodraeth Cymru, un yn canolbwyntio ar lywodraeth leol a'r llall yn canolbwyntio ar y Senedd. Helpodd y rhain i fireinio nodau a meysydd ffocws y gwaith ymchwil, yn ogystal â chefnogi ymdrechion i amlygu rhanddeiliaid i ymgysylltu â nhw'n ddiweddarach yn rhan o ymarfer mapio rhanddeiliaid parhaus. Amlygwyd unigolion trwy fod yn awduron adroddiadau ac erthyglau cyfnodolion allweddol, bod â rolau allweddol mewn sefydliadau cymunedol, yn ogystal â chynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol.

Er mwyn cyd-destunoli'r llenyddiaeth ymhellach, adolygwyd ffynonellau data perthnasol a chynhaliwyd dadansoddiad meintiol archwiliadol i gael dealltwriaeth well o rwystrau economaidd-gymdeithasol rhag cyfranogiad democrataidd yn genedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys archwilio data o Gyfrifiad 2021 (y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), 2023), a chyfateb dangosyddion demograffig-gymdeithasol perthnasol i ddangosyddion cyfranogiad democrataidd o Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad) ar lefel Awdurdod Lleol a'r ganran a bleidleisiodd yn etholiadau lleol Cymru yn 2022 ar lefel Ward (Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, dim dyddiad).

## 2.2. Camau 2 a 3: Ymgysylltu â rhanddeiliaid arbenigol ar ymgysylltu â democratiaeth, ac ymgysylltu ag ymarferwyr

Ar ôl cwblhau'r cam cwmpasu, cynhaliwyd tri grŵp ffocws (90 munud) a 10 cyfweliad un i un dros Microsoft Teams â rhanddeiliaid sy'n arbenigo mewn ymgysylltu â democratiaeth yng nghyd-destun Cymru. Ymgysylltwyd â 19 o randdeiliaid i gyd. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys arbenigwyr academaidd, cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol, a sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol i gynorthwyo pobl ledled Cymru sy'n profi heriau o ganlyniad i amgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Darparodd yr ymgysylltiad hwn wybodaeth am y cyd-destun polisi a deddfwriaethol, heriau a chyfleoedd i weithredu polisi, rhwystrau economaidd-gymdeithasol canfyddedig rhag cyfranogiad democrataidd, a chynigion i ddileu'r rhwystrau hyn. Amlygwyd unigolion yn yr ymarfer mapio rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn ystod cam cwmpasu'r gwaith ymchwil hwn.

Nodwyd bod grwpiau ffocws yn ddull priodol o ymgysylltu â'r grwpiau hyn i ddechrau, gan eu bod yn caniatáu ar gyfer trafod arbenigedd a phrofiadau tebyg – e.e., fe allai grwpiau sy'n dadlau dros newid polisi ysgogi ei gilydd i drafod heriau gweithredu a rennir. Yn aml, mae hyn yn arwain at ddealltwriaeth ac arlliwiau dyfnach na chyfweliadau un i un. Fodd bynnag, cynigiwyd cyfweliadau un i un hefyd i'r rhai nad oedd dyddiadau/amserau'r grwpiau ffocws yn gyfleus iddynt neu a ddywedodd y byddai'n well ganddynt siarad un i un. Roedd canllawiau trafod yn lled-strwythuredig, gan ganiatáu ar gyfer ymdrin â chwestiynau allweddol ar yr un pryd â rhoi hyblygrwydd i'r cyfranogwyr godi pynciau annisgwyl. Darparwyd hysbysiadau preifatrwydd ymlaen llaw, a chadarnhaodd y cyfranogwyr eu bod yn fodlon cymryd rhan naill ai trwy lenwi ffurflen ymlaen llaw neu ar lafar ar ddechrau'r grŵp ffocws neu'r cyfweliad.

Cynhaliwyd dadansoddiad ailadroddol ar draws y gwaith ymchwil i ganiatáu i ni ymgorffori'r canfyddiadau yng ngham nesaf yr ymchwil. I ddadansoddi'r data o'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, cynhaliwyd pedwar cam ailadroddol o ddadansoddiad thematig: ymgyfarwyddo, codio, datblygu thema, ac adrodd. Yna, amlygodd y dadansoddiad feysydd ffocws allweddol i'w harchwilio'n ddyfnach yng ngham nesaf yr ymchwil.

### 2.3. Cam 4: Ymgysylltu ag aelodau etholedig, ymgeiswyr, a dinasyddion

Roedd cam nesaf yr ymchwil yn cynnwys lansio arolygon gydag aelodau etholedig, ymgeiswyr, a dinasyddion. Datblygwyd yr arolygon i asesu sut mae amgylchiadau economaidd-gymdeithasol penodol yn dylanwadu ar ddyheadau a phenderfyniadau unigolion i ymgeisio am swydd etholedig, ac amlygu'r rhwystrau neu'r galluogwyr y gallai'r amodau hyn eu creu. Er mwyn annog cyfranogiad a sicrhau eglurder, rhannwyd yr arolwg ar gyfer aelodau etholedig ac ymgeiswyr yn dair fersiwn ar wahân: (i) Aelodau'r Senedd (ASau) ac ymgeiswyr i'r Senedd, (ii) cynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol, a (iii) cynghorwyr ac ymgeiswyr Tref, Plwyf, a Chymuned. Diben y dull hwn oedd lleihau dryswch ynglŷn â phwy oedd yr arolwg wedi'i fwriadu ar ei gyfer ac roedd yn caniatáu ar gyfer gwneud mân addasiadau i'r testun (e.e., cyfeirio at 'Aelod o'r Senedd' yn lle 'Cynghorydd'). Gofynnwyd i'r cyfranogwyr gwblhau'r arolwg a oedd yn cyfateb i'r swydd uchaf yr oeddent wedi ymgeisio amdani. Fodd bynnag, roedd croeso i'r rhai a oedd wedi cystadlu mewn etholiadau ar gyfer nifer o wahanol gyrff gwblhau arolygon ychwanegol i rannu eu profiadau ar draws gwahanol lefelau. Nid oedd angen rhannu'r arolwg dinasyddion cymaint, ond roedd yn cynnwys cwestiynau ar wahân ar gyfer aelodau pleidiau gwleidyddol a phobl nad oeddent yn aelodau ohonynt, ochr yn ochr â chasglu gwybodaeth ddemograffig allweddol.

Cysylltwyd ag Aelodau etholedig y Senedd trwy eu cyfeiriadau e-bost sydd ar gael yn gyhoeddus, a chysylltwyd ag ymgeiswyr a chynghorwyr lleol trwy bleidiau gwleidyddol a chyrff fel y Comisiwn Etholiadol, a chronfa ddata ar-lein o wybodaeth am ymgeiswyr. Cysylltwyd â dinasyddion trwy rwydwaith o sefydliadau gwirfoddol a amlygwyd yn yr ymarfer mapio rhanddeiliaid – a defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol hefyd i hybu cyfranogiad.

Defnyddiwyd Microsoft Forms i gynnal yr arolygon oherwydd ei fod yn ddiogel ac yn cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y Deyrnas Unedig.

Y sampl darged ar gyfer yr arolygon aelodau etholedig ac ymgeiswyr oedd Aelodau'r Senedd (60), cynghorwyr lleol ar lefel Awdurdod Lleol, cymuned, a thref (1,233); a'r rhai sydd wedi ymgeisio mewn etholiadau yng Nghymru (ni wyddys yr union rif; tua 326 o ymgeiswyr ar gyfer rhestrau rhanbarthol a 308 ar gyfer etholaethau yn etholiad 2021 y Senedd (y Comisiwn Etholiadol, 2021). Targedodd yr arolwg dinasyddion bawb a oedd yn gymwys i ymgeisio am swydd etholedig (yn unol â Chanllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid (2021) y Comisiwn Etholiadol). Ein prif nod oedd cysylltu â phobl sy'n ymwneud â gweithgarwch gwirfoddol i ddeall y rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd ymhlith pobl sydd eisoes yn ymwneud â gweithgarwch cymunedol, yn ogystal â defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hybu ymgysylltiad.

Roedd yr holl arolygon yn cymryd tua 15 munud i'w cwblhau ac roeddent yn cynnwys eitemau caeëdig yn bennaf, fel graddfeydd Likert, gyda rhai cwestiynau penagored. Roedd cwestiynau craidd ar draws yr arolygon yn cynnwys eitemau ar ddemograffeg, e.e., oedran, rhywedd, anabledd, ethnigrwydd, cefndir addysgol, incwm y cartref, lefel addysg y rhieni, a lefelau hunanadroddedig o anfantais economaidd-gymdeithasol gan ddefnyddio Graddfa Statws Cymdeithasol Goddrychol MacArthur (Prifysgol Stanford, dim dyddiad).

Roedd y cwestiynau a gyfeiriwyd at aelodau etholedig ac ymgeiswyr yn cynnwys:

- Cefndir ymgeisyddiaeth, e.e. aelod o blaid wleidyddol, y math o etholiad yr ymgeisiwyd ar ei gyfer
- Rhwystrau, e.e., Beth oedd y rhwystrau cymdeithasol, economaidd, neu ddiwylliannol mwyaf sylweddol a wyneboch (os o gwbl) wrth geisio etholiad?
- Costau, e.e., Beth oedd y gost ariannol uniongyrchol ac anuniongyrchol a gawsoch o ganlyniad i'ch ymgeisyddiaeth? A gawsoch chi gymorth i dalu'r costau hyn?
- Canfyddiadau [graddfeydd Likert], e.e., i ba raddau ydych chi'n credu bod ffactorau economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar allu unigolion i ymgeisio am etholiad yng Nghymru?
- Penagored, e.e., sut ydych chi'n credu yr effeithiodd eich cefndir economaidd-gymdeithasol ar eich profiad fel aelod etholedig/ymgeisydd?
- Dileu rhwystrau, e.e., A oes unrhyw newidiadau y byddech yn eu hargymell i ddileu'r rhwystrau hyn rhag swydd etholedig?

Roedd y cwestiynau a gyfeiriwyd at ddinasyddion yn cynnwys:

- Ymgysylltu â democratiaeth a'r gymuned, e.e., aelod o blaid wleidyddol, amlder pleidleisio, i ba raddau maen nhw / y bydden nhw byth yn ystyried ymgeisio am etholiad, pam ie/pam na? Ymwneud â gweithgarwch gwirfoddol?
- Canfyddiadau o rwystrau [amlddewis – wedi'u categoreiddio ar yr ochr gefn gan *Recriwtio, Adnoddau, Ymateb*], e.e., beth yw'r prif rwystrau rhag ymgeisio, yn eich barn chi? I ba raddau ydych chi'n gyfarwydd â'r prosesau dethol ac ethol ar gyfer etholiadau cymunedol, sirol, neu'r Senedd? Ydych chi'n teimlo'n gymwys i gael eich ethol?
- Cymorth canfyddedig [amlddewis], e.e., pa fath o gymorth neu fesurau allai helpu i hyrwyddo ymgeisio?
- Penagored, e.e., beth, os o gwbl, fyddai'n eich annog chi (neu bobl debyg i chi) i ymgeisio am etholiad yn y dyfodol?

Wrth ddadansoddi'r data arolwg, cynhyrchwyd ystadegau disgrifiadol, gan gynnwys cymedrau ac amlderau. Er bod mwyafrif helaeth y cwestiynau'n gaeëdig, defnyddiwyd dadansoddiad thematig ansoddol i ddadansoddi ymatebion testun agored gan ddefnyddio fframwaith a ddatblygwyd o ganlyniad i gyfweliadau cwmpasu, yr adolygiad o lenyddiaeth, a grwpiau ffocws a chyfweliadau ag arbenigwyr ac ymarferwyr. Pan ddaeth themâu newydd i'r amlwg, fe'u hychwanegwyd at y templed dadansoddiad thematig a marciwyd eu bod yn newydd – archwiliwyd y rhain yn fanylach mewn cyfweliadau dilynol.

Yn dilyn yr arolygon, cynhaliwyd ymgysylltiad dilynol ag aelodau etholedig, ymgeiswyr, a dinasyddion Cymru i gael gwybodaeth ddyfnach am brofiadau a chanfyddiadau'r grwpiau hyn. Recriwtiwyd cyfranogwyr trwy'r arolygon; fodd bynnag, gan fod nifer isel o ddinasyddion wedi cofrestru, cynhaliwyd recriwtio atodol trwy'r rhwydwaith Strategaeth Ymgysylltu â Democratiaeth a rannwyd gan un o gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. I gofrestru ar gyfer yr ymgysylltiad dilynol, cyfeiriwyd y cyfranogwyr at ffurflen Mynegi Diddordeb ar wahân, a oedd yn golygu bod yr ymatebion arolwg yn aros yn ddienw.

Rhoddwyd cyfle i'r cyfranogwyr ddewis cyfweliadau un i un neu grwpiau ffocws bach. Dewisodd bron pob un gyfweliad un i un ar-lein trwy Microsoft Teams (neu dros y ffôn, os oedd hynny'n well ganddynt). Yn yr astudiaeth hon, roedd ymgysylltu o bell wedi lleihau'r baich ar gyfranogwyr a gwella hygyrchedd, ac roedd yn fwy effeithlon, gan alluogi mwy o unigolion i gyfrannu. Roedd y cyfweliadau'n para tua 30 munud, ac fe'u hwyluswyd gan un ymchwilydd. Ysgogodd y canllawiau trafod fyfyrdodau ar brofiadau personol, safbwyntiau ehangach ar rwystrau, a meddwl yn adeiladol am ddulliau o fynd i'r afael â rhwystrau. Darparwyd hysbysiadau preifatrwydd ymlaen llaw, a chadarnhaodd y cyfranogwyr eu bod yn fodlon cymryd rhan naill ai trwy lenwi ffurflen ymlaen llaw neu ar lafar ar ddechrau'r cyfweliad.

I ddadansoddi data ansoddol, cynhaliwyd pedwar cam ailadroddol o ddadansoddiad thematig, yn yr un modd ag yng Nghamau 2 a 3: ymgyfarwyddo, codio, datblygu thema, ac adrodd. Archwiliodd y dadansoddiad batrymau tebyg a gwahanol ar draws grwpiau a nodweddion. Ychwanegodd at y themâu a'r dadansoddiad a gynhaliwyd mewn camau blaenorol, gan ganiatáu ar gyfer cymharu'n uniongyrchol rhwng gwaith maes cynharach.

I gymell y cyhoedd i gyfranogi, rhoddwyd cyfle i ddinasyddion gymryd rhan mewn loteri i ennill un o dair taleb £50 Love2Shop am lenwi'r arolwg dinasyddion a thaleb £15 fesul cyfweliad.

## Maint y sampl

Mae maint y sampl ar gyfer yr arolygon a'r ymgysylltiad dilynol fel a ganlyn:

**Tabl 1. Nifer y cyfranogwyr ar gyfer arolygon ac ymgysylltiad dilynol**

| Dull Ymgysylltu | Aelodau etholedig ac ymgeiswyr | Dinasyddion |
|---|---|---|
| Arolwg | 96 | 17 |
| Cyfweliadau | 12 | 7 |

**Tabl 2. Dadansoddiad pellach o aelodau etholedig ac ymgeiswyr a gymerodd ran yn yr arolwg**

| | Aelodau'r Senedd (ASau) ac ymgeiswyr i'r Senedd | Cynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol | Cynghorwyr ac ymgeiswyr Tref, Plwyf, a Chymuned |
|---|---|---|---|
| Aelod etholedig presennol | 6 | 32 | 14 |
| Cyn aelod etholedig | 1 | 8 | 4 |
| Fe'i dewiswyd fel enwebai plaid wleidyddol, ond ni chafodd ei ethol | 11 | 12 | 2 |
| Ymgeisydd annibynnol na etholwyd | 2 | 1 | 0 |
| Ceisiodd enwebiad gan blaid wleidyddol, ond ni chafodd ei ddewis gan y blaid | 1 | 0 | 2 |

I gael dadansoddiad demograffig o holl gyfranogwyr yr arolwg, gan gynnwys aelodau etholedig, ymgeiswyr a dinasyddion, gweler Atodiad A ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Cyfyngiadau

Er y llwyddwyd i gyrraedd ein targed ar gyfer ymgysylltu ag aelodau etholedig ac ymgeiswyr, roedd cyfranogiad dinasyddion yn yr arolwg yn isel o hyd. Er y defnyddiwyd cymhellion ac ystod o ddulliau recriwtio, nifer gyfyngedig a gymerodd ran. Roedd myfyrwyr wedi'u cynrychioli'n anghymesur ymhlith y sampl dinasyddion hefyd. Felly, mae'r canfyddiadau'n cyfleu safbwyntiau sampl fach o ddinasyddion Cymru.

Yn ogystal, fel sy'n wir am unrhyw brosiect ar y raddfa hon, nid oedd maint y sampl yn ddigon mawr i fod yn ddemograffig gynrychioliadol. Roedd unigolion yn dewis cyfranogi eu hunain ac roedd angen iddynt fod â'r amser i gymryd rhan. Ystyriwyd hyn wrth ddylunio'r ymchwil; er enghraifft, cynigiwyd amserlen hyblyg i'r cyfranogwyr, gan gynnwys nosweithiau a phenwythnosau, i ystyried cyfrifoldebau gofalu ac ymrwymiadau gwaith. Serch hynny, fe allai hyn fod wedi cyfyngu ar ymgysylltu â'r rhai sydd dan yr anfantais economaidd-gymdeithasol fwyaf.

Roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli'r holl brif bleidiau (Llafur, y Ceidwadwyr, Plaid Cymru, y Democratiaid Rhyddfrydol), yn ogystal â rhai pleidiau llai ac annibynwyr. Cynrychiolwyd ystod o hanesion ymgeisyddiaeth hefyd, gan gynnwys pobl a oedd wedi ymgeisio'n llwyddiannus ac yn aflwyddiannus ar lefel cyngor cymuned, tref, a sir. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ASau presennol a ymatebodd i'r arolwg yn gallu cymryd rhan mewn ymgysylltiad pellach, felly ni chynrychiolwyd eu safbwyntiau yn y cyfweliadau dilynol.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mynegodd y rhai a gyfwelwyd amrywiaeth o safbwyntiau, gan ganiatáu ar gyfer y canfyddiadau cyfoethog a amlinellir isod.

# 3. Canfyddiadau

Mae'r bennod hon yn cynnwys canfyddiadau o bob cam o'r gwaith ymchwil. Fe'i rhennir yn gyfres o is-benodau allweddol, fel a ganlyn:

3.1. Canfyddiadau ynglŷn â diffiniadau o anfantais economaidd-gymdeithasol a chyfranogiad democrataidd.

3.2. Canfyddiadau ynglŷn â rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd, wedi'u strwythuro yn ôl rhwystrau Recriwtio, Adnoddau, ac Ymateb.

3.3. Canfyddiadau ynglŷn â chynigion i ddileu rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd yng Nghymru.

Mae pob is-bennod yn nodi'n glir pa gam y mae canfyddiadau'r ymchwil yn deillio ohono trwy ddefnyddio penawdau. Gellir gweld casgliadau trosfwaol o'r gwaith ymchwil ym Mhennod 4.

## 3.1. Diffinio anfantais economaidd-gymdeithasol a chyfranogiad democrataidd

Rhan allweddol o ddeall effeithiau anfantais economaidd-gymdeithasol ar gyfranogiad democrataidd yw diffinio anfantais economaidd-gymdeithasol a diffinio cyfranogiad democrataidd. Mae'r adran hon yn ceisio darparu diffiniadau ymarferol trwy gyfuno canfyddiadau o'r llenyddiaeth, canfyddiadau o'r gwaith maes gydag arbenigwyr ac ymarferwyr, a chanfyddiadau ymhlyg o'r gwaith maes gydag ymgeiswyr, swyddogion etholedig, a dinasyddion Cymru.

### 3.1.1. Diffinio anfantais economaidd-gymdeithasol

#### 3.1.1.1. Canfyddiadau o'r llenyddiaeth

Yn rhan o adolygiad ansystematig o lenyddiaeth, amlygwyd y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol fel man cychwyn allweddol i ddeall anfantais economaidd-gymdeithasol yng nghyd-destun Cymru. Daeth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Mae'r Ddyletswydd yn gorchymyn bod rhaid i rai cyrff cyhoeddus ystyried sut gallai eu penderfyniadau leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol (fel sefydlu blaenoriaethau a nodau). Mae hyn yn awgrymu y bydd gofyniad cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru bellach i ystyried sut bydd eu dewisiadau'n gwella bywydau pobl sydd and anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau.

Mae'r canllawiau'n disgrifio anfantais economaidd-gymdeithasol fel 'byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd sy'n llai ffafriol na phobl eraill yn yr un gymdeithas' (Llywodraeth Cymru, 2021a). Fe allai profi anfantais economaidd-gymdeithasol gynnwys byw mewn ardal ddifreintiedig, bod ag ychydig iawn o gynilion neu ddim cynilion, bod ag ychydig iawn o incwm neu ddim incwm, profi amddifadedd materol, a normau cymdeithasol a diwylliannol sy'n gysylltiedig â chefndiroedd economaidd-gymdeithasol (Mills, 2021). Gan gydnabod y dystiolaeth gref bod pobl â nodweddion gwarchodedig a

dangynrychiolir yn fwy tebygol o brofi amddifadedd economaidd-gymdeithasol (Mills, 2021), dylai anfantais economaidd-gymdeithasol gael ei hystyried o fewn cyd-destun ehangach croestoriadedd (Crenshaw, 1991). Yng nghyd-destun cyfranogiad democrataidd, mae hyn yn awgrymu bod y rhesymau dros dangynrychiolaeth yn aml yn gymhleth a bod nifer o nodweddion croestoriadol yn gallu creu haenau ychwanegol o anfantais, gan arwain at wynebu mwy o rwystrau (Llywodraeth Cymru, 2024a). Er enghraifft, mae pobl anabl, menywod, a grwpiau ethnig lleiafrifiedig sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn aml yn profi mathau croestoriadol o wahaniaethu yn gryf.

#### 3.1.1.2. Canfyddiadau o'r gwaith maes gydag arbenigwyr ac ymarferwyr

Anogwyd arbenigwyr ac ymarferwyr i archwilio sut dylid diffinio rhwystrau economaidd-gymdeithasol. Pan gyflwynwyd diffiniad y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol iddynt, cytunodd arbenigwyr ac ymarferwyr yn gyffredinol â'i gategoreiddiad. Gan gydweddu hyn ag ymchwil arall (Mills, 2021), pwysleisiodd arbenigwyr ac ymarferwyr hefyd y ffactorau croestoriadol a allai gyfrannu at natur anfantais economaidd-gymdeithasol, ei dwysáu, neu ei newid, gan gynnwys anabledd, rhywedd, hil neu ethnigrwydd, a chyfrifoldebau gofalu. Yn arbennig, amlygwyd cost bod yn anabl (fel offer, trafnidiaeth, addasiadau i'r cartref) fel ffactor allweddol a allai wthio pobl i anfantais economaidd-gymdeithasol. Yn ogystal, dywedodd rhai cyfranogwyr fod angen ystyried mathau mwy 'cudd' o anfantais economaidd-gymdeithasol, fel menywod mewn perthnasoedd sy'n eu hatal rhag rheoli eu cyllid, a phobl nad oes ganddynt fynediad i gyllid cyhoeddus.

Pwysleisiodd rhai cyfranogwyr bwysigrwydd canolbwyntio ar ddosbarth, fel profiad economaidd ac fel hunaniaeth gymdeithasol. Gwnaethant gydnabod bod hunanddisgrifiadau o ddosbarth yn aml yn cael eu diffinio gan brofiadau cynnar pobl, profiadau eu rhieni, neu'r gymuned lle y'u magwyd, yn hytrach na'r amgylchiadau materol sy'n effeithio arnynt ar hyn o bryd. Dadleuodd y cyfranogwyr hyn y byddai'r cyhoedd yn fwy tebygol o ddeall a chefnogi rhaglenni sy'n ceisio denu mwy o bobl dosbarth gweithio i neuaddau tref, neuaddau sir, a'r Senedd yn hytrach na rhaglenni sydd â'r nod llai pendant a hawdd ei ddeall o 'gynyddu amrywiaeth economaidd-gymdeithasol'. Rhybuddiodd cyfranogwyr eraill fod categorïau dosbarth cymdeithasol yn cael eu llywio'n fwy gan brofiadau rhieni na realiti economaidd-gymdeithasol materol – gan amlygu'r risg y gallai rhaglenni sy'n agored i unrhyw un sy'n dweud ei fod yn ddosbarth gweithio gael eu llenwi'n bennaf gan bobl â phroffesiynau a ffyrdd o fyw dosbarth canol a rhieni neu rieni-cu dosbarth gweithio. At hynny, myfyriodd rhai cyfranogwyr y gellid tybio bod y term 'dosbarth gweithio' yn allgáu grwpiau fel lleiafrifoedd ethnig neu bobl sy'n profi costau ychwanegol sy'n eu rhoi dan anfantais economaidd-gymdeithasol, fel rhieni sengl neu bobl anabl.

Yn y pen draw, nid oedd gan y cyfranogwyr ateb clir ar gyfer pa derminoleg fyddai'n fwyaf priodol. Dywedodd rhai na fyddai llawer o bobl y gellid ystyried eu bod dan anfantais economaidd-gymdeithasol o'r farn bod eu cymunedau 'dan anfantais' ac fe allent ddigio o gael eu labelu neu eu diffinio felly. Cyfeiriodd ymarferwyr ac arbenigwyr eraill at fesurau ariannol mwy penodol y gellid eu defnyddio, fel p'un a yw rhywun ar incwm isel neu ddim incwm, neu faint o gynilion sydd ganddynt; fodd bynnag, fel y nodwyd yn y pwynt cyntaf, fe allai hyn golli rhai o'r arlliwiau a'r croestoriadau sy'n newid y profiad o statws economaidd-gymdeithasol. Defnyddiwyd y term 'anfantais economaidd-gymdeithasol' yn bennaf yn y

gwaith ymchwil hwn, ond defnyddiwyd iaith dosbarth hefyd wrth recriwtio ac mewn gwaith maes ochr yn ochr ag elfennau eraill anfantais economaidd-gymdeithasol lle y bo'n briodol – gan gydnabod bod dosbarth yn gallu bod yn syniad rhwydd ei ddeall a bod y term 'dosbarth gweithio' yn gallu bod yn hunanddisgrifiad grymusol i ddinasyddion, ymgeiswyr, a gwleidyddion.

#### 3.1.1.3. Canfyddiadau o'r cyfweliadau ag ymgeiswyr a swyddogion etholedig

Dywedodd y rhan fwyaf o swyddogion etholedig ac ymgeiswyr a gymerodd ran mewn cyfweliadau fod eu statws economaidd-gymdeithasol yn 'gyfforddus', neu rywbeth tebyg. Roedd disgrifiadau'n ymwneud yn aml â sefydlogrwydd, a chyfeiriodd llawer at berchen ar eu cartref pan ofynnwyd iddynt am eu statws economaidd-gymdeithasol. Cyfeiriodd sawl un hefyd at alwedigaethau eu rhieni yn rhan o'u dealltwriaeth o'u statws economaidd-gymdeithasol eu hunain, yn enwedig pan wnaethant gyfeirio at y statws hwn o safbwynt dosbarth. Dywedodd llawer o'r cyfweleion eu bod yn hunangyflogedig neu wedi ymddeol, sy'n dangos bod y gallu i reoli'ch amser yn fantais allweddol i ddarpar ymgeiswyr.

Roedd cyfranogwyr a ystyriodd fod eu statws economaidd-gymdeithasol wedi newid dros amser yn priodoli'r newidiadau hyn yn aml i amrywiadau mewn incwm neu gyfnodau o ddiweithdra (symudedd i lawr), neu gerrig milltir fel caffael eiddo (symudedd i fyny). Cyfeiriodd rhai hefyd at ffactorau cyd-destunol ehangach, gan gynnwys amodau economaidd-gymdeithasol eu cymuned neu safonau'r oes y'u magwyd ynddi. Mae eu hadroddiadau'n adlewyrchu dealltwriaeth o statws economaidd-gymdeithasol fel syniad perthynol a dynamig sy'n cael ei ffurfio gan brofiadau personol a theuluol dros amser.

#### 3.1.1.4. Canfyddiadau o'r cyfweliadau â dinasyddion Cymru

Roedd y statws economaidd-gymdeithasol a ddisgrifiwyd gan ddinasyddion Cymru a gyfwelwyd yn amrywio'n fawr. Dywedodd sawl un eu bod yn ddosbarth gweithio, a disgrifiodd nifer fach brofiad o ddigartrefedd a chyfnodau hir o dderbyn Credyd Cynhwysol. Roedd tua hanner y cyfweleion yn fyfyrwyr, ac roedd y cyfranogwyr hyn yn debygol iawn o drafod eu statws economaidd-gymdeithasol gan gyfeirio at eu hoedran – gan ddadlau nad oedd ganddynt incwm dibynadwy, nad oeddent yn cael llawer o gymorth ariannol ar gyfer eu hastudiaethau, a'u bod yn rhentu yn hytrach na pherchen ar eiddo. Cyfeiriodd rhai cyfranogwyr benywaidd at eu hymrwymiadau fel rhiant, a phwysleisiodd un ei bod yn ferch i fam sengl.

### 3.1.2. Diffinio cyfranogiad democrataidd

Canolbwyntiodd y fanyleb ar gyfer y gwaith ymchwil hwn ar ymchwilio i sut mae ffactorau economaidd-gymdeithasol yn effeithio 'ar allu unigolyn i ymwneud â democratiaeth leol ac ymgeisio am swydd etholedig mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru.' Gwnaethom annog rhai o'r bobl a gymerodd ran yn y gwaith maes, yn enwedig arbenigwyr ac ymarferwyr, i fyfyrio ar y ddealltwriaeth hon o gyfranogiad democrataidd. Y farn gyffredinol oedd bod y pwyslais culach a mwy eglur hwn – nad yw'n cyfrif yn benodol am gyfranogiad democrataidd ehangach (fel llofnodi deisebau, pleidleisio, ymgyrchu) – yn gyfiawn oherwydd bod rhaid i bob astudiaeth ymchwil gael ffiniau. Fodd bynnag, pwysleisiodd llawer hefyd bwysigrwydd cyfranogiad democrataidd anetholiadol rhwng etholiadau. Mae hyn yn cynnwys ymgyrchu gwleidyddol, aelodaeth â phlaid wleidyddol, ymateb i ymgynghoriadau,

ac ymgysylltu dinesig gwirfoddol. Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod ymdrechion i gynyddu cyfranogiad yn y gweithgareddau hyn, yn ogystal ag ehangu amrywiaeth economaidd-gymdeithasol y rhai sy'n gysylltiedig, nid yn unig yn fuddiol ynddynt eu hunain, gan hyrwyddo dinasyddion a phenderfyniadau mwy gwybodus, ond hefyd yn hanfodol i ehangu cronfa ac amrywiaeth yr unigolion a allai ystyried ymgeisio am swydd etholedig.

> "Er efallai nad yw'ch ymchwil yn canolbwyntio ar hyn, fe allai'r hyn sy'n digwydd rhwng etholiadau greu llif o bobl sy'n ymuno â gwleidyddiaeth etholedig." (Arbenigwr / Ymarferydd)

## 3.2. Rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd

Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod unigolion sy'n profi anfanteision economaidd-gymdeithasol yn wynebu rhwystrau mawr rhag cyfranogiad democrataidd. Gan gyfeirio at waith adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2019) ar rwystrau rhag cymryd rhan mewn llywodraeth leol neu ymgeisio amdani yn yr Alban, rydym wedi strwythuro'r gwaith ymchwil hwn ynglŷn â rhwystrau economaidd-gymdeithasol rhag cyfranogiad democrataidd yng Nghymru o dan y themâu canlynol: recriwtio, adnoddau, ac ymateb.[1] O fewn pob un o'r themâu hyn, ystyrir p'un a yw rhwystrau penodol yn ymwneud â heriau 'ochr gyflenwi' neu 'ochr y galw', fel sy'n gyffredin yn y llenyddiaeth ar gyfranogiad menywod mewn gwleidyddiaeth (Norris & Lovenduski, 1994; Lovenduski, 2005; Maguire, 2018). Mae heriau 'cyflenwi' yn cyfeirio at bwy sy'n penderfynu ymgeisio am swydd etholedig, gan gynnwys ffactorau fel costau ariannol ymgyrchu, yr awydd i gael eu hethol, a goblygiadau amser fel cydbwyso ymgyrchu a chyfrifoldebau gofalu. Mae heriau 'ochr y galw' yn cynnwys gwahaniaethu gan y rhai sy'n dethol ymgeiswyr plaid a phleidleiswyr (Kenny, 2015). Mae'r heriau hyn yn rhyngweithio â'i gilydd, yn enwedig gan fod heriau 'galw' yn effeithio ar y 'cyflenwad' ymgeiswyr (Lovenduski, 2005; 2016). Er hynny, maen nhw'n ffordd ddefnyddiol o ddadansoddi'r rhwystrau sy'n wynebu'r rhai hynny sydd eisiau cymryd rhan mewn etholiadau democrataidd.

Felly, mae'r canfyddiadau'n archwilio 'taith' ymgeisydd sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol (Krook & Norris, 2014). Mae'n dechrau gyda'r cymhelliad, yr ymwybyddiaeth, a'r anogaeth i ymgeisio am swydd etholedig (rhwystrau recriwtio), gan droi at yr amser a'r costau sy'n gysylltiedig â chystadlu mewn etholiad a chynrychioli etholwyr (rhwystrau adnoddau), cyn gorffen gyda phwyslais ar y canfyddiadau y mae pleidleiswyr a phaneli dethol ymgeiswyr yn eu ffurfio o'r ymgeiswyr hyn (rhwystrau ymateb).

[1] Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd yn canolbwyntio ar bedwerydd rhwystr ('Cydnabyddiaeth'). Mae hyn yn cyfeirio at "fethiant pleidiau gwleidyddol i gydnabod efallai bod ganddynt broblem amrywiaeth o gwbl". Mae hyn yn canolbwyntio ar ddiffyg dealltwriaeth pleidiau o rwystrau a pheidio â chasglu data. Nid yw hyn o fewn cwmpas y gwaith ymchwil hwn, sy'n canolbwyntio ar 'daith' gyffredinol pobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol sy'n ceisio cael eu hethol, yn hytrach nag archwilio perfformiad pleidiau gwleidyddol penodol. Ystyrir diffyg data drwy gydol y gwaith hwn, ond hynny'n bennaf fel ffactor sy'n esbonio diffyg ymyriadau cadarnhaol i gynyddu amrywiaeth yn ystod camau 'recriwtio' ac 'ymateb' taith ymgeisydd.

### 3.2.1. Rhwystrau recriwtio rhag cyfranogiad democrataidd

Yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2019), mae rhwystrau recriwtio'n rhwystrau sy'n atal unigolion – yn enwedig y rhai hynny o grwpiau a dangynrychiolir a'r rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol – rhag cael eu hannog, eu cefnogi, neu eu dewis i ymgeisio am swydd etholedig. Fe allai'r rhwystrau hyn gynnwys rheolau ffurfiol ac arferion anffurfiol, fel gweithdrefnau dethol anhryloyw, cliciau o fewn pleidiau, diffyg allgymorth cynhwysol, neu gymorth annigonol i aelodau mwy newydd.

#### 3.2.1.1. Rhwystrau recriwtio – canfyddiadau o'r llenyddiaeth

Mae'r llenyddiaeth academaidd yn awgrymu bod rhwystrau economaidd-gymdeithasol rhag cyfranogiad democrataidd yn dechrau pan fydd pobl yn ifanc a bod amrywiaeth o ffactorau cymdeithasol, economaidd, a diwylliannol yn effeithio arnynt. Er enghraifft, mae Quintelier a Hooghe (2013) yn defnyddio data panel o Wlad Belg i ganfod bod statws economaidd-gymdeithasol yn dylanwadu'n sylweddol ar gyfranogiad gwleidyddol o 16 a 18 oed, a bod hyn yn ddwysach mewn systemau addysgol mwy detholus. Yn ogystal, dywedir bod cysylltiadau anffurfiol o fewn pleidiau gwleidyddol yn ffafrio ymgeiswyr â chyfalaf cymdeithasol uchel ac yn ailymwreiddio anghydraddoldeb wrth ddethol ymgeiswyr gyda goblygiadau rhyweddol, radicaleiddiedig, a seiliedig ar ddosbarth – cyfeirir at hyn yn aml fel 'hoff feibion' (Tŷ'r Cyffredin, 2010).

Gall rhwydweithiau cymdeithasol o fewn pleidiau gael eu defnyddio hefyd i roi gwybod i ymgeiswyr gwleidyddol sydd â chysylltiadau da fod deiliaid seddi ar fin ymddeol, gan ganiatáu i ymgeiswyr sydd â chysylltiadau baratoi ymlaen llaw ar gyfer brwydr dethol neu ethol, tra gallai'r rhai hynny sydd â llai o gysylltiadau cymdeithasol fod dan anfantais (ibid). Yn sgil dirywiad pŵer undebau llafur wrth ddethol ymgeiswyr, canfu'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus Blaengar fod effaith rhwydweithiau cymdeithasol o fewn pleidiau gwleidyddol wedi dwysáu anfantais economaidd-gymdeithasol yn ystod y degawdau diwethaf (Quilter-Pinner et al., 2022).

Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth hefyd yn awgrymu bod newid yn gallu arwain at welliannau pellach. Mae tystiolaeth y gallai gwelliannau i gynrychioldeb economaidd-gymdeithasol cyrff deddfwriaethol 'ddangos esiampl' trwy annog mwy o gyfranogiad, cynyddu hyder pobl yn eu galluoedd, a chreu rhwydweithiau cymorth ar gyfer ymgeiswyr sydd dan anfantais economadd-gymdeithasol (Showunmi & Price, 2021). Yn y pen draw, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod recriwtio'n her 'ochr gyflenwi' yn bennaf (Lovenduski, 2016), oherwydd bod rhwydweithiau ar gyfer pobl sydd â chysylltiadau da yn gallu lleihau nifer y bobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol sy'n teimlo eu bod yn cael eu hannog ac yn gallu ymgeisio am etholiad yn llwyddiannus.

#### 3.2.1.2. Rhwystrau recriwtio – canfyddiadau o'r gwaith maes gydag arbenigwyr ac ymarferwyr

Ar draws y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau ag arbenigwyr ac ymarferwyr, archwiliwyd rhwystrau recriwtio yn fanylach na rhwystrau eraill. Gan ychwanegu at drafodaethau cynharach ynglŷn â'r diffiniad o anfantais economaidd-gymdeithasol, mynegodd llawer o gyfranogwyr awydd i "gamu'n ôl" ac archwilio'r rhwystrau mwy sylfaenol sy'n atal unigolion rhag ymwneud â gwleidyddiaeth yn y lle cyntaf. O ystyried ehangder a dyfnder y

safbwyntiau a rannwyd gan arbenigwyr ac ymarferwyr ynglŷn â heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio, trefnwyd y canfyddiadau hyn o dan gyfres o is-benawdau er mwyn eglurder a strwythur.

*Diffyg gwybodaeth flaenorol, profiad a hyder*

Nododd y cyfranogwyr fod addysg ac ymgysylltiad gwleidyddol yn digwydd yn anghyfartal ar draws grwpiau economaidd-gymdeithasol. Gwnaethant nodi fod y gwahaniaeth hwn yn aml yn dechrau'n gynnar mewn bywyd, oherwydd efallai na fydd gan ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig ddigon o adnoddau i ddarparu cyfleoedd fel teithiau addysgol, siaradwyr gwadd, neu weithgareddau eraill sy'n meithrin ymwybyddiaeth a chyfranogiad democrataidd. Ystyriwyd bod diffyg mynediad at addysg wleidyddol yn fater arwyddocaol, yn enwedig i'r rhai hynny nad oedd eu teuluoedd yn ymwneud â gwleidyddiaeth, ac na fyddai gwleidyddiaeth yn cael ei thrafod gartref. Roedd y syniad bod 'trafod gwleidyddiaeth wrth y bwrdd bwyd' yn rhywbeth dosbarth canol iawn yn amlwg yn y trafodaethau hyn. Ar lefel economaidd-gymdeithasol ehangach, cyfeiriodd cyfranogwyr at y dirywiad mewn aelodaeth ag undeb llafur ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig fel ffactor allweddol sy'n cyfrannu at ymddieithrio gwleidyddol cynyddol. Ystyriwyd bod undebau llafur yn ddarparwyr pwysig addysg a hyfforddiant gwleidyddol yn hanesyddol, gan gynnig llwybr effeithiol i fywyd gwleidyddol ar gyfer unigolion dosbarth gweithio.

Dadleuodd cyfranogwyr hefyd fod pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn llai tebygol o ymwneud ag amrywiol fathau o gyfranogiad dinesig (e.e., gwirfoddoli, gwaith elusennol, digwyddiadau cymunedol, ymgyrchoedd lleol) na'r rhai hynny sydd â mwy o fanteision economaidd-gymdeithasol. Ystyriwyd bod diffyg amser a chyfyngiadau ariannol yn rhwystrau allweddol rhag ymgysylltu. Yn ogystal, amlygodd rhai cyfranogwyr y gallai lefelau is o ymwneud dinesig adlewyrchu patrymau ehangach o ymddieithrio gwleidyddol. Mae hyn yn bwysig oherwydd ystyriwyd yn gyffredinol bod cyfranogiad dinesig yn borth hollbwysig i fywyd gwleidyddol, gan gynnig cyfleoedd i greu rhwydweithiau, datblygu dealltwriaeth o systemau etholiadol, a chael profiad gwerthfawr sy'n gallu cryfhau rhagolygon ymgeisydd mewn prosesau dethol neu ethol.

Yn gysylltiedig â hyn, amlygodd rhai cyfranogwyr fod diffyg profiad – neu'n fwy perthnasol, ymdeimlad o beidio â bod yn ddigon cymwys – yn gallu bod yn rhwystr rhag cyfranogi mewn democratiaeth. Yn ôl y cyfranogwyr, mae'n bosibl nad yw pobl yn gweld eu hunain fel 'person o'r iawn ryw', a allai fod yn rhwystr mawr rhag ystyried ymgeisio. Roedd hyn yn gysylltiedig ag absenoldeb modelau rôl mewn gwleidyddiaeth ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir, a syniadau sydd wedi'u hen sefydlu ynglŷn â sut y dylai gwleidydd edrych, ymddwyn, neu siarad. Dywedodd cyfranogwyr fod pobl dosbarth gweithio yn teimlo bod angen iddynt newid eu hacen mewn cylchoedd gwleidyddol er mwyn iddynt gydymffurfio'n well. Nodwyd bod hyd yn oed gwleidyddion presennol sydd o gefndir a dangynrychiolir wedi dilyn llwybr proffesiynol penodol neu enghraifft glasurol yn aml – fel bod yn gyfreithiwr, yn gynghorydd gwleidyddol, neu'n was sifil – sy'n golygu nad yw pobl eraill o'r cefndir hwnnw'n gallu uniaethu â nhw, o reidrwydd.

Yn ogystal, mynegodd arbenigwyr ac ymarferwyr bryderon bod ymgeiswyr posibl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o deimlo na fyddent yn gallu gwneud gwahaniaeth ar ôl cael eu hethol, a theimlwyd bod hyn yn fwy amlwg ymhlith grwpiau

penodol, fel menywod. Nododd sawl un mai'r prif ffactor a oedd yn ysgogi pobl i ymwneud â gwleidyddiaeth neu ymgeisio am swydd etholedig yn aml oedd rhywun yn dweud wrthynt y dylent wneud hynny, gan chwalu rhwystr rhagfarn fewnol neu ddiffyg hyder; fodd bynnag, cydnabuwyd bod y 'sibrydiad grymus' hwn, fel y'i disgrifiwyd, yn fwy tebygol o gael ei roi i'r rhai sydd eisoes yn ymwneud â chylchoedd gwleidyddol.

*Cymhlethdod strwythurau a phrosesau democrataidd*

Gan ychwanegu at yr uchod, tynnodd sawl cyfranogwr sylw at anhryloywder gweithdrefnau gwleidyddol, sy'n gallu ymddangos yn anhreiddiadwy ac yn ddieithr i'r rhai sydd heb brofiad blaenorol neu gynefindra â systemau biwrocrataidd. Roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys ffurflenni enwebu hir y mae'n rhaid eu hargraffu, sy'n her ychwanegol mewn ardaloedd dan anfantais lle mae mwy a mwy o lyfrgelloedd a mannau cymunedol yn cau, a phrosesau dethol ymgeiswyr aneglur neu anghyson. O ganlyniad, mae llawer o ymgeiswyr posibl yn teimlo'n ansicr ynglŷn â sut i ddechrau eu taith tuag at swydd etholedig, hyd yn oed.

Pwysleisiwyd arwyddocâd prosesau anffurfiol wrth ddethol enwebai ar gyfer plaid wleidyddol droeon. Dywedodd arbenigwyr ac ymarferwyr fod "gwybodaeth arbennig" am ddynameg fewnol plaid, fel gweithdrefnau dethol neu ddeiliaid seddi y disgwylir iddynt ymddeol, o fantais fawr, ac nad yw hyn ar gael yn aml i bobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Amlygodd sawl cyfranogwr yr anhawster sy'n wynebu ymgeiswyr newydd wrth geisio gwneud argraff mewn ardaloedd a ddominyddir gan grwpiau sefydledig, teuluoedd lleol hirsefydlog, neu "gliciau" gwleidyddol sydd wedi dal ymgeisyddiaethau neu seddi'n hanesyddol. Arsylwyd lefel uchel o ddeiliaid seddi, yn enwedig mewn etholiadau Awdurdod Lleol, a nododd rhai hyd yn oed pan fydd deiliad sedd yn ymddiswyddo, fod ei olynydd yn aml wedi'i bennu ymlaen llaw yn anffurfiol, a bod rhwydweithiau a chymorth gan y blaid eisoes ar waith.

At hynny, tynnodd rhai cyfranogwyr sylw at ddiffyg tryloywder ynglŷn â'r costau sy'n gysylltiedig ag ymgeisio ar gyfer plaid, ymgeisio mewn etholiadau, a gwasanaethu fel swyddogion etholedig. Yn aml, nid oedd yn glir ymlaen llaw pa dreuliau (ffurfiol ac anffurfiol) y byddai disgwyl i ymgeiswyr eu talu a pha rai y gellid eu had-dalu neu gynorthwyo â nhw. Gallai'r ansicrwydd hwn atal ymgeiswyr posibl sy'n tybio bod rhaid iddynt dalu'r holl gostau eu hunain, neu achosi i eraill deimlo eu bod wedi'u "dal" gan dreuliau annisgwyl.

*Rhwystrau ymarferol*

Er y disgrifir y rhain yn aml fel 'rhwystrau adnoddau', pwysleisiodd y cyfranogwyr fod diffyg arian ac amser rhydd o ganlyniad i waith a chyfrifoldebau gofalu yn rhwystrau sylweddol rhag datblygu'r rhwydweithiau gwleidyddol sy'n angenrheidiol ar gyfer swydd etholedig. Mae gan lawer o bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol lai o amser i ymgysylltu'n wleidyddol, yn aml oherwydd oriau gwaith afreolaidd, cyflogau isel, a dyletswyddau gofalu. Yn ogystal, mae natur wledig Cymru a thrafnidiaeth gyhoeddus annigonol mewn rhai ardaloedd yn cyfyngu ar fynediad ymhellach, yn enwedig ar gyfer unigolion anabl sydd heb gerbyd personol. Yn olaf, mae amseriad digwyddiadau a chyfarfodydd pleidiau'n cyflwyno her ymarferol, gan fod amserlenni gyda'r nos a diffyg gofal plant mynych yn golygu ei bod yn anodd i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu gymryd rhan.

Ystyriwyd bod y rhwystrau hyn sy'n gysylltiedig ag arian, amser, a thrafnidiaeth nid yn unig yn cyfyngu ar allu unigolion i ymgyrchu'n effeithiol, ond hefyd ar eu cyfleoedd i greu cysylltiadau gwleidyddol a dyfnhau eu gwybodaeth. Yn aml, mae gan bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol lai o ryddid i fynd i gyfarfodydd a digwyddiadau pleidiau, canfasio ar ran ymgeiswyr eraill, ac ymwneud â gweithgareddau sy'n helpu i gryfhau perthnasoedd a'u gwneud yn fwy amlwg mewn cymunedau lleol neu bleidiau gwleidyddol. Er y dywedodd rhai cyfweleion y gallai'r newid i gyfarfodydd hybrid neu o bell ers y pandemig Covid-19 ehangu mynediad, cydnabu rhai hefyd fod gan bobl sy'n gallu mynd i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb fantais sylweddol o hyd o ran datblygu rhwydweithiau cryf yn y byd gwleidyddol.

*Ofnau ynglŷn â diogelwch*

Archwilir pryderon ynglŷn â diogelwch personol yn fanylach o dan y 'rhwystr ymateb', ond nododd rhai arbenigwyr ac ymarferwyr eu bod yn rhwystr sylweddol rhag recriwtio hefyd. Gall ymwybyddiaeth o fygythiadau cynyddol i ymgeiswyr a swyddogion etholedig atal unigolion rhag ymgeisio am rolau gwleidyddol, gan eu bod yn amharod i amlygu eu hunain i risgiau o'r fath. Awgrymodd arbenigwyr y gallai gwydnwch fod yn arbennig o isel ymhlith pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, y mae ofnau diogelwch yn faich meddyliol ychwanegol arnynt ynghyd â phwysau ariannol. Mae'r ofn ymlaen llaw hwn yn aml yn ddwysach i'r rhai sy'n wynebu sawl math o ymyleiddio – fel lleiafrifoedd ethnig, menywod, ac yn enwedig menywod o leiafrifoedd ethnig sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol – sy'n amlygu'r angen am ddull croestoriadol o ddeall rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd.


*Canfyddiadau negyddol o wleidyddiaeth a'r broses ddemocrataidd*

Y rhwystr olaf rhag recriwtio a amlygwyd oedd amharodrwydd cyffredinol i ymwneud â gwleidyddiaeth, sy'n deillio o ddiffyg diddordeb neu ganfyddiadau negyddol o'r system wleidyddol. Roedd yr amharodrwydd hwn nid yn unig yn gysylltiedig â phwyntiau cynharach am wybodaeth gyfyngedig a phrosesau anhryloyw, ond hefyd â diffyg ymddiriedaeth cynyddol mewn gwleidyddion a sefydliadau gwleidyddol. Cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at gamdybiaeth gyffredin y byddai cynyddu cefnogaeth yn syml yn hybu cyfranogiad democrataidd yn awtomatig, ond y gwir amdani yw bod gan lawer o unigolion resymau personol dros optio allan. Mae'r rhesymau hyn yn cynnwys credu y gallant gyflawni newid mwy arwyddocaol trwy lwybrau anetholiadol fel actifiaeth leol, credu bod mannau gwleidyddol yn "sychlyd" neu'n anneniadol, profiadau blaenorol negyddol o ymwneud â gwleidyddiaeth, neu atgasedd cyffredinol tuag at bleidiau gwleidyddol.


#### 3.2.1.3. Rhwystrau recriwtio – canfyddiadau o'r arolygon ag aelodau etholedig ac ymgeiswyr

Profwyd y canfyddiadau hyn yn yr arolygon ag aelodau etholedig ac ymgeiswyr. Wrth archwilio'r ffactorau yr amlygwyd eu bod yn rhwystrau sylweddol rhag ceisio swydd etholedig ar draws yr holl aelodau etholedig ac ymgeiswyr (gan gynnwys cynghorwyr ac ymgeiswyr tref, plwyf, neu gymuned; cynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol; ac Aelodau'r Senedd (ASau) ac ymgeiswyr i'r Senedd), y ffactorau a nodwyd amlaf oedd ansicrwydd ynlgŷn â bod â digon o brofiad ar gyfer y rôl a diffyg cysylltiadau gwleidyddol (gweler Ffigurau 1-3).

**Ffigur 1. Y rhwystr recriwtio mwyaf arwyddocaol wrth geisio etholiad i'r cyngor tref, plwyf, neu gymuned am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr tref, plwyf neu gymuned (n = 22)**





**Ffigur 2. Y rhwystr recriwtio mwyaf arwyddocaol wrth geisio etholiad i'r Awdurdod Lleol am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol (n = 52)**




Sylwer: Mae un ymatebwr a ymgeisiodd fel ymgeisydd annibynnol mewn etholiad cyngor Awdurdod Lleol, ond na etholwyd, wedi cael ei eithrio o'r tabl hwn.


**Ffigur 3. Y rhwystr recriwtio mwyaf arwyddocaol wrth geisio etholiad i Senedd neu Gynulliad Cymru am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o ASau ac ymgeiswyr i'r Senedd (n = 19)**




Sylwer: Mae dau ymateb gan unigolion a ymgeisiodd fel ymgeiswyr annibynnol ar gyfer Senedd neu Gynulliad Cymru, ond na etholwyd, wedi cael eu heithrio o'r tabl hwn.

At ei gilydd, roedd yr ymgeiswyr yn cytuno'n gryf â sawl datganiad ynglŷn â'u hymgysylltiad gwleidyddol a'u gwybodaeth am brosesau gwleidyddol. Dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn teimlo'n hyderus wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd pleidiau cenedlaethol (e.e., cynadleddau pleidiau), eu bod yn cael eu hannog i ymwneud mwy â'u plaid, a'u bod yn teimlo'n gymwys i wasanaethu fel Aelod o Senedd Cymru (neu gyngor Awdurdod Lleol). Gwnaethant hefyd ddangos dealltwriaeth dda o brosesau dethol ymgeiswyr eu plaid, y broses o ddod yn Aelod o Senedd Cymru (neu gyngor Awdurdod Lleol), a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r rôl. Yn ogystal, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn anghytuno â datganiadau a oedd yn awgrymu eu bod wedi cael eu trin yn annheg o fewn eu plaid o ganlyniad i'w statws economaidd-gymdeithasol neu nodweddion gwarchodedig (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, gan gynnwys ethnigrwydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ac anabledd). Mae'r patrymau hyn yn gyson ar draws pob lefel wleidyddol a arolygwyd (gweler Ffigurau 4-6).

**Ffigur 4. Gan feddwl am eich profiadau yn y blaid wleidyddol yr ydych yn aelod ohoni ar hyn o bryd, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr tref, plwyf neu gymuned (n = 22).**




**Ffigur 5. Gan feddwl am eich profiadau yn y blaid wleidyddol yr ydych yn aelod ohoni ar hyn o bryd, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol (n = 51)**




Sylwer: Mae un ymatebwr a ymgeisiodd fel ymgeisydd annibynnol mewn etholiad cyngor Awdurdod Lleol, ond na etholwyd, wedi cael ei eithrio o'r tabl hwn.

**Ffigur 6. Gan feddwl am eich profiadau yn y blaid wleidyddol yr ydych yn aelod ohoni ar hyn o bryd, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Ffynhonnell: arolwg o ymgeiswyr Senedd neu Gynulliad Cymru (n = 12)**




Sylwer: Mae dau ymateb gan unigolion a ymgeisiodd fel ymgeiswyr annibynnol ar gyfer Senedd neu Gynulliad Cymru, ond na etholwyd, wedi cael eu heithrio o'r tabl hwn.

#### 3.2.1.4. Rhwystrau recriwtio – canfyddiadau o'r cyfweliadau ag aelodau etholedig ac ymgeiswyr

Rhoddodd y cyfweliadau dilynol ag aelodau etholedig ac ymgeiswyr arlliw pellach i ganfyddiadau'r arolwg.[2] Yn fwy penodol, roedd y rhwystr recriwtio a drafodwyd yn fwyaf

[2] I gael rhagor o gyd-destun am rwystrau recriwtio, sy'n cynnwys cymhellion ymgeisydd posibl, rhennir rhesymau aelodau etholedig ac ymgeiswyr dros ddewis ymgeisio am etholiad yma. Mynegodd llawer ddiddordeb cyffredinol mewn gwasanaeth cyhoeddus a chynrychioli pobl, a oedd wedi'i ymwreiddio weithiau

cyffredin mewn cyfweliadau ag aelodau etholedig a chyn ymgeiswyr am swydd etholedig yn ymwneud â gwybodaeth am wleidyddiaeth etholiadol ac agweddau tuag ati. Nododd llawer o gyfranogwyr fod y gofyniad canfyddedig i fod â rhwydweithiau cryf i allu ymgeisio am etholiad yn rhwystr, a dywedodd sawl un y bu'n anodd iddynt gael eu dethol neu eu hethol yn erbyn ymgeiswyr â rhwydweithiau gwell, ni waeth am eu galluoedd a'u profiad. Soniodd rhai fod aelodaeth â phlaid yn werthfawr i greu'r cysylltiadau hyn, gan nodi'r buddion a gynigir gan gydweithwyr profiadol a rhwydweithiau sefydledig; i'r gwrthwyneb, nodwyd heriau i bleidiau bach ac annibynwyr.

Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd deall systemau a phrosesau gwleidyddol. Teimlai llawer nad oedd gan y cyhoedd wybodaeth sylfaenol hyd yn oed am rolau cyrff etholedig a'u haelodau, a bod bylchau mwy fyth o ran deall beth sy'n gysylltiedig ag ymgeisio am etholiad. Ystyriwyd bod y prosesau hyn yn arbennig o anhryloyw ar lefelau uwch, yn enwedig y Senedd. Priodolodd rhai cyfranogwyr hyn i ddiffyg tryloywder neu gyfathrebu aneffeithiol gan sefydliadau gwleidyddol. Er y nododd ambell un y gallai aelodaeth â phlaid helpu i bontio'r bwlch gwybodaeth hwn, teimlai eraill nad yw pleidiau gwleidyddol yn gwneud llawer i addysgu eu haelodau na'r cyhoedd ehangach am wirioneddau ymarferol gwleidyddiaeth etholiadol. Amlinellodd ddau eu pryderon:

> "Mae'r pleidiau gwleidyddol yn ceisio'ch annog i ymgeisio, ond dydyn nhw ddim yn dweud wrthych beth sy'n gysylltiedig â hynny, a faint fydd y gost, a faint o oriau y bydd angen i chi eu hymroi, a phethau fel yna. Felly, rwy'n credu bod angen mwy o wybodaeth am recriwtio." (Cynghorydd cymuned)

> "Rwy'n credu mai'r un mwyaf rydw i wedi clywed pobl eraill yn sôn amdano yw dydyn nhw ddim yn gwybod digon am beth sy'n gysylltiedig â bod yn gynghorydd, mewn gwirionedd. Mae llawer o bobl yn credu eu bod nhw'n 'addas i fod yn gynghorydd', os yw hynny'n gwneud synnwyr, ie? Bryd hynny, mae disgwyl i ni ac eraill ddweud, yn amlwg, 'wel, ie, mewn gwirionedd, fe allwch chi ac fe fyddech chi'n dda'. Mae llawer o bobl yn rhoi'r gymuned yn gyntaf, on'd 'dyn nhw? Maen nhw yno ar gyfer popeth yn y gymuned, maen nhw'n ymwneud â phethau'n weithredol. Rydych chi'n gweld y gwaith maen nhw'n ei wneud, ac yn cydnabod y byddai'r person hwn yn gynghorydd gwych. Ond dydyn nhw ddim o reidrwydd yn gweld eu hunain fel yna." (Cynghorydd tref)

Awgrymodd cyfranogwyr hefyd fod ymdeimlad cryf o beidio â bod yn berson 'o'r iawn ryw' i ymgeisio am etholiad. Disgrifiodd un cynghorydd deimlo'n ofnus ynglŷn ag ymgeisio ar gyfer y Senedd, er ei fod yn weithgar yn ei blaid, oherwydd teimlad bod rolau uwch yn fwy addas i rai "pobl ddylanwadol", a myfyriodd ar ba mor anodd oedd ceisio ymuno â'r grŵp hwnnw.

---

trwy hanes o swyddi cynrychioliadol neu gyhoeddus neu waith gwirfoddol, neu awydd i helpu eu cymuned. Roedd rhai wedi ymddiddori mewn gwleidyddiaeth trwy faterion neu ymgyrchoedd amlwg, fel y newid yn yr hinsawdd neu gau gwasanaethau lleol. Roedd eraill wedi ymwneud o ganlyniad i ddiddordeb penodol mewn gwleidyddiaeth neu ddemocratiaeth, gan ymgeisio weithiau i atal deiliad sedd neu blaid fawr rhag ennill yn ddiwrthwynebiad. Roedd gan nifer fach o gyfweleion hanes teulu o ymwneud â gwleidyddiaeth, ac roedd ambell un wedi achub ar gyfle i ymgeisio, a hwythau'n digwydd bod ar gael ar adeg pan gododd gyfle. Yn gyffredinol, nid oedd gan y cyfranogwyr un rheswm yn unig. Yn hytrach, fe'u gyrrwyd gan gyfuniad o ffactorau cynhenid ac allanol, lle'r oedd diddordebau a chymhellion personol yn cyd-fynd â chyfleoedd i roi'r rhain ar waith trwy ymgeisio am etholiad.

Teimlwyd bod hyn yn ddwysach ar gyfer pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, nad oes ganddynt wybodaeth na rhwydweithiau presennol.

Mynegodd sawl cyfranogwr bryder ynglŷn â difaterwch a diffyg diddordeb cyffredinol mewn gwleidyddiaeth, sydd wedi'i wreiddio'n aml mewn cred nad yw ymwneud â gwleidyddiaeth yn arwain at newid ystyrlon neu flinder cyffredinol â'r 'sefyllfa bresennol'. Cyfeiriodd rhai at ganrannau pleidleisio isel fel tystiolaeth o'r ymddieithriad hwn. Nodwyd bod pobl ifanc, yn arbennig, yn gallu bod yn anodd ymgysylltu â nhw, yn ogystal â phobl sy'n wynebu caledi economaidd-gymdeithasol a allai fod yn canolbwyntio ar fodloni eu hanghenion sylfaenol ac nad oes ganddynt lawer o amser nac egni i ymwneud â gwleidyddiaeth. Dywedodd un cyfranogwr nad yw pobl yn gwneud y cysylltiad yn aml rhwng yr hyn maen nhw'n ei ystyried yn 'wleidyddiaeth' a'u pryderon dydd i ddydd, fel casgliadau sbwriel, er bod penderfyniadau gwleidyddol yn cael dylanwad pwysig ar y materion hyn.

Amlygodd rhai swyddogion etholedig ac ymgeiswyr ddiffyg atynioldeb canfyddedig rolau etholedig fel rhwystr recriwtio, gan nodi cysylltiadau clir â chategorïau eraill o rwystrau. Yn aml, roedd y cyhoedd o'r farn bod y rolau hyn yn heriol, yn talu'n wael, ac yn ddiddiolch, heb lawer o allu i gyflawni newid gwirioneddol. Er y crybwyllwyd ofn camdriniaeth hefyd, trafodwyd y pryder hwn yn amlach mewn perthynas â rhwystrau ymateb.

### 3.2.1.5. Rhwystrau recriwtio – canfyddiadau o'r cyfweliadau â dinasyddion Cymru

Yn yr un modd ag aelodau etholedig ac ymgeiswyr, y rhwystrau a fynegwyd amlaf gan ddinasyddion a gyfwelwyd oedd gwybodaeth am systemau a phrosesau, a rhwydweithiau. Roedd y rhan fwyaf o'r farn nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i ddeall neu ymwneud â gwleidyddiaeth etholiadol, gan ddweud bod y systemau'n rhy gymhleth ac nad oedd gwybodaeth ar gael yn ddigon hwylus. Dywedodd rhai na eglurwyd erioed ei fod yn opsiwn a oedd ar gael iddynt. Roedd un cyfwelai o'r farn y gallai'r diffyg gwybodaeth hwn fod yn arbennig o ddwys i bobl sydd dan anfantais:

> "Os ydych chi'n dlawd, does gennych chi ddim digon o adnoddau addysgol yn aml i gael y rolau uwch hyn oherwydd eu bod nhw'n gofyn am fwy – ac, mewn llawer o'r ardaloedd difreintiedig hyn yn y Deyrnas Unedig, dydyn nhw ddim yn darparu'r addysg sy'n angenrheidiol i ymgeisio am y rolau hyn, a dydyn nhw ddim hyd yn oed yn ein haddysgu bod y rolau hyn ar gael." (Un o ddinasyddion Cymru)

Roedd llawer o'r farn y byddai angen i rywun fod wedi'i hen sefydlu mewn cymuned a bod â chysylltiadau helaeth i lwyddo mewn etholiad. Roedd rhai cyfweleion o'r farn y gallai hyn fod yn anfantais i bobl iau a oedd wedi symud i ardal i astudio neu weithio. Awgrymwyd hefyd nad yw strwythurau gwleidyddol yn galluogi rhwydweithio neu fagu hyder yn y modd hwn yn rhwydd:

> "Y rhesymau pam mae ffactorau economaidd-gymdeithasol yn cyfrannu at atal pobl rhag ystyried hyn [ymgeisio am etholiad], cael y wybodaeth, neu deimlo eu bod yn rhan o rwydwaith yw'r diffyg cyfarfodydd cyhoeddus a mannau democrataidd sy'n caniatáu i hynny ddigwydd. […] Felly, dydw i ddim yn credu

> bod rolau etholedig o fewn cymuned yn teimlo'n ddyheadol i bobl oherwydd does ganddyn nhw ddim profiad o fod mewn cynulliad." (Un o ddinasyddion Cymru)

Er nad yw dulliau cyfethol i gynghorau tref, plwyf a chymuned yn dibynnu ar ymgyrchu a phleidleisio, dywedodd ambell gyfwelai fod angen i'r prosesau hyn gael eu cymeradwyo gan aelodau presennol y cyngor o hyd, a allai fod rhagfarnllyd. Mewn un achos, roedd cyfwelai'n credu y cafodd ei wrthod am gyfetholiad o blaid person arall a oedd yn cyd-fynd â phlaid wleidyddol fwyafrifol y cyngor; dywedodd cyfwelai arall, er y cysylltwyd ag ef ar gyfer cyfetholiad i ddechrau, y cafodd ei rwystro wedi hynny oherwydd bod aelodau'r cyngor yn credu na fyddai'n gallu cyflawni ei ddyletswyddau oherwydd ei fod yn gweithio patrwm sifft.

Yn ogystal, amlygodd sawl cyfwelai ddiffyg hyder neu deimlo nad oeddent yn "berson o'r iawn ryw" i ymgeisio am etholiad. Ystyriwyd bod yr ymdeimlad hwn o 'syndrom y ffugiwr'[3] yn arbennig o amlwg wrth ystyried rolau etholedig uwch. Roedd wedi'i gysylltu'n agos â materion fel rhwydweithiau cyfyngedig, a nododd cyfranogwyr fod diffyg amlygiad i wleidyddion etholedig yn gallu atgyfnerthu'r canfyddiad bod y rhai sydd mewn swydd yn sylfaenol wahanol i ddinasyddion cyffredin, sy'n llesteirio uchelgais gwleidyddol ymhellach.

> "Rwy'n credu bod y syniad o'r 'cyngor' yn rhywbeth eithaf brawychus – mae'n ymddangos yn rhy ffurfiol. Mae'n ymddangos yn frawychus yn y ffordd yna. Mae'n teimlo fel bod llawer o gyfrifoldeb." (Un o ddinasyddion Cymru)

Yn ogystal, roedd rhai cyfweleion yn teimlo'n syml nad oedd gwleidyddiaeth etholiadol yn addas iddynt, gan ei disgrifio fel rhywbeth "hen ffasiwn" neu fynegi ymdeimlad o ddiffyg hyder ynglŷn â'u gallu i wneud gwahaniaeth ystyrlon. Mynegodd ambell un hefyd bryderon am y posibilrwydd o golli preifatrwydd yn sgil rhoi eich hun yn llygad y cyhoedd trwy ymgeisio am etholiad. Roedd hyn yn gysylltiedig ag ofn camdriniaeth neu dresmasu ar breifatrwydd yn syml:

> "Yn ddamcaniaethol, 'taswn i â digon o arian i wneud hynny, i ymgyrchu ac ymgeisio am swydd etholedig, a fyddwn i'n gwneud hynny? Na, […] byddwn i'n rhy ofnus oherwydd, beth 'tasai rhywun yn fy ngweld i'n feddw ar noson allan? Neu beth 'taswn i'n dweud rhywbeth dwl wrth rywun ac roedden nhw'n digwydd bod yn ei recordio, neu fod rhywbeth y gallwn i fod wedi'i ddweud ar gyfryngau cymdeithasol, y gallwn i fod wedi anghofio'n llwyr amdano, yn codi? Byddai hynny'n achosi pryder enfawr." (Un o ddinasyddion Cymru)

Holwyd y cyfweleion hefyd ynglŷn â chanfyddiad nad oedd gan wleidyddion y pŵer i wireddu newid, gan fod hyn yn ganfyddiad allweddol o'r arolwg dinasyddion (gweler Atodiad B). Heriodd rhai cyfranogwyr y farn hon gan ddweud, er enghraifft, bod cynghorwyr Awdurdod Lleol yn goruchwylio cyllidebau sylweddol a bod ASau yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau polisi arwyddocaol. Nid oedd eraill o'r farn bod gwleidyddion yn gwbl ddi-rym, ond roeddent yn credu y dylid rhoi mwy o awdurdod iddynt wireddu newid ystyrlon.

---

[3] Diffinnir syndrom y ffugiwr fel hunanamheuaeth ynglŷn â deallusrwydd neu allu ymhlith unigolion sy'n cyflawni'n uchel (Huecker et al., 2013). O ran swyddogion etholedig, byddai'n hunanamheuaeth ddi-sail ynglŷn â'u gallu i wasanaethu fel swyddog.

Roedd ambell gyfwelai'n cytuno nad oes gan wleidyddion bŵer i wireddu newid ystyrlon, gan fynegi rhwystredigaeth yn aml â faint o fiwrocratiaeth sydd mewn gwleidyddiaeth leol, a allai rwystro neu oedi'r broses o weithredu syniadau buddiol, yn eu barn nhw. Roedd sawl un yn teimlo bod mwy o newid yn bosibl petai'n cael ei ysgogi gan gymdeithas ddinesig ac actifiaeth, yn hytrach na gwleidyddiaeth etholedig.

> "Mae llawer o bobl o'r un oedran â fi'n ymddiddori mewn gwleidyddiaeth, ond nid yn y ffordd yna. Rwy'n teimlo bod actifiaeth yn wahanol rhwng y cenedlaethau y dyddiau hyn – yn yr ystyr bod pobl yn fy nghenhedlaeth i'n troi at gyfryngau cymdeithasol yn fwy ar gyfer actifiaeth, yn hytrach na mynd i wraidd y gymuned." (Un o ddinasyddion Cymru)

Awgrymodd un cyfwelai er y gallai gwleidyddion etholedig greu effaith barhaol, bod y broses yn aml yn araf, tra bod gwaith cymunedol yn gallu rhoi cymorth mwy uniongyrchol i bobl sydd mewn angen.

> "Mae rhai o'r pethau maen nhw'n ei wneud yn hynafol. Mae wedi'i wreiddio mewn degawdau lawer o hanes, wyddoch chi, ac mae'n cael ei wneud fel yna oherwydd dyna sut mae wastad wedi cael ei wneud, yn hytrach na beth sydd orau er mwyn i hyn weithio. Mae'r ffaith ei bod mor anodd i wneud hyd yn oed pethau da sylfaenol dros y bobl sydd wedi'ch ethol – rwy'n credu bod hynny'n gwneud fy mhenderfyniad i ymgeisio neu beidio […] yn haws oherwydd dyna beth fyddwn i eisiau ei wneud yn y swydd, ac os na alla' i wneud hynny, does dim gwerth iddo yn fy marn i." (Un o ddinasyddion Cymru)

### 3.2.2. Rhwystrau adnoddau rhag cyfranogiad democrataidd

Mae'r categori nesaf o rwystrau yn ymwneud ag adnoddau. Mae'r rhwystrau hyn yn cyfeirio at yr amser, yr arian, a'r cymorth sy'n angenrheidiol i ymgeisio am etholiad – ffactorau sy'n effeithio'n anghymesur ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig a dangynrychiolir a'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol (y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2019). Yn ôl y Comisiwn, mae rhwystrau adnoddau'n cynnwys cyfyngiadau ariannol personol (e.e., methu â fforddio treuliau ymgyrchu neu gymryd amser i ffwrdd o waith taledig), yn ogystal â'r pwysau amser sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau gofalu, mynediad cyfyngedig at drafnidiaeth neu leoliadau addas, a gwrthdaro amserlenni.

#### 3.2.2.1. Rhwystrau adnoddau – canfyddiadau o'r llenyddiaeth

Amlygwyd yn y llenyddiaeth y gallai rhwystrau sy'n gysylltiedig ag adnoddau atal pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol rhag ymgeisio am swydd etholedig. Yn fwyaf nodedig, mae hyn yn cynnwys cost ariannol cynnal ymgyrch, gan gynnwys cost teithio ar draws etholaeth ac argraffu deunyddiau ymgyrchu. Mae costau ariannol yn arbennig o heriol i ymgeiswyr annibynnol mewn etholiadau lleol ac etholiadau'r Senedd. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod ymgyrchoedd ar gyfer enwebiad plaid wleidyddol yn gallu bod yn waharddol o ddrud hefyd yn etholiadau San Steffan (Macleod et al., 2014). Mae costau ymgyrchu'n aml yn uwch i ymgeiswyr anabl, y gallai fod arnynt angen trafnidiaeth a llety drutach tra byddant yn ymgyrchu (y Ganolfan Polisi Anabledd, 2022; Evans a Reher, 2020). Yn ogystal â chostau uniongyrchol ymgyrchu, mae'n gofyn am lawer

iawn o amser hefyd. Mae ymgyrchu mewn etholiad cystadleuol yn cymryd llawer o amser, sy'n gallu rhwystro ymgeiswyr sy'n gweithio neu sydd â chyfrifoldebau gofalu. Canfuwyd bod gan hyn oblygiadau arbennig o gryf i ymgeiswyr dosbarth gweithio a benywaidd (Smith & Davies, 2022; Quilter-Pinner et al., 2022).

Yn ogystal, mae ymgeiswyr sy'n llwyddo i gael eu hethol yn wynebu rhwystrau sy'n gysylltiedig ag adnoddau hefyd, yn enwedig y rhai hynny a etholir i lywodraeth leol. Mae llawer o deithio'n gysylltiedig â bod yn gynrychiolydd etholedig, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, sy'n gallu bod yn arbennig o ddrud a heriol i gynrychiolwyr anabl. At hynny, telir cynghorwyr Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflog sylfaenol o £17,600 y flwyddyn[4] yn 2024 a disgwylir iddynt weithio 21 awr yr wythnos (Llywodraeth Cymru, 2024b). Fodd bynnag, mae arolygon ymgeiswyr sy'n ymddeol yn awgrymu bod y rhan fwyaf o gynghorwyr yn gweithio mwy na'r 21 awr yr wythnos a nodir yn y canllawiau ffurfiol (Hibbs, 2022; CLILC, 2017; CLILC, 2022). Os oes angen ffynhonnell ychwanegol o incwm ar gynghorwyr ond nid oes ganddynt amser i'w dilyn, fe allai'r cyflog ar gyfer cynghorwyr Awdurdod Lleol fod yn rhwystr, yn enwedig ar gyfer unigolion sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol (Owens, 2022). Fe allai hyn olygu bod rolau o'r fath ar gael yn unig i bobl sydd â modd. Yn gysylltiedig â hyn, mae rôl cynghorydd tref neu gymuned yn ddi-dâl i raddau helaeth, heblaw am ad-dalu nifer gyfyngedig o dreuliau. Mae'r heriau adnoddau hyn yn heriau 'ochr gyflenwi' yn bennaf, gan eu bod yn cyfyngu ar y gronfa pobl sy'n gallu fforddio bod yn gynghorydd Awdurdod Lleol neu dref a chymuned (Lovenduski, 2005).

#### 3.2.2.2. Rhwystrau adnoddau – canfyddiadau o'r gwaith maes gydag arbenigwyr ac ymarferwyr

Dywedodd arbenigwyr ac ymarferwyr fod rhwystrau adnoddau'n gallu cael effaith fawr ar debygolrwydd ymgeisydd sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol o lwyddo. Un o'r rhwystrau mwyaf arwyddocaol yw bod ymgyrchu dros ddethol neu ethol, yn enwedig mewn ymrysonau cystadleuol, yn gofyn am ymrwymiad amser sylweddol sy'n anodd ei reoli ochr yn ochr â gwaith amser llawn. Mae'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn llai tebygol o fod â chynilion i fforddio cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith, ac yn llai tebygol o weithio oriau hyblyg – yn wahanol i ymgeiswyr sy'n hunangyflogedig neu'n uwch reolwyr, o bosibl. At hynny, mynegodd arbenigwyr ac ymarferwyr ansicrwydd ynglŷn â ph'un a yw ymgeisio am swydd etholedig yn bodloni'r meini prawf lles 'chwilio am waith'. Mae hyn yn golygu bod ansicrwydd ynglŷn â ph'un a allai ymgeisydd am swydd etholedig sy'n derbyn budd-daliadau wynebu cosbau am ymgyrchu dros etholiad, ac felly peidio â cheisio mathau traddodiadol o gyflogaeth. Yn gysylltiedig â hyn, nododd cyfranogwyr fod angen i unigolion â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill dalu am wasanaethau preifat yn aml i ryddhau amser ar gyfer ymgyrchu – traul sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

[4] Caiff cynghorwyr Awdurdod Lleol hawlio unrhyw gostau teithio, gofal, neu gynhaliaeth a geir pan fyddant ar fusnes swyddogol. Fodd bynnag, canfu arolwg yn 2022 nad yw cyfran fawr iawn o gynghorwyr sy'n gymwys i hawlio'r costau hyn yn gwneud hynny – amlygwyd diffyg ymwybyddiaeth, stigma, chwithigrwydd, a chanlyniadau etholiadol negyddol fel rhesymau posibl dros y niferoedd isel sy'n manteisio ar y cyfle (Owens, 2022).

Yn ogystal â cholli incwm, fe allai ymgeiswyr wynebu costau ymgyrchu uniongyrchol, gan gynnwys: (i) argraffu taflenni; (ii) blaendaliadau sy'n ofynnol ar gyfer etholiadau'r Senedd; (iii) treuliau dealledig, fel darparu bwyd a diod i wirfoddolwyr neu deimlo rheidrwydd i wisgo'n broffesiynol; a (iv) costau sy'n gysylltiedig ag offer TG, trafnidiaeth, a band eang, sydd oll yn gallu bod yn ataliol i rai ymgeiswyr. Amlygwyd y gallai'r rhwystrau hyn fod yn ddwysach o lawer i ymgeiswyr annibynnol ac aelodau pleidiau llai, na allent ddibynnu ar gefnogaeth ariannol plaid fawr, neu'r rhwydwaith mewnol o wirfoddolwyr a chefnogwyr.

Ffactor allweddol a amlygwyd gan rai arbenigwyr ac ymarferwyr yw bod pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn tueddu i fod yn llai parod i fentro gydag arian, gan fod colled ariannol fach hyd yn oed yn gallu arwain at ganlyniadau difrifol iddyn nhw a'u teuluoedd. O ystyried cyflog cymharol isel cynghorwyr lleol a'r canfyddiad cyffredinol eu bod nhw'n aml yn gweithio llawer mwy o oriau nag y cânt eu digolledu amdanynt (Owens, 2022), roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y gallai ymgeiswyr sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol gael llai o gyflog petaent yn cael eu hethol i gyngor Awdurdod Lleol, ac yn enwedig petaent yn gwasanaethu ar gyngor tref neu gymuned di-dâl. Rhwystr cysylltiedig a phwysig yw'r ffaith nad oes cymorth ariannol ar gael ar hyn o bryd i'r rhai sy'n colli eu sedd, yn wahanol i'r 'Grant Ymaddasu' sydd ar gael i aelodau sy'n colli swyddi yn y Senedd neu San Steffan.[5] O ganlyniad, mae unigolion yn colli incwm sylweddol yn sydyn os na chânt eu hailethol. Dadleuodd cyfranogwyr fod y risg hon yn atal ymgeiswyr sy'n fwy amharod i dderbyn risg sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, yn enwedig y rhai hynny â threuliau ychwanegol, fel unigolion anabl neu'r rhai hynny sydd â chyfrifoldebau gofalu, rhag ymgeisio am etholiad.


#### 3.2.2.3. Rhwystrau adnoddau – canfyddiadau o'r arolwg aelodau etholedig ac ymgeiswyr

Yn yr arolwg aelodau etholedig ac ymgeiswyr, ystyriwyd mai diffyg amser i ymgyrchu ar gyfer yr etholiad oedd y rhwystr adnoddau mwyaf sylweddol i gynghorwyr ac ymgeiswyr tref, plwyf, cymuned, ac Awdurdod Lleol. Ar y llaw arall, o ran ymgeiswyr i'r Senedd, amlygwyd diffyg arian i ymgyrchu ar gyfer yr etholiad fel y prif rwystr. Nid yw'n glir beth sy'n achosi'r gwahaniaeth, ond fe allai fod yn gysylltiedig â'r etholaethau mwy o faint y mae'n rhaid i ymgeiswyr i'r Senedd ymgyrchu ynddynt, yn enwedig seddi 'rhanbarthol' neu 'restr' mawr iawn system etholiadau 1999-2021 y Senedd.


Ymhlith Aelodau'r Senedd a fynegodd y pryder hwn, dywedodd pob un nad oeddent wedi cael cymorth ariannol yn ystod eu hymgyrch. Ar gyfartaledd (ymhlith y rhai a adroddodd ffigur uwch na sero), y draul uniongyrchol iddyn nhw, neu eu haelwyd, o ganlyniad i'w hymgeisyddiaeth lwyddiannus gyntaf i'r Senedd oedd £780. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn eu bod ar radd 5 ar yr ysgol gymdeithasol ar gyfartaledd, o gymharu â gradd 5.9 ar gyfartaledd ymhlith yr holl ymatebwyr i'r arolwg.

[5] Dylid nodi bod y mater hwn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd; mae Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 yn cynnwys darpariaeth i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru bennu swm unrhyw daliad ymaddasu sy'n daladwy gan awdurdod lleol, fel y rhagnodir mewn rheoliadau y gallai Gweinidogion Cymru eu gwneud.

**Ffigur 7. Y rhwystr adnoddau mwyaf sylweddol a wynebwyd wrth geisio etholiad i'r cyngor tref, plwyf, neu gymuned am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr tref, plwyf neu gymuned (n = 22)**





**Ffigur 8. Y rhwystr adnoddau mwyaf sylweddol a wynebwyd wrth geisio etholiad i'r Awdurdod Lleol am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol (n = 52)**




Sylwer: Mae un ymatebwr a ymgeisiodd fel ymgeisydd annibynnol mewn etholiad cyngor Awdurdod Lleol, ond na etholwyd, wedi cael ei eithrio o'r tabl hwn.

**Ffigur 9. Y rhwystr adnoddau mwyaf sylweddol a wynebwyd wrth geisio etholiad i Senedd neu Gynulliad Cymru am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o ASau ac ymgeiswyr i'r Senedd (n = 19)**




Sylwer: Mae dau ymateb gan unigolion a ymgeisiodd fel ymgeiswyr annibynnol ar gyfer Senedd neu Gynulliad Cymru, ond na etholwyd, wedi cael eu heithrio o'r tabl hwn.

#### 3.2.2.4. Rhwystrau adnoddau – canfyddiadau o'r cyfweliadau ag aelodau etholedig ac ymgeiswyr

Yn unol â chanfyddiadau'r arolwg, rhwystr adnoddau allweddol a amlygwyd yn ystod cyfweliadau ag aelodau etholedig ac ymgeiswyr oedd yr ymrwymiad amser sylweddol sy'n gysylltiedig â gwleidyddiaeth etholedig a'i effaith bosibl ar ragolygon gyrfa. Pwysleisiodd llawer o gyfweleion ba mor anodd yw cydbwyso swydd amser llawn ag ymgyrchu neu, os cânt eu hethol i swydd ddi-dâl neu isel ei chyflog, rheoli'r cyfrifoldebau hynny ochr yn ochr â gwaith. O ran aelodau'r Senedd a chynghorwyr Awdurdod Lleol amser llawn, nododd y cyfranogwyr sut gallai cymryd amser i ffwrdd effeithio ar yrfaoedd pobl iau yn arbennig, yn ariannol ac o ran camu ymlaen mewn gyrfa. Trafodwyd natur newidiol gwaith hefyd, a'r ffaith bod cynnydd contractau dim oriau a dirywiad diwydiannau gwladol ac undebol yn golygu ei bod yn fwyfwy anghyffredin i gyflogwyr ganiatáu i ymgyrchwyr am etholiad gael amser i ffwrdd.

> "Yn ffodus iawn, cefais fy newis ac yna ymgeisio am etholiad ar yr un pryd â dod yn bennaeth arnaf fy hun. Roeddwn yn ffodus o allu cydbwyso ymrwymiadau gwaith â'r hyn a oedd yn ymgyrch etholiad ddwys iawn. Roedd dethol, fel y dywedais, yn eithaf syml. Ond roedd yr etholiad ym mis Mai – roedden ni allan ar y penwythnos yn sicr, ond yn fuan wedi hynny roedden ni allan yng nghanol yr wythnos hefyd o tua mis Ionawr ymlaen. Felly, rwy'n credu fy mod i'n ffodus o gael yr hyblygrwydd i ymroi'r oriau a gronnodd wrth wneud hynny. Ac, yn amlwg, roeddwn yn ennill rhywfaint o arian trwy fy ngwaith ar fy liwt fy hun. Felly, ie, fe oroesais. Fe allaf ddychmygu petaech chi'n gwneud swydd amser llawn, wyddoch chi, eich bod chi naill ai'n rhoi'r gorau iddi, gyda goblygiadau ariannol amlwg, neu'n methu ymroi'r amser i'r ymgyrch. Felly, byddwn i'n dweud bod

> amser ac arian yn allweddol os ydych chi'n mynd i'w wneud yn iawn."
> (Cynghorydd sir)

At hynny, tynnodd sawl cyfranogwr sylw at y costau uchel sy'n gysylltiedig ag ymgeisio am etholiad, yn enwedig treuliau ar gyfer dylunio ac argraffu taflenni a phosteri, yn ogystal â thrafnidiaeth ar gyfer canfasio. Dywedodd cyfranogwyr fod pobl mewn ardaloedd gwledig yn wynebu mwy o heriau hygyrchedd, gan fod ceir yn anghenraid, bron.

Dywedodd cyfweleion fod annibynwyr ac ymgeiswyr o bleidiau llai yn wynebu anawsterau ychwanegol gan nad oes ganddynt adnoddau plaid fawr, fel cyllid a chymorth gwirfoddolwyr, i helpu i dalu am y costau ymgyrchu hyn. Awgrymodd un cyfwelai y gallai rhai ymgeiswyr dyheadol deimlo rheidrwydd i "chwifio baner y blaid" er mwyn ceisio etholiad llwyddiannus, hyd yn oed os oedd hyn yn groes i rai o'u gwerthoedd, o ganlyniad i'r goblygiadau adnoddau sy'n gysylltiedig ag ymgeisio'n annibynnol.

Ystyriwyd bod risgiau peidio â chael eich ailethol yn uwch i unigolion iau a llai cefnog yn arbennig, oherwydd gallent gael eu gadael "ar y clwt", yn enwedig ar gyfer rolau cynghorwyr na fu 'Grant Ymaddasu' ar gael ar eu cyfer yn hanesyddol i gefnogi sefydlogrwydd. Yn gysylltiedig â hyn, dadleuodd rhai cyfweleion nad yw rôl y cynghorydd lleol yn cynnig llawer o gyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa ac nad yw'n cael ei pharchu digon gan gyflogwyr i fod yn ddewis gyrfa hyfyw:

> "Rwy'n adnabod rhai cynghorwyr sir iau yn [Awdurdod Lleol] a dyma beth maen nhw wedi bod yn ei wneud ers gadael yr ysgol. […] Ac yna, maen nhw wedi treulio deng mlynedd fel cynghorydd lleol heb gyflog gwych – a, wel, beth wnân nhw nesaf? Os bydd pobl yn meddwl am hynny cyn cael eu hethol … mae'n ddadl dda iawn dros beidio ag ymgeisio, on'd yw e? Oherwydd os ydych chi eisiau gyrfa, mae pethau y mae angen i chi eu gwneud – fel cael gradd prifysgol – ac os yw bod yn gynghorydd yn swydd amser llawn yn y bôn, nid yw hynny'n mynd i weithio, yn amlwg." (Cynghorydd cymuned)

Law yn llaw â hyn, amlygodd rhai cyfranogwyr a etholwyd ar lefel tref, cymuned, plwyf, neu sir y costau adnoddau sy'n gysylltiedig â dal swydd etholedig. Cyfeiriodd sawl un hefyd at amharodrwydd ymhlith cynghorwyr i hawlio treuliau sydd ar gael oherwydd eu bod yn pryderu sut gallai unrhyw hawliadau o'r fath gael eu gweld gan y cyhoedd.

> "Mae'n costio arian i mi fod yn gynghorydd tref. Rwy'n cael £256 y flwyddyn ar gyfer treuliau. Fe gyfrifies i fy mod i'n cael llai na 50c yr awr. Ac yna maen rhaid i chi fynd i wahanol ddigwyddiadau cymunedol na allwch hawlio costau teithio'n ôl ar eu cyfer a phethau felly […] mae pobl yn cymryd diwrnodau i ffwrdd o'r gwaith neu'n cau eu busnesau am y prynhawn. Ac mae'n wych bod mewn ffair ysgol am 3 yn y prynhawn. Ond faint o bobl sy'n gallu fforddio gwneud hynny, wyddoch chi, neu faint o reolwyr pobl sy'n ddigon hyblyg i ddweud, 'ie, paid â phoeni, cymer y prynhawn i ffwrdd i fynd i ffair ysgol? […] Mae'n siŵr gen i fod rhyw ddarpariaeth sy'n caniatáu nifer benodol o oriau i chi i wneud pethau fel hyn […] ond y gwir yw bod hynny'n groes i'r diwylliant yn ôl pob tebyg […] yn enwedig oni bai eich bod chi wedi'ch hen sefydlu." (Cynghorydd cymuned)

Amlygodd sawl cyfranogwr hefyd yr heriau penodol sy'n wynebu'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, y nodwyd eu bod yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. Mae'r heriau hyn yn cynnwys y 'tlodi amser' uwch a brofir gan ofalwyr, yn ogystal â baich ariannol talu am ofal plant neu wasanaethau gofal eraill sy'n angenrheidiol i ryddhau amser i ymgyrchu neu gyflawni rolau etholedig.

Roedd yr holl rwystrau adnoddau hyn yn gysylltiedig â'r nifer anghymesur o swyddogion etholedig hŷn, wedi ymddeol, a chymharol gefnog. Nodwyd y mater hwn ar gyfer cynghorwyr mewn gwleidyddiaeth leol yn arbennig, gan nad yw'r swyddi hyn yn rhai cyflogedig amser llawn. Adlewyrchwyd hyn yn ein gwaith maes hefyd, gan fod mwyafrif y swyddogion etholedig a gymerodd ran mewn cyfweliadau yn ddynion dosbarth canol gwyn dros 50 oed.

Roedd lleiafrif o gynghorwyr etholedig o'r farn nad yw rhwystrau sy'n ymwneud ag arian ac amser yn berthnasol, gan fod y costau'n lleiafsymiol a bod y cyflog yn hael am y gwaith sy'n gysylltiedig.

> "Ni fyddai neb yn cael ei atal rhag ymgeisio o safbwynt ariannol oherwydd nid oes rhaid iddynt dalu i ymgeisio. Dim ond os byddant yn llwyddiannus y bydd rhaid iddynt dalu rhyw ychydig o arian, felly nid oes unrhyw rwystrau ariannol. Ac os nad oes ganddynt amser i ganfasio neu ymgyrchu, nid oes ganddynt amser i wneud eu gwaith fel cynghorydd – felly [amser fel rhwystr] mae'n eithaf amherthnasol, yn fy marn i." (Cynghorydd sir)

#### 3.2.2.5. Rhwystrau adnoddau – canfyddiadau o'r cyfweliadau â dinasyddion Cymru

Yn yr un modd, yn y cyfweliadau â dinasyddion Cymru, amlygodd y cyfranogwyr mai amser ac arian yw'r rhwystrau mwyaf o ran adnoddau. Dywedodd rhai na fyddent yn gallu cymryd yr amser i ffwrdd o'r gwaith i ymgyrchu, naill ai oherwydd na fyddai eu swydd yn hwyluso hyn neu oherwydd na allent fforddio colli cyflog neu gymryd absenoldeb estynedig.

> "Risg treulio amser gwirfoddol [i ymgyrchu], ac yna os na fyddwch yn llwyddiannus, byddwch chi wedi treulio'r holl amser yna, pan allen i fod wedi bod yn gweithio pan oedd angen i mi weithio, oherwydd bod angen i mi weithio pum niwrnod yr wythnos i dalu'r biliau. Felly, does gen i ddim gapasiti ychwanegol yn fy nghyfrif banc i ganiatáu i mi wneud diwrnod yr wythnos neu unrhyw beth i hyrwyddo fy hun fel ymgeisydd posibl." (Un o ddinasyddion Cymru)

Roedd gan gyfyngiadau ariannol gysylltiad agos ag amser, oherwydd deallwyd amser yn aml o safbwynt colli enillion. Amlygodd y cyfweleion bryderon hefyd ynglŷn â'r costau ariannol sy'n gysylltiedig ag ymgeisio, yn enwedig i'r rhai hynny nad ydynt yn gysylltiedig â'r prif bleidiau. Disgrifiodd rhai y straen cyffredinol a allai fod yn gysylltiedig â phrinder arian, gan deimlo os oedd pryderon ariannol yn rhan o fywyd dyddiol rhywun, na fyddai ganddynt lawer o le i feddwl am ymgeisio am etholiad.

Nodwyd bod y materion hyn yn ddwysach i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, yn enwedig menywod sydd â phlant ifanc, a oedd eisoes yn brysur ac yn aml wedi'u gorymestyn.

Myfyriodd un cyfwelai ar yr angen i rieni dreulio cyfnodau hir i ffwrdd oddi wrth eu plant wrth geisio etholiad, a'r aberth sy'n gysylltiedig â hyn:

> "Mae'n rhaid i chi golli rhywbeth er mwyn ymgeisio. Mae'n rhaid i chi benderfynu eich bod chi'n fodlon colli rhywbeth." (Un o ddinasyddion Cymru)

### 3.2.3. Rhwystrau ymateb rhag cyfranogiad democrataidd

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2019) yn categoreiddio rhwystrau ymateb rhag cyfranogiad democrataidd fel ymddygiadau ac ymatebion negyddol y mae unigolion yn eu hwynebu – o'r tu mewn i bleidiau gwleidyddol a chan y cyhoedd ehangach – yn seiliedig ar eu nodweddion gwarchodedig, sy'n gallu eu hannog i beidio â chymryd rhan mewn gwleidyddiaeth neu eu hatal rhag gwneud hynny. Mae'r rhain yn cynnwys profiadau o aflonyddu, gwahaniaethu, hiliaeth, rhywiaeth, a rhagfarn o fath arall.

#### 3.2.3.1. Rhwystrau ymateb – canfyddiadau o'r llenyddiaeth

Yn gronolegol, y rhwystr olaf y gall ymgeisydd am swydd etholedig ei wynebu yw ymateb y detholwyr a'r etholwyr. Yn y cyd-destun hwn, mae 'detholwyr' yn cyfeirio at y bobl sy'n penderfynu ar gynrychiolwyr plaid mewn etholiad – er enghraifft, aelodau cangen leol plaid a'r pwyllgor gweithredol, sy'n cytuno ar restr fer yn unol â rheolau'r blaid (Rahat, 2007). Nid yw'r cam hwn yn berthnasol i ymgeiswyr annibynnol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan ddetholwyr dueddiadau neu ragfarnau sy'n golygu eu bod yn llai tebygol o enwebu ymgeiswyr sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, yn enwedig mewn ymgyrchoedd yr ystyrir eu bod yn "enilladwy" (Tŷ'r Cyffredin, 2010; Ashe, 2019; Waltz & Schippers, 2021). Fodd bynnag, canfuwyd bod prosesau dethol yn amrywio'n sylweddol pan elwir etholiad 'dirybudd' neu gynnar, oherwydd bod ymgeiswyr yn tueddu i gael eu dethol trwy brosesau wedi'u brysio gyda mwy o reolaeth gan y blaid ganolog – sy'n gallu arwain at gynrychiolaeth decach o ymgeiswyr sy'n profi mathau o anfantais economaidd-gymdeithasol (Murray, 2021).

Yn ystod y degawdau diwethaf, mae Aelodau Seneddol (ASau) yn Nhŷ'r Cyffredin y Deyrnas Unedig bellach yn fwy tebygol o lawer o fod wedi gweithio mewn busnes, gwleidyddiaeth plaid a galwedigaethau proffesiynol – gyda llai o ASau â chefndir mewn gwaith llaw, addysgu, neu lywodraeth leol (Cracknell et al., 2022). Mae rhai papurau'n awgrymu bod aelodau etholedig y Senedd yn fwy tebygol o fod â chefndir mewn 'proffesiynau sy'n hwyluso gwleidyddiaeth', fel y gyfraith, materion cyhoeddus, addysg uwch, ac ymchwil wleidyddol (Awan-Scully et al., 2018). Ategir hyn gan Cairney a'i gydweithwyr (2016) a godiodd cyrff deddfwriaethol Prydeinig yn ôl galwedigaeth ffurfiannol flaenorol ac a ganfu, yn 2011, fod gan y Cynulliad y gyfran uchaf o aelodau â chefndir proffesiynol a chefndir sy'n hwyluso gwleidyddiaeth[6] o gymharu â Thŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban, ac Aelodau Prydeinig Senedd Ewrop. Roedd gan Gynulliad Cymru y gyfran isaf o aelodau o gefndiroedd coler las neu goler wen, sef 1.7% o'i aelodau yn unig, o gymharu â 9.7% yn Senedd yr Alban ar yr un pryd. Fodd bynnag, roedd y Cynulliad yn fwy

[6] Mae Cairney a'i gydweithwyr (2016) yn diffinio gyrfaoedd 'proffesiynol' fel y rhai hynny sy'n gofyn am gymwysterau ffurfiol (e.e. athrawon, cyfreithwyr, cyfrifwyr) a gyrfaoedd 'sy'n hwyluso gwleidyddiaeth' fel rolau sy'n cynnig llwybr mwy uniongyrchol tuag at waith gwleidyddol (e.e. gweithiwr plaid, undebwyr llafur, newyddiadurwyr, ymchwilwyr melin drafod, cynghorwyr lleol).

cynrychioliadol o'r boblogaeth o ran addysg breifat a chynrychiolaeth Rhydgrawnt. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod y Deyrnas Unedig – ac efallai Cymru yn arbennig – yn wynebu her benodol o ran cynrychiolaeth isel unigolion o gefndiroedd amhroffesiynol ac nad ydynt yn hwyluso gwleidyddiaeth, gyda chyfran arbennig o isel o aelodau etholedig yn dod o broffesiynau coler 'las' neu 'wen'.[7]

Fodd bynnag, mae perygl hefyd y gallai pleidiau gwleidyddol ddethol ymgeiswyr sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol neu gysylltiedig er mwyn cwblhau ymarfer "ticio blwch", yn enwedig ar gyfer ymgeiswyr sydd â phrofiadau croestoriadol, gan gynnwys menywod dosbarth gweithio a menywod ethnig leiafrifol. Gall hyn danseilio eu derbyn gan swyddogion etholedig eraill a'r cyhoedd a chydnabod rhinweddau a chyflawniadau ymgeisydd sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol (Begum & Sobolewska, 2024; Murray, 2021).

Prin yw'r ymchwil ar ba mor dda mae unigolion sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn gweithredu ar ôl cael eu dethol gan bleidiau gwleidyddol – yn benodol, a ydynt yn wynebu ymatebion rhagfarnllyd gan bleidleiswyr. Mae rhywfaint o'r llenyddiaeth a ddyfynnwyd uchod yn awgrymu bod y broses ddethol yn aml yn fwy rhagfarnllyd o lawer nag ymgyrchoedd etholiad. Canfu astudiaeth ledled y Deyrnas Unedig, Unol Daleithiau America, ac Ariannin nad oes tystiolaeth bod pleidleiswyr yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr dosbarth gweithio – yn wir, canfu fod pleidleiswyr Prydeinig yn fwy tebygol o bleidleisio dros ymgeisydd dosbarth gweithio nag ymgeisydd dosbarth canol 53% o'r amser (Carnes & Lupu, 2016). Gan droi at nodweddion gwarchodedig, mae Evans a Reher (2020) yn nodi "er gwaethaf yr ableddiaeth sy'n bresennol o fewn diwylliant pleidiau gwleidyddol ac o fewn prosesau recriwtio ac ymgyrchu gwleidyddol, ychydig iawn o'n cyfweleion a adroddodd ymatebion negyddol gan bleidleiswyr i'w hanabledd." Canfu astudiaeth gyferbyniol gan Martin a Blinder (2020) dystiolaeth bod ymgeiswyr ethnig leiafrifol yn wynebu pleidleisio rhagfarnllyd. Er enghraifft, canfu fod ymgeiswyr o gefndir du Caribïaidd yn wynebu rhagfarn dim ond pan fydd pleidleiswyr yn cael gwybod eu bod yn cefnogi 'polisïau o blaid lleiafrifoedd' neu y'u detholwyd trwy ddulliau cadarnhaol, tra bod ymgeiswyr o gefndir Pacistanaidd yn wynebu gwahaniaethu uniongyrchol ni waeth am eu safbwyntiau gwleidyddol a ddisgrifiwyd na'u dull dethol (ibid).

At hynny, mae ymateb lleiafrif o'r cyhoedd – a fynegir yn aml trwy gyfryngau cymdeithasol ond hefyd trwy drais corfforol – yn creu rhwystr arall sy'n atal pobl rhag ymgeisio am etholiad neu ailetholiad (y Gymdeithas Llywodraeth Leol, 2022). Gellir ystyried hyn yn effaith ehangach rhagfarn 'ochr y galw' sy'n dychryn pobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol rhag ymgeisio – gan felly arwain at effaith ehangach 'ochr gyflenwi' (Lovenduski, 2005). Ceir tystiolaeth gref bod cynghorwyr benywaidd yn sylweddol lai tebygol o geisio ailetholiad i lywodraeth leol na'u cymheiriaid gwrywaidd neu aros mewn gwleidyddiaeth mewn swyddi eraill ar ôl gadael llywodraeth leol (Allen, 2012). Canfu astudiaeth o aelodau etholedig lleol yng Nghymru (Farrel & Titcombe, 2016), a ddefnyddiodd gyfweliadau â 18 o gynghorwyr, dystiolaeth – ochr yn ochr â chyfyngiadau

[7] Mae Keating a Cairney yn rhoi proffesiynau coler 'las' a choler 'wen' gyda'i gilydd o ganlyniad i'w cynrychiolaeth isel yn y senedd. Esboniwyd y sail resymegol dros hyn mewn erthygl flaenorol: "Rydym wedi cyfuno gweithwyr coler wen cyffredin ac iau â gweithwyr llaw [h.y. 'coler las'] a gwahaniaethu'r rhain oddi wrth weithwyr proffesiynol ar un llaw a rheolwyr busnes preifat ar y llaw arall" (2005: 45).

adnoddau – bod ‘diwylliant gwleidyddol a ddominyddir gan ddynion’ ac ‘ymddygiad rhywiaethol’ yn ffactorau mawr sy’n gwneud menywod yn llai awyddus i ymgeisio am etholiad ac ailetholiad i lywodraeth leol yng Nghymru.

#### 3.2.3.2. Rhwystrau ymateb – canfyddiadau o’r gwaith maes gydag arbenigwyr ac ymarferwyr

Amlygodd arbenigwyr ac ymarferwyr fod ystrydebau a rhagfarn yn parhau ymhlith etholwyr a detholwyr, yn aml heb wahaniaethu’n glir rhwng y ddau. Disgrifiwyd sut yr ystyriwyd nad oedd rhai grwpiau, fel pobl anabl neu unigolion heb gefndir proffesiynol statws uchel, yn meddu ar y gallu angenrheidiol i ddal swydd etholedig. Nid oedd y tybiaethau hyn bob amser yn amlwg; yn lle hynny, dywedwyd bod codau ieithyddol – fel dweud “nad yw’n gynrychioliadol o’r mwyafrif” wrth gyfeirio at rywun – yn cael eu defnyddio i gyfiawnhau gwrthwynebu dethol neu ethol ymgeisydd. Roedd y safbwyntiau hyn yn aml yn gweithredu ar lefel isymwybodol, gan adlewyrchu rhagfarnau sydd wedi’u gwreiddio’n ddwfn yn yr amgylchedd gwleidyddol.


Pryder mawr arall a godwyd oedd diogelwch ymgeiswyr ac aelodau etholedig. Dywedodd cyfranogwyr ei bod yn ymddangos bod bygythiadau ac aflonyddu, ar-lein ac all-lein, yn cynyddu. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o ddwys mewn llywodraeth leol, lle mae unigolion yn fwy adnabyddus yn eu cymunedau ac fe allent gael llai o amddiffyniad sefydliadol na gwleidyddion â phroffil uchel fel Aelodau o’r Senedd neu Aelodau Seneddol. Er na ystyriwyd bod anfantais economaidd-gymdeithasol ar ei phen ei hun yn ffactor allweddol wrth brofi bygythiadau, nododd cyfranogwyr fod menywod, lleiafrifoedd ethnig, ac unigolion â nodweddion gwarchodedig eraill yn cael eu targedu’n amlach. Pwysleisiodd un cyfranogwr y gallai pobl sydd â mwy o adnoddau ariannol fod yn gallu diogelu eu hunain yn well trwy fesurau fel systemau diogelwch y cartref.

#### 3.2.3.3. Rhwystrau ymateb – canfyddiadau o’r arolwg aelodau etholedig ac ymgeiswyr


O fewn yr arolwg aelodau etholedig ac ymgeiswyr, adroddwyd am rwystrau sy’n gysylltiedig ag ymateb ar lefelau tebyg gan gynrychiolwyr etholedig ac ymgeiswyr a ymatebodd i’r arolygon. Roedd y pryderon a fynegwyd yn fwyaf cyffredin yn cynnwys gelyniaeth a thocsigrwydd yn ystod y cyfnod ymgyrchu, wyneb yn wyneb ac ar-lein, yn ogystal â rhagfarn ymwybodol a diarwybod gan bleidleiswyr.

Ymhlith cynghorwyr ac ymgeiswyr tref, plwyf, neu gymuned a gytunodd ag o leiaf un o’r pryderon hyn, roedd cyfran y dynion a menywod yr un peth (45% yr un). Y grŵp oedran mwyaf ymhlith y garfan hon oedd pobl 45 i 54 oed (27%). Ymhlith cynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol a fynegodd bryder ynglŷn â rhwystrau o’r fath, cynrychiolwyd dynion a menywod yn gyfartal unwaith eto (48% ill dau), ac roedd y rhan fwyaf o fewn y grŵp oedran 55 i 64 (30%). Ymhlith Aelodau o’r Senedd ac ymgeiswyr i’r Senedd a uniaethodd ag un o’r pryderon hyn o leiaf, roeddent i gyd yn ddynion (100%), a’r grŵp oedran mwyaf oedd pobl 45 i 54 (43%).

**Ffigur 10. Y rhwystr recriwtio mwyaf sylweddol sy'n wynebu pobl wrth geisio cael eu hethol i'r cyngor tref, plwyf, neu gymuned am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr tref, plwyf neu gymuned (n = 22)**





**Ffigur 11. Y rhwystr recriwtio mwyaf sylweddol sy'n wynebu pobl wrth geisio cael eu hethol i'r Awdurdod Lleol am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol (n = 52)**




Sylwer: Mae un ymatebwr a ymgeisiodd fel ymgeisydd annibynnol mewn etholiad cyngor Awdurdod Lleol, ond na etholwyd, wedi cael ei eithrio o'r tabl hwn.

**Ffigur 12. Y rhwystr recriwtio mwyaf sylweddol sy'n wynebu pobl wrth geisio cael eu hethol i Senedd neu Gynulliad Cymru am y tro cyntaf. Ffynhonnell: arolwg o ASau ac ymgeiswyr i'r Senedd (n = 19)**



Sylwer: Mae dau ymateb gan unigolion a ymgeisiodd fel ymgeiswyr annibynnol ar gyfer Senedd neu Gynulliad Cymru, ond na etholwyd, wedi cael eu heithrio o'r tabl hwn.

#### 3.2.3.4. Rhwystrau ymateb – canfyddiadau o gyfweliadau ag aelodau etholedig ac ymgeiswyr

Amlygodd llawer o gyfranogwyr yn gryf y tocsigrwydd a'r elyniaeth sy'n wynebu pobl sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth etholiadol, gan rannu straeon yn aml o ddigwyddiadau yr oedden nhw neu eu cydweithwyr wedi delio â nhw. Mewn llawer o achosion, daeth y gamdriniaeth hon o'r cyhoedd, yn aml ar-lein trwy gyfryngau cymdeithasol, ond weithiau ar ffurf llythyrau bygythiol neu hyd yn oed wrthdaro wyneb yn wyneb.

Cysylltodd rhai cyfranogwyr hyn â chanfyddiadau negyddol rhai aelodau o'r cyhoedd o aelodau etholedig, gan gynnwys eu bod yn cael gormod o dâl a'u bod yn derbyn buddion helaeth, neu eu bod yn anghymwys oherwydd nad ydynt yn gallu datrys pob problem. Teimlai ambell un fod gan gynghorau a phleidiau gyfrifoldeb i addysgu'r cyhoedd yn well i fynd i'r afael â rhai o'r canfyddiadau hyn.

Mewn rhai achosion, daeth y gamdriniaeth o gyd-aelodau o bleidiau neu'r cyngor hefyd, o ganlyniad i ddiwylliannau negyddol o fewn cyrff etholedig.

Roedd y gamdriniaeth hon nid yn unig yn rhwystr i'r rhai mewn swyddi etholedig ond hefyd yn eu gwneud yn amharod i argymell y dylai pobl eraill ystyried ymgeisio am etholiad.

> "Rwy'n adnabod pobl sydd wedi cael profiadau gwael iawn wrth ymgeisio am etholiadau – rhagfarn ond hefyd aflonyddu, casineb, bygythiadau, a phob math o bethau eraill. Fel arfer, o'm safbwynt i, ymgeiswyr benywaidd sy'n tueddu i brofi hynny. […] Mae'n eithaf anodd ceisio eu hargyhoeddi nhw – neu, nid o reidrwydd eu hargyhoeddi ond hefyd sicrhau – y byddant yn cael cymorth oherwydd eu bod nhw wedi gweld beth mae pobl eraill wedi mynd trwyddo ac nid ydynt eisiau hynny iddyn nhw eu hunain. Mae'n eithaf anodd dweud, 'bydd popeth yn iawn' oherwydd rydych chi'n gwybod na fydd yn iawn, bod tebygolrwydd y byddwch yn wynebu aflonyddu a bygythiadau o'r fath." (Cynghorydd tref)

Er bod rhywfaint o gamdriniaeth wedi'i thargedu'n fwy cyffredinol, roedd ambell gyfranogwr wedi clywed am gamdriniaeth yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig, neu wedi profi hynny. Disgrifiodd un cyfranogwr dderbyn camdriniaeth wreig-gasaol ac wedi'i thargedu yn barhaus gan gydweithwyr yn y cyngor ac na chafodd unrhyw gymorth gan glerc y dref nac eraill â swyddi cyfrifol. Roedd cyfranogwr arall yn ofni dweud wrth gydweithwyr yn y blaid ei fod yn drawsryweddol o ganlyniad i drawsffobia cymdeithasol, ac esboniodd sut oedd wedi wynebu rhwystrau penodol wrth geisio sefyll am etholiad i'r Senedd o dan y system cwotâu rhywedd a ddefnyddir gan rai pleidiau gwleidyddol.

#### 3.2.3.5. Rhwystrau ymateb – canfyddiadau o'r cyfweliadau â dinasyddion Cymru

Yn yr un modd, mewn cyfweliadau â dinasyddion Cymru, mynegodd yr holl gyfranogwyr bryderon ynglŷn â'r gamdriniaeth a'r elyniaeth y gallai aelodau etholedig eu hwynebu, a dywedodd rhai mai dyma'r prif reswm nad oeddent eisiau sefyll am etholiad. Amlygwyd tocsigrwydd ar gyfryngau cymdeithasol yn arbennig, a theimlai rhai nad oedd gwleidyddion yn cael eu hamddiffyn digon, gan olygu eu bod yn amharod i geisio'r "sylw". Dywedodd rhai

y gallai'r tocsigrwydd hyn fod yn ddwysach i grwpiau lleiafrifol, ac roedd un cyfwelai hoyw yn ofni y gallai ei rywioldeb ei roi mewn mwy o berygl petai'n ymgeisio am etholiad. Nodwyd agweddau negyddol a chamdriniaeth o fewn pleidiau gwleidyddol a chyrff etholedig hefyd; disgrifiodd un cyfwelai enghraifft o iaith agored o elyniaethus yn cael ei defnyddio tuag at leiafrifoedd o fewn plaid wleidyddol.

> "Bydd pobl wastad yn anghytuno â gwleidyddion etholedig. Dyna natur dadl wleidyddol. Ond y ffyrnigrwydd, y gamdriniaeth a'r ymosodiadau personol. Does neb yn ei iawn bwyll yn aros mewn swydd sy'n cynnwys hynny, wyddoch chi. Ac rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth a allai atal rhai darpar aelodau etholedig da iawn yn rhwydd." (Un o ddinasyddion Cymru)

> "Mae'n ffiaidd beth mae rhai pobl yn credu ei fod yn dderbyniol ei ddweud wrth ein cynrychiolwyr etholedig, yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol. […] Mae lefel y gamdriniaeth maen nhw'n ei chael am wneud eu gwaith yn unig yn golygu na fyddwn i'n ei ystyried." (Un o ddinasyddion Cymru)

## 3.3. Mynd i'r afael â rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd

Rhan allweddol o'r gwaith ymchwil hwn yw amlygu ffyrdd y gellid mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn rhag cyfranogiad democrataidd yn y dyfodol. I gyflawni'r nod hwn, mae'r is-bennod hon yn rhoi trosolwg yn gyntaf o ymdrechion blaenorol i gynyddu amrywiaeth economaidd-gymdeithasol gwleidyddiaeth Cymru cyn troi at ganfyddiadau o'r gwaith maes gydag arbenigwyr ac ymarferwyr, aelodau etholedig, a dinasyddion.

### 3.3.1. Ymdrechion blaenorol a pharhaus i fynd i'r afael â rhwystrau – canfyddiadau o'r llenyddiaeth

Ers dechrau datganoli yn y 1990au hwyr, bu ymdrechion pwysig i ddileu rhwystrau sy'n atal pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol rhag cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd yng Nghymru. Amlygwyd yr ymdrechion allweddol isod, wedi'u categoreiddio gan ddefnyddio'r model 'recriwtio, adnoddau, ymateb'.

#### 3.3.1.1. Ymdrechion blaenorol a pharhaus i fynd i'r afael â rhwystrau recriwtio

Un o'r dulliau allweddol a ddefnyddiwyd gan sefydliadau i gynyddu amrywiaeth fu creu cynlluniau mentora a rhwydweithiau cymdeithasol ar gyfer darpar wleidyddion – yn enwedig ymdrechion i gynyddu'r 'cyflenwad' ymgeiswyr benywaidd ac felly cynrychiolaeth menywod mewn swyddi etholedig (Lovenduski, 2005; Maguire, 2018). Er enghraifft, mae gan y Blaid Geidwadol sefydliad rhwydweithio a mentora ar gyfer menywod (Women2Win).

Ar lefel Cymru gyfan, sefydlwyd cynllun mentora rhwng swyddogion etholedig y Cynulliad a llywodraeth leol a phobl o grwpiau a dangynrychiolir mewn gwleidyddiaeth Cymru, o'r enw 'Camu Ymlaen Cymru', yn 2009/2010. Canfu gwerthusiad mai pris y cynllun oedd £75,000 a'i fod wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad democrataidd a dyheadau gwleidyddol y 34 o bobl a gafodd eu mentora (Senedd Cymru, 2011). Yn fwy diweddar, gweithredwyd cynllun mentora ac ymgysylltu ar gyfer darpar ymgeiswyr i lywodraeth leol, sef 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth', o 2014 i 2017 gan fentora 51 o bobl, y dywedodd 20 ohonynt eu bod eisiau sefyll am etholiad ar ôl y rhaglen (McConnel & Stevenson, 2019). Roedd y

gwerthuswyr o'r farn bod elfennau eraill o'r cynllun – gan gynnwys ymgyrch gyfathrebu a menter ymgysylltu â chyflogwyr – yn llai llwyddiannus (ibid).

Yn fwy diweddar, ffurfiwyd partneriaeth rhwng Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, Stonewall Cymru, Anabledd Cymru, a Thîm Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru i gyflenwi'r rhaglen fentora 'Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal'. Yn etholiadau lleol 2022, ymgeisiodd naw unigolyn a gafodd eu mentora am etholiad ac etholwyd pump ohonynt (y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 2023).

### 3.3.1.2. Ymdrechion blaenorol a pharhaus i fynd i'r afael â rhwystrau adnoddau

Wrth ymateb i rwystrau sy'n gysylltiedig ag adnoddau, mae pleidiau gwleidyddol yn darparu adnoddau i gefnogi ymgyrchoedd aelodau enwebedig. At hynny, mae gan rai sefydliadau sy'n gysylltiedig â phleidiau eu systemau eu hunain ar gyfer mynd i'r afael â rhwystrau yn ystod cystadlaethau dethol. Er enghraifft, mae gan Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) raglen i gefnogi ymgeiswyr posibl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol i ymgeisio ac ennill cystadlaethau dethol y Blaid Lafur (CWU, dim dyddiad).

Yn ogystal â hyn, ar lefel genedlaethol, treialwyd y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yn ystod 2021-22, a oedd yn ceisio gwella cynrychiolaeth pobl anabl mewn swyddi etholedig. Amlygodd adolygiad o'r Gronfa yr heriau ymarferol sy'n wynebu ymgeiswyr anabl a datganodd fod y gronfa'n darparu cymorth allweddol, er y gellid ei hymestyn yn gynharach i'r broses ymgyrchu a dethol a chynorthwyo pobl anabl sy'n ennill etholiad i gyflawni eu dyletswyddau (Davies et al., 2023). Mae Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024, a basiwyd yn ddiweddar gan y Senedd, yn gorchymyn bod Gweinidogion Cymru yn sefydlu gwasanaethau a chynlluniau cymorth ariannol i hyrwyddo amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr i'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol. Gall y gwasanaethau hyn gynnwys darparu gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant a phrofiad gwaith. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys dyletswydd i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau gwirfoddol i bleidiau gwleidyddol ddatblygu, cyhoeddi, gweithredu ac adolygu strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer etholiadau lleol a chenedlaethol yng Nghymru a chasglu, coladu a chyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud ag amrywiaeth am ymgeiswyr i'r Senedd. Cyhoeddwyd y canllawiau ym mis Mawrth 2025 (Llywodraeth Cymru, 2025).

### 3.3.1.3. Ymdrechion blaenorol a pharhaus i fynd i'r afael â rhwystrau ymateb

Er mwyn annog menywod a phobl anneuaidd i ymgeisio ac i fynd i'r afael â rhagfarn ochr y galw gan ddetholwyr, mae rhai pleidiau wedi cyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer cystadlaethau mewnol pleidiau. Mae'r Blaid Lafur wedi defnyddio rhestrau byr menywod i gyd mewn rhai etholaethau ar gyfer etholiadau yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig gyfan ers blynyddoedd lawer, tra bod gan Blaid Cymru bolisïau hen sefydledig i warantu bod menywod yn cael eu cynrychioli ar frig rhestrau rhanbarthol Cynulliad Cymru (Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, 2024). Mae'r Blaid Geidwadol wedi defnyddio 'Rhestr A' ar draws y Deyrnas Unedig i annog dethol menywod a grwpiau eraill a dangynrychiolir (Ash et al., 2022). Mae manylion penodol hyn wedi newid yn dilyn diwygio system bleidleisio'r Senedd cyn etholiadau 2026 Senedd Cymru. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru – a drafodwyd uchod – yn cynnwys arweiniad i gynorthwyo pleidiau gwleidyddol i ystyried gweithredu cwotâu rhywedd gwirfoddol ar gyfer etholiadau'r Senedd (Llywodraeth Cymru, 2025). Yn

ogystal â hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi cyfeirio at waith ymchwil gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL), gan awgrymu ffordd ymlaen i fynd i'r afael â cham-drin a bygwth ymgeiswyr a chynrychiolwyr llywodraeth leol (y Gymdeithas Llywodraeth Leol, 2022; Llywodraeth Cymru, 2022). Mae ei argymhellion yn cynnwys: i) galw ar gynghorau a phartneriaid i fynd i'r afael ag effeithiau camdriniaeth ar iechyd meddwl a lles cynghorwyr, ii) galw ar heddluoedd i ddefnyddio dull wedi'i seilio ar risg sy'n ystyried y risgiau penodol sy'n wynebu cynghorwyr, fel y gwnânt gydag unigolion risg uchel eraill, fel Aelodau Seneddol, a iii) galw ar gwmnïau cyfryngau cymdeithasol i ddarparu llwybrau gwell a chyflymach i gynghorwyr adrodd am gamdriniaeth a chamwybodaeth ar-lein.

### 3.3.2. Mynd i'r afael â rhwystrau – canfyddiadau o'r gwaith maes gydag arbenigwyr ac ymarferwyr

Amlygodd arbenigwyr ac ymarferwyr ystod eang o fesurau i fynd i'r afael â rhwystrau economaidd-gymdeithasol rhag cyfranogiad democrataidd. Fodd bynnag, her allweddol a amlygwyd oedd sicrhau nad yw ymyriadau'n cyrraedd 'yr un hen rai' yn unig – pobl sydd eisoes yn ymwneud â gwleidyddiaeth. Er enghraifft, teimlai rhai cyfranogwyr fod rhai rhaglenni, fel mentora, yn bennaf o fudd i'r rhai sydd eisoes yn ymwneud â gwleidyddiaeth i ryw raddau. Gwnaethant ddadlau bod angen gwneud mwy o ymdrech i gyrraedd y tu hwnt i'r grŵp hwn ac ehangu'r gronfa ymgeiswyr posibl. Roedd strategaethau arfaethedig i gyflawni hyn yn cynnwys addysg ddemocrataidd gynharach a mwy cynhwysfawr, darparu deunyddiau hygyrch gan bleidiau gwleidyddol, ac allgymorth wedi'i dargedu gan aelodau etholedig, fel ymgysylltu'n fwy â grwpiau cymunedol a chynrychioliadol.

Roedd yr ymyriadau a gynigiwyd yn cynnwys y mesurau canlynol i fynd i'r afael â rhwystrau recriwtio:

- Rhaglenni mentora a hyfforddi, sy'n cynyddu hyder a hunaneffeithiolrwydd pobl. Nodwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i bobl nad ydynt yn 'edrych fel' gwleidyddion arferol, oherwydd bod mentoriaid a rhwydweithiau pobl sydd â nodau tebyg yn gallu helpu i fynd i'r afael â theimlo'n chwithig neu'n annigonol.
- Arweiniad mwy eglur ar brosesau dethol ac ethol, gan bwysleisio bod gan bleidiau gwleidyddol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Llywodraeth Cymru oll rôl i'w chwarae wrth gynyddu tryolywder. Teimlwyd yn gyffredinol na fyddai'r rhan fwyaf o bobl gyffredin yn gwybod ble i ddechrau petaent eisiau sefyll am etholiad, sy'n eu hatal rhag hyd yn oed ei ystyried.
- Moderneiddio gwleidyddiaeth a hyrwyddo'r newidiadau hyn, a fyddai, yn ei dro, yn newid canfyddiad y cyhoedd o'r mannau hyn, e.e., mabwysiadu ffyrdd mwy hygyrch o weithio fel gweithio hybrid a rhannu swydd, newid diwylliant mannau gwleidyddol, a chanolbwyntio ar barch tuag at swyddogion etholedig a chanddynt.

Yn yr un modd, cynigiodd arbenigwyr ac ymarferwyr y mesurau canlynol i fynd i'r afael â rhwystrau adnoddau:

- Cymorth ariannol ar gyfer ymgyrchoedd oedd un o'r ymyriadau a awgrymwyd amlaf. Ystyriwyd bod darparu cymorth ariannol ymarferol i ymgeiswyr ar gyfer costau ymgyrchu yn hollbwysig. Yn arbennig, roedd talu am dreuliau gofal plant yn syniad

poblogaidd ymhlith arbenigwyr ac ymarferwyr. Pwysleisiodd llawer hefyd bwysigrwydd defnyddio dull cyfannol, gan ystyried costau llai amlwg fel dillad, colur ar gyfer menywod, tacsis ar gyfer diogelwch, a threuliau tebyg. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i ehangu meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth trwy'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig. O ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â mesur anfantais economaidd-gymdeithasol, argymhellodd llawer ganolbwyntio ar gyfrifoldebau gofalu fel man cychwyn.
- Rheolau a chanllawiau, sy'n caniatáu i bobl ymgeisio am etholiad heb golli eu swydd, er mwyn lleihau ofnau ynglŷn â chanlyniadau ariannol a gyrfaol hirdymor ymgeisio am etholiad. At hynny, argymhellodd rhai bolisi 'hawl i ymgeisio' – gan orfodi cyflogwyr i ddarparu amser i ffwrdd o'r gwaith i ymgyrchu yn ystod y cyfnod ymgyrchu rheoleiddiedig ffurfiol ar gyfer etholiad Awdurdod Lleol neu etholiad y Senedd. Cynigiwyd y syniad o gronfa benodol i wneud iawn am incwm a gollwyd ar gyfer ymgeiswyr sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, hefyd.
- Cefnu ar strwythurau gweithio traddodiadol, er enghraifft, galluogi cyfarfodydd hybrid fel na fyddai'n rhaid i bobl dalu am drafnidiaeth i'w mynychu, rhannu swydd, creu a gorfodi capiau ar wariant, a chynyddu cyflogau cynghorwyr lleol.

Yn olaf, cynigiodd y cyfranogwyr rai mesurau i fynd i'r afael â rhwystrau ymateb, fel:

- Cwotâu a orfodir yn gyfreithiol i sicrhau bod ymgeiswyr yn fwy cynrychioliadol o ystod o nodweddion gwarchodedig.
- Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch diogelwch, gan gynnwys bod yn fwy eglur ynglŷn â beth fydd yn cael ei wneud i amddiffyn ymgeiswyr neu swyddogion etholedig, a beth fydd yn cael ei wneud os bydd rhywbeth yn digwydd.
- Newid y diwylliant, oherwydd bod diwylliant bygythiol a chamdriniol yn aml yn dod o fewn pleidiau eu hunain.

Cynigiwyd newidiadau mwy strwythurol hefyd, gan gynnwys rhannu swydd ar gyfer swyddi etholedig yng Nghymru, terfynau ar gyfnodau mewn swydd, cynyddu cyflogau cynghorwyr Awdurdod Lleol, a symud i Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy[8] ar draws Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Yn fwy cyffredinol, pwysleisiodd llawer o gyfranogwyr na all mentrau â'r bwriadau gorau hyd yn oed lwyddo heb gymorth ariannol hirdymor, parhaus. Galwodd rhai ar Lywodraeth Cymru a phleidiau gwleidyddol i 'roi eu harian ar eu gair' trwy ariannu mwy o raglenni. Dadleuodd nifer o gyfranogwyr hefyd o blaid deddfwriaeth i fynnu bod pleidiau gwleidyddol yn bodloni eu hymrwymiadau amrywiaeth, a gefnogir gan adnoddau ariannol a ddarperir yn ganolog. Teimlwyd yn gyffredinol bod ymdrechion i gynyddu amrywiaeth economaidd-gymdeithasol, ar hyn o bryd, yn dibynnu gormod ar ddisgresiwn pleidiau – efallai nad yw rhai ohonynt yn

[8] Mae'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn system bleidleisio lle mae pleidleiswyr yn graddio ymgeiswyr yn nhrefn blaenoriaeth, ac os bydd ymgeisydd yn derbyn nifer benodol o bleidleisiau (cwota), caiff ei ethol. Trosglwyddir pleidleisiau dros ben i ymgeiswyr eraill yn ôl blaenoriaethau nesaf pleidleiswyr hyd nes bod yr holl seddi wedi'u llenwi. Mae ei chefnogwyr o'r farn ei bod yn fwy cyfrannol na systemau pleidleisio presennol yng Nghymru (y Cyntaf i'r Felin) ac yn creu cyfle ar gyfer etholiadau mwy cystadleuol a mwy o faint ar lefel ward, gan leihau nifer y seddi diwrthwynebiad neu wag. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn caniatáu i brif gynghorau benderfynu p'un ai mabwysiadu Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, ond awgrymodd rhai cyfweleion y dylai hyn fod yn orfodol.


blaenoriaethu cynrychiolaeth neu nad oes ganddynt yr adnoddau sy'n angenrheidiol i'w hyrwyddo'n effeithiol.

Amlygodd sawl cyfranogwr, er gwaethaf y gwaith helaeth a wnaed i hyrwyddo amrywiaeth, nad oes llawer o dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i gynyddu amrywiaeth economaidd-gymdeithasol. Teimlwyd bod data gwell a gwerthuso'n bwysig i sicrhau bod mentrau'n cael yr effeithiau a fwriedir.

### 3.3.3. Mynd i'r afael â rhwystrau – canfyddiadau o'r arolwg o aelodau etholedig ac ymgeiswyr

Yn yr arolwg o aelodau etholedig ac ymgeiswyr, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn anghyfarwydd â'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i raddau helaeth. Fodd bynnag, ymhlith y tri math o aelodau etholedig ac ymgeiswyr, y rhai a oedd yn ymgeisio ar gyfer y Senedd oedd yn fwyaf cyfarwydd â'r gronfa (adroddodd 37% eu bod yn gyfarwydd iawn neu'n eithaf cyfarwydd â hi), a chynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol oedd y lleiaf cyfarwydd (12% yn gyfarwydd iawn neu'n eithaf cyfarwydd).

**Ffigur 13. A ydych chi'n gyfarwydd â'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig? Ffynhonnell: arolygon aelodau etholedig ac ymgeiswyr**




Gofynnwyd i ymgeiswyr hefyd sut byddent yn argymell addasu'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i gefnogi ymgeiswyr anabl a phobl sy'n wynebu mathau eraill o anfantais economaidd-gymdeithasol yn well. Gan fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn anghyfarwydd â'r gronfa, ychydig a ymatebodd i'r cwestiwn penagored hwn. Ymhlith yr atebion cyfyngedig a dderbyniwyd, roedd yr awgrymiadau'n cynnwys gwella dyluniad y gronfa trwy gynyddu cyhoeddusrwydd ac ymwybyddiaeth, galluogi ceisiadau uniongyrchol yn hytrach na dibynnu ar lwybrau trwy bleidiau, a sicrhau bod y gronfa ar gael o leiaf chwe mis cyn y cyfnod ymgyrchu ffurfiol.

Yn ogystal, gofynnodd yr arolwg i'r ymgeiswyr am eu safbwyntiau ar gynlluniau mentora fel Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal. At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai wedi hepgor y cwestiwn hwn neu nid oeddent yn ymwybodol o'r rhaglenni hyn. Ymhlith y rhai a ymatebodd, nid oedd llawer o bobl yn ymwybodol bod mentrau o'r fath yn bodoli, gan amlygu'r angen am fwy o ymdrechion i gynyddu ymwybyddiaeth ac annog cyfranogiad. Pwynt arall a godwyd oedd gwerth mentora, yn enwedig pan fydd yn cryfhau lleisiau

unigolion sydd â phrofiad bywyd, ac anaml y mae'r cynlluniau hyn yn cael eu trafod mewn ysgolion, gweithleoedd, neu leoliadau cymunedol.

Yn olaf, roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiwn penagored a ofynnodd i'r ymatebwyr awgrymu newidiadau i helpu i ddileu rhwystrau rhag swyddi etholedig ar gyfer pobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yng ngwleidyddiaeth Cymru. Crynhoir y prif ymatebion, wedi'u casglu ynghyd yn ôl y math o ymatebwr, isod:

Cynghorwyr ac ymgeiswyr tref, plwyf, neu gymuned: Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am gymorth ariannol i ymgeiswyr o gefndiroedd dan anfantais, gan grybwyll y dylai cynghorwyr lleol, tref a chymuned gael cydnabyddiaeth ariannol well i gydnabod eu cyfraniadau. Dadleuodd rhai o blaid diwygiadau etholiadol fel system "un bleidlais yn unig"[9] mewn wardiau aml-aelod i hyrwyddo cynrychiolaeth deg. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys gwella'r cymorth i unigolion â chyflyrau iechyd neu anableddau cudd, gan drefnu cyfarfodydd y tu allan i oriau gwaith nodweddiadol i wneud pethau'n haws i bobl sydd mewn cyflogaeth, a lansio ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus ar gyfryngau cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth, a hybu ymgysylltiad â gwleidyddiaeth.

Cynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol: Awgrymodd rhai ymatebwyr gyflwyno Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy.[10] Crybwyllwyd y byddai'n fuddiol i leihau nifer y cynghorwyr ar yr un pryd â chynyddu cyflogau, gan wneud y rôl yn fwy hyfyw i bobl sy'n gweithio neu sydd â chyfrifoldebau gofalu. Ystyriwyd bod cymorth ariannol yn hollbwysig, yn enwedig i ymgeiswyr annibynnol, a chynigiodd rhai ymatebwyr lwybrau hygyrch tuag at gyllid ymgyrchu. Yn ogystal, amlygwyd gwella hygyrchedd ffisegol cyfarfodydd a mannau ymgyrchu, yn ogystal â gwneud dyletswyddau'n haws i unigolion ag anableddau neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu ymdopi â nhw. Roedd argymhellion ychwanegol yn cynnwys mynediad gwell at wybodaeth a hyfforddiant sy'n benodol i Gymru y tu hwnt i sesiynau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ar gyfer Lloegr yn unig neu'r Deyrnas Unedig gyfan, osgoi etholiadau yn ystod misoedd y gaeaf o ganlyniad i bryderon diogelwch, a chynnig mentoriaeth gan gynghorwyr profiadol.

Ymgeiswyr i'r Senedd: Crybwyllodd ymatebwyr yr angen i ethol mwy o bobl "gyffredin" fel modelau rôl, gan annog pobl i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth. Mynegwyd pryderon ynglŷn â rhagfarn mewn prosesau pleidiau ar gyfer dethol ymgeiswyr, a bod ymgeiswyr annibynnol neu a dangynrychiolir yn wynebu anfanteision penodol. Roedd sgeptigaeth tuag at systemau cwota fel "am-yn-eilio", yr oedd rhai o'r farn eu bod yn annheg ac eraill yn credu y gallent eithrio ymgeiswyr trawsryweddol o wleidyddiaeth.[11] Roedd awgrymiadau

[9] Ar hyn o bryd, gall pleidleiswyr bleidleisio dros unigolion o nifer o bleidiau. Mae rhywfaint o dystiolaeth o etholiadau lleol Lloegr yn y 1990au bod pleidleiswyr yn fwy tebygol o bleidleisio dros ymgeiswyr gwrywaidd nag ymgeiswyr benywaidd (Rallings, et al., 1998). Fe allai atal pleidleiswyr rhag dewis ymgeiswyr unigol fod yn ddadleuol, ond fe allai hefyd leihau'r rhagfarn hon gan bleidleiswyr yn erbyn ymgeiswyr benywaidd (ac efallai ymgeiswyr eraill sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol).

[10] Mae'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn system bleidleisio lle mae pleidleiswyr yn graddio ymgeiswyr yn nhrefn blaenoriaeth, ac os bydd ymgeisydd yn derbyn nifer benodol o bleidleisiau (cwota), fe'i hetholir. Trosglwyddir pleidleisiau dros ben i ymgeiswyr eraill yn ôl blaenoriaethau nesaf pleidleiswyr hyd nes bod yr holl seddi wedi'u llenwi.

[11] Mae 'am-yn-eilio' yn cyfeirio at system lle mae rhai pleidiau gwleidyddol wedi dewis gweithredu cwotâu rhywedd gwirfoddol ar gyfer etholiadau Senedd Cymru. Mae'n golygu bod rhaid i rai swyddi o fewn rhestr pleidiau gwleidyddol o ymgeiswyr ar gyfer etholaeth gael eu dal gan fenywod.

eraill yn canolbwyntio ar sicrhau chwarae teg trwy gyllid cyhoeddus ar gyfer deunyddiau ymgyrchu craidd, terfynau ar wariant ymgyrchu, a gweithdrefnau ethol wedi'u symleiddio. Roedd cynigion eraill yn cynnwys gwella'r ddarpariaeth gofal plant yn y Senedd, cynnig mentora a hyfforddiant rhad ac am ddim a diduedd, a dulliau atebolrwydd cryfach, fel y gallu i ddiswyddo aelodau etholedig am gamymddwyn.

### 3.3.4. Mynd i'r afael â rhwystrau – canfyddiadau o'r cyfweliadau ag aelodau etholedig ac ymgeiswyr

Yn dilyn cyfres o gwestiynau am y rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd yng Nghymru, gwahoddwyd aelodau etholedig ac ymgeiswyr i drafod ffyrdd o fynd i'r afael â rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd yng Nghymru a'u dileu.

#### 3.3.4.1. Canfyddiadau o aelodau etholedig ac ymgeiswyr – mynd i'r afael â rhwystrau recriwtio

*Allgymorth*

Y dull a gynigiwyd amlaf ar gyfer mynd i'r afael â rhwystrau recriwtio oedd allgymorth, rhannu gwybodaeth, a defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd llawer o'r farn mai'r dull gorau oedd siarad â phobl am yr hyn y mae gwahanol gyrff etholedig yn ei wneud, chwalu tybiaethau am brosesau, a'u hannog i gymryd rhan.

> "Pan fyddwch chi'n siarad â nhw gyntaf, mae'r rhan fwyaf o bobl yn dweud, 'o, dwi ddim yn gwybod […] Dwi ddim yn gallu gwneud pethau fel 'na, wyddoch chi, does gen i ddim syniad. Beth mae'n ei olygu?' Ac oes nad oes gennych syniad, dydych chi ddim yn debygol iawn o fynd amdani, ydych chi? Byddech chi'n berson eithaf rhyfedd, wyddoch chi, i fynd am rywbeth os nad ydych yn gwybod beth mae'n ei olygu, mewn gwirionedd. Felly, dyna un neges, cysylltiad personol a sgwrsio â phobl, dyna beth sy'n eu hannog i gymryd rhan." (Cynghorydd sir)

Teimlwyd bod ymgysylltu â phobl ifanc yn arbennig o bwysig, gan gynnwys trwy allgymorth mewn ysgolion a Chynghorau Ieuenctid. Fodd bynnag, nodwyd bod angen i wleidyddiaeth fod yn fwy perthnasol i bobl ifanc, neu y byddai perygl iddynt ymddieithrio.

*Eiriolaeth gadarnhaol a thryloywder*

Awgrymodd ambell un y dylai aelodau etholedig fod yn "eiriolwyr" o blaid eu rolau, a myfyriodd rhai eu bod wedi llwyddo i ymgysylltu â phobl yn y modd hwn yn y gorffennol. Esboniodd un cyfranogwr ei bod yn bwysig esbonio i bobl sut gallent gyfrannu gwerth a gweithio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, er mwyn dangos sut gallai rolau etholedig gyd-fynd â'u bywydau.

> "Pan ges i fy ethol yn gynghorydd sir, oherwydd fy nghefndir [proffesiynol], roedd gen i ddiddordeb mawr mewn bod yn aelod o'r is-bwyllgorau ar gyfer gofal cymdeithasol a phethau tebyg. Rwy'n credu bod angen i bobl fod yn ymwybodol, wyddoch chi, os oes ganddynt gefndir […] eu bod yn ei ddefnyddio o'u plaid pan fyddan nhw'n cael eu hethol, wyddoch chi, fe allan nhw gysylltu hynny â'r hyn maen nhw'n ei wneud yn awr neu'r hyn maen nhw wedi'i wneud, a bydd yn adlewyrchu a'u helpu pan fyddan nhw ar y Cyngor hefyd." (Cynghorydd sir)

Yn yr un modd, cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at bwysigrwydd tryloywder wrth gyfathrebu, a rhoi gwybodaeth realistig a chywir i'r cyhoedd.

> "Pan ges i fy mherswadio i ymgeisio gyntaf, dywedwyd wrthyf fod angen i chi fynd i un cyfarfod y mis yn unig, ond y gwir amdani yw bod llawer iawn o waith yn gysylltiedig. Mae yna lawer o hyfforddiant, mae yna waith etholaeth, mae yna gyfarfodydd y cyngor a phwyllgorau. […] Mae disgwyl i chi weithio'n galed i sicrhau bod yr etholwyr yn fodlon arnoch. Felly, dydyn ni ddim yn dweud bod rhaid i chi fynd i un cyfarfod y mis a dyna ni. Na, rydyn ni'n sicrhau ein bod ni mor realistig â phosibl, a bod pobl yn sylweddoli ei bod yn gofyn am ymrwymiad." (Cynghorydd sir)

*Rhaglenni hyfforddiant a mentoriaeth*

Crybwyllodd ambell gyfranogwr raglenni hyfforddiant a mentoriaeth fel dulliau posibl o annog recriwtio, gan gynnwys rhaglenni cyfeillio gyda chynghorwyr mwy profiadol. Awgrymodd eraill y dylid gweithredu hyfforddiant gorfodol ar gyfer aelodau etholedig, i wella ansawdd gwaith cynghorwyr ac, o bosibl, i fynd i'r afael â phryderon ymhlith y rhai sy'n ymgeisio nad oes ganddynt ddigon o brofiad.

*Cwotâu*

Roedd safbwyntiau'r cyfranogwyr yn amrywio ar fentrau mwy rhagnodol, fel cwotâu, y cyfeiriwyd atynt fel 'gwahaniaethu cadarnhaol' gan rai. Roedd ambell un yn credu bod y rhain wedi bod yn llwyddiannus ac y dylent barhau, tra bod eraill yn credu y dylai ymgeiswyr gael eu dethol "ar sail teilyngdod" ac roeddent yn anghyfforddus â chwotâu. Amlygodd un cyfwelai a chyn ymgeisydd fod y polisi 'am-yn-eilio', nad yw'n ofyniad cyfreithiol ond sydd wedi cael ei fabwysiadu gan rai pleidiau gwleidyddol i sicrhau bod menywod yn cael eu cynrychioli'n gyfartal ar restrau pleidiau ar gyfer etholiadau 2026 y Senedd, wedi arwain at ganlyniad anfwriadol arwyddocaol. Dywedodd y cyfwelai hwn na all ymgeisio ar gyfer yr etholiad nesaf oherwydd byddai'r system 'am-yn-eilio' naill ai'n ei orfodi i ddatgan ei fod yn drawsryweddol neu'n golygu bod perygl y gallai hynny ddod allan yn ystod yr ymgyrch ddethol neu ethol. Amlygwyd mai'r perygl hwn oedd yr unig rwystr sylweddol a oedd yn atal y cyfwelai hwn rhag cymryd rhan mewn etholiadau yn y dyfodol. Dywedodd y cyfwelai y byddai ganddo ddiddordeb mewn ymgeisio ar gyfer etholiadau.

#### 3.3.4.2. Canfyddiadau o aelodau etholedig ac ymgeiswyr – mynd i'r afael â rhwystrau adnoddau

*Cyfleoedd gweithio hyblyg*

O ran rhwystrau adnoddau, nodwyd bod trefniadau hyblyg fel cyfarfodydd hybrid yn bwysig i wella hygyrchedd ar gyfer y rhai hynny sy'n gweithio neu sydd â chyfrifoldebau gofalu. Dywedodd rhai fod amserau cyfarfodydd yn her fawr, gan eu bod yn aml yn digwydd yn ystod oriau gwaith. Awgrymwyd bod strwythurau'r cyngor wedi'u gogwyddo o blaid swyddogion ar draul aelodau etholedig, fel cynnal cyfarfodydd yn ystod oriau gwaith arferol.

Roedd safbwyntiau'r cyfranogwyr ar rannu swydd ar gyfer swyddogion etholedig yn amrywio. Roedd rhai o blaid y syniad hwn, gan deimlo y gallai ganiatáu i fwy o bobl ymgeisio am etholiad, ac roeddent yn dadlau ei fod yn gweithio'n dda mewn cyd-destunau eraill. Roedd y rhan fwyaf yn pryderu am ddryswch pleidleiswyr a diffyg atebolrwydd posibl

(yn enwedig ar gyfer rolau uwch), ac roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig i etholwyr adnabod eu cynrychiolydd lleol a chael perthynas ag ef. Roedd mwy o gefnogaeth i rannu swydd ar lefel Awdurdod Lleol nag ar gyfer Aelodau'r Senedd.

> "Gallaf ddeall y rhesymeg [ar gyfer rhannu swydd], ond nid wyf yn cytuno ag ef o gwbl. Rwy'n credu ei fod yn dileu atebolrwydd yr ymgeisydd unigol. Mae atebolrwydd yn hollbwysig." (Cynghorydd sir)

I fynd i'r afael â heriau cydbwyso cyfrifoldebau gwaith â gofynion ymgyrchu, cytunodd rhai â'r syniad o 'hawl i ymgeisio', a fyddai'n golygu bod rhaid i gyflogwyr roi amser i ffwrdd i weithwyr i ganiatáu iddynt ymgeisio am etholiad. Nododd ambell un na fyddai hyn yn syml mewn gyrfaoedd lle y ceir diwylliant gweithle nad yw'n annog amser i ffwrdd i ymgeisio, a allai weithredu fel rhwystr hyd yn oed os yw'r gofyniad cyfreithiol ar waith.

Ar lefel y Senedd, awgrymodd un cyfranogwr y byddai rhannu canol y llywodraeth rhwng gwahanol rannau o'r wlad yn gwella hygyrchedd i'r rhai sy'n byw ymhell o Gaerdydd, sy'n wynebu rhwystrau niferus ar hyn o bryd a waethygir gan yr angen i deithio pellterau hir i'r gwaith neu fyw mewn dwy ardal ar yr un pryd.

*Cymorth ariannol a chydnabyddiaeth ariannol*

Cynigiodd sawl cyfranogwr gymorth ymarferol ac ariannol ar gyfer ymgeiswyr hefyd. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys grantiau, cymorth gyda gwaith gweinyddol a llenwi ffurflenni, talu am gostau taflenni a thrafnidiaeth, benthyciadau car, ac ad-hawlio amser a gollwyd o'r gwaith. Nododd rhai fod mentrau a ariennir gan yr Awdurdod Lleol neu'r llywodraeth yn amgenach at y diben hwn, gan fod gan bleidiau llai ac annibynwyr lai o adnoddau, felly gallai grantiau a ariennir gan bleidiau waethygu anghydraddoldebau presennol. Mynegodd dau gyfwelai bryderon y gellid camfanteisio ar grant o'r math hwn, gan nodi y byddai angen strwythurau rheoli a fetio effeithiol.

Roedd safbwyntiau'r cyfweleion ar gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau etholedig yn amrywio. O ran cynghorwyr Awdurdod Lleol, teimlai rhai fod y cyflog presennol yn ddigonol, ac y gallai cyflog uwch ddenu pobl i'r rôl am y rhesymu anghywir. Nododd rhai fod llawer o gynghorwyr Awdurdod Lleol wedi ymddeol, ac roeddent yn teimlo y gallai cyflog uchel gyfrannu at anghydraddoldeb cyfoeth rhwng y cenedlaethau. Fodd bynnag, awgrymodd rhai pe gallai rhywun 'ennill bywoliaeth' o fod yn gynghorydd, y gallai hyn ddenu ystod ehangach o bobl na allent fentro cymryd misoedd neu flynyddoedd i ffwrdd o'r gwaith.

Roedd ambell gyfwelai'n betrus o blaid y syniad o gydnabyddiaeth ariannol uwch i gynghorwyr Awdurdod Lleol neu ailstrwythuro'r swydd i fod yn rôl amser llawn. Fodd bynnag, gwnaethant nodi y byddai hyn yn golygu bod angen mwy o ddisgwyliadau a gofynion ynglŷn â'r rôl, gan fod faint o waith a wneir gan gynghorwyr yn amrywio'n eang ar hyn o bryd.

> "Rwy'n credu ei bod yn dibynnu… a bod yn gwbl onest, os edrychwch chi ar fy nghymheiriaid – nid yn unig yn fy mhlaid i, ar draws y siambr. Rydyn ni'n cael ein talu ar sail dau ddiwrnod a hanner yr wythnos [o waith], ac rwy'n credu bod rhai pobl yno nad ydynt – rwy'n dyfalu – yn gwneud hynny yn ôl pob tebyg [mae'n chwerthin]. O'm rhan i, at ei gilydd […], rwy'n gwneud pedwar diwrnod yr wythnos

> yn rhwydd. Rwy'n ffodus oherwydd bod gen i incwm arall. Ond, o ran tegwch ac adlewyrchu'r hyn sy'n gysylltiedig â'r rôl mewn gwirionedd, fe ddylai gael mwy o dâl ac fe allai hynny ddenu mwy o bobl i'r rôl hefyd. […] Rwy'n gwybod y byddwn i'n cael trafferth goroesi gyda theulu ar y cyflog [presennol] hwnnw yn unig." (Cynghorydd sir)

Roedd rhai pryderon ynglŷn â'r argraff y byddai codi cyflog cynghorwyr yn ei rhoi tra bod Awdurdodau Lleol yn cael trafferth darparu gwasanaethau. I wrthsefyll hyn, awgrymodd un cyfranogwr y dylai cyflogau a lwfansau ddod yn uniongyrchol o Lywodraeth Cymru, i helpu gyda chanfyddiadau'r cyhoedd bod cynghorwyr yn talu eu hunain yn anghymesur.

#### 3.3.4.3. Canfyddiadau o aelodau etholedig ac ymgeiswyr – mynd i'r afael â rhwystrau ymateb

*Heriau ymateb i docsigrwydd a gelyniaeth*

Cynigiodd y cyfranogwyr lai o ddatrysiadau ar gyfer y rhwystrau a amlygwyd ynglŷn â thocsigrwydd, camdriniaeth a gelyniaeth. Darparodd un enghreifftiau o gynnwys yr heddlu mewn achosion o gamdriniaeth gan y cyhoedd, tra awgrymodd un arall y byddai diwylliannau negyddol o fewn cynghorau'n debygol o newid yn naturiol dros amser wrth i gynghorwyr iau ymuno. Yn gyffredinol, teimlai'r cyfranogwyr mai materion cymdeithasol ehangach oedd y rhain nad oedd ateb syml iddynt – a theimlai rhai fod y mater yn destun mwy o graffu a sylw nag o'r blaen.

> "Rydw i wedi cael fy ngham-drin ar y trothwy, ond ni fyddaf yn goddef hynny mwyach. A chysylltwyd â'r heddlu y tro diwethaf y penderfynodd rhywun weiddi yn fy wyneb. Ond, wyddoch chi, byddwn i'n annog pobl i roi gwybod i'r heddlu amdano. […] Mae llawer mwy o werthfawrogiad [o ddifrifoldeb y mater gan yr heddlu] ac mae agweddau wedi newid llawer yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, diolch byth." (Cynghorydd sir)

#### 3.3.4.4. Canfyddiadau o aelodau etholedig ac ymgeiswyr – themâu trosfwaol

Ar draws yr holl gyfweliadau ag aelodau etholedig ac ymgeiswyr, daeth dwy thema drosfwaol i'r amlwg a oedd yn rhychwantu'r tri rhwystr allweddol: Recriwtio, Adnoddau, ac Ymateb.

*Cyfrifoldeb*

Yn gyntaf, roedd y rhan fwyaf o'r cyfweleion o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am arwain mentrau i ddileu rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd. Y prif reswm a roddwyd yw bod gan bleidiau wahanol flaenoriaethau a mynediad at adnoddau, sy'n golygu y gallai mentrau a arweinir gan bleidiau fod yn anghymesur o fuddiol i'r rhai sydd â diddordeb mewn ymgeisio trwy'r prif bleidiau.

Teimlai rhai y dylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac Awdurdodau Lleol ymwneud hefyd, i sicrhau bod mentrau'n cael eu gweithredu'n effeithiol ar lefel leol. Roedd ambell gyfwelai o'r farn y dylai camau gweithredu gael eu harwain at lefel leol yn unig, gan awgrymu bod rhaglenni a arweinir gan y llywodraeth yn gallu bod yn "llawdrwm ac anhyblyg". Dadleuodd un cyfranogwr y dylai pleidiau gwleidyddol fod â rhywfaint o gyfrifoldeb o leiaf, gan eu bod yn sylfaen ar gyfer y rhan fwyaf o weithgarwch gwleidyddol.

*Newidiadau systematig*
Rhoddodd y cyfweleion rai enghreifftiau hefyd o newidiadau systemig yr oeddent yn credu bod angen iddynt ddigwydd i alluogi mwy o fynediad at gyfranogiad democrataidd ar gyfer y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Roedd sawl un yn erbyn system etholaeth newydd y Senedd[12], gan ddadlau ei bod yn rhoi pleidiau llai ac annibynwyr dan anfantais a’i bod yn gwneud y systemau’n anodd i’r cyhoedd eu deall. Nododd ambell un y byddai’n rhaid i ymgeiswyr i’r Senedd wasanaethu ardaloedd daearyddol mawr ac amrywiol yn ystod eu hymgyrchoedd, a fyddai’n gofyn am fwy o amser ac yn arwain at gostau teithio uwch. Roedd sawl cyfwelai o’r farn y byddai cyflwyno system angen, fel Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, wedi bod yn fwy buddiol i ymgeiswyr sydd dan anfantais ac roeddent yn rhwystredig nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno’r system bleidleisio hon.

Crybwyllodd ambell gyfwelai ddiffyg pŵer canfyddedig i aelodau etholedig fel rhwystr ehangach sy’n atal pobl rhag ymwneud â gwleidyddiaeth, a pharhau i ymwneud â hi. Ar lefel leol, priodolodd rhai cyfranogwyr hyn i gost sylweddol dyletswyddau statudol ar gynghorau a’r angen i gynghorau weithredu o fewn terfynau setliadau cyllido tymor byr. Awgrymwyd, mewn rhai achosion, bod gormod o bŵer wedi trosglwyddo o gynghorwyr i swyddogion y cyngor, yr ystyriwyd ei bod yn annemocrataidd ac yn anfanteisiol i ymgeiswyr ac aelodau a dangynrychiolir. Er enghraifft, nodwyd mai dyma pam oedd cyfarfodydd y cyngor yn cael eu cynnal yn ystod oriau gwaith mewn rhai ardaloedd.

O ran terfynau ar gyfnodau mewn swydd, roedd un cyfwelai’n credu’n gryf “o safbwynt llygredigaeth a marweiddio” ei bod yn bwysig gosod rhyw fath o derfyn ar gyfnodau unigol mewn swydd. Fodd bynnag, mynegodd bryder hefyd, a rannwyd gan fwyafrif yr aelodau etholedig ac ymgeiswyr a gyfwelwyd, y gallai terfynau ar gyfnodau mewn swydd ddwysáu risg seddi diwrthwynebiad a gwag mewn siambrau cyngor lleol, cymuned, tref, a hyd yn oed sir ar yr un pryd â lleihau profiad cyfan siambrau cyngor.

### 3.3.5. Mynd i’r afael â rhwystrau – canfyddiadau o’r gwaith maes gyda dinasyddion Cymru

Yn dilyn cyfres o gwestiynau am y rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd yng Nghymru, gwahoddwyd dinasyddion a gyfwelwyd ar gyfer y gwaith ymchwil hwn i drafod ffyrdd o fynd i’r afael â rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd yng Nghymru a’u dileu.

#### 3.3.5.1. Canfyddiadau o ddinasyddion Cymru – mynd i’r afael â rhwystrau recriwtio

Yn unol â’r ffaith bod cyfweleion wedi amlygu diffyg gwybodaeth fel un o’r rhwystrau mwyaf rhag recriwtio, awgrymodd llawer mai allgymorth a rhannu gwybodaeth oedd y ffordd bwysicaf o ddenu mwy o bobl i gymryd rhan mewn democratiaeth. Roedd y cyfweleion o’r

[12] Bydd etholiad y Senedd yn 2026 yn cael ei gynnal gan ddefnyddio ‘system rhestr gyfrannol gaeëdig’ ar draws 16 o etholaethau. Mae hyn yn golygu y bydd pleidleiswyr yn pleidleisio dros bleidiau, yn hytrach nag ymgeiswyr unigol. Mae hefyd yn golygu y bydd ymgeiswyr yn ymgyrchu ar draws etholaethau mwy o faint, yn ddaearyddol ac o ran poblogaeth.

farn petai mwy o bobl yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael a hanfodion cymryd rhan, y byddent yn fwy tebygol o lawer o ymgysylltu.

Cyfeiriodd rhai'n benodol at yr angen i ymgysylltu â phobl ifanc, ac roeddent yn teimlo y dylai allgymorth gael ei gynnal mewn mannau y mae pobl ifanc eisoes yn ymwneud â nhw, fel cyfryngau cymdeithasol, yn hytrach na thybio nad oes ganddynt ddiddordeb. Amlygodd y cyfweleion gyfleoedd i ysgolion a phrifysgolion ymwneud â rhaglenni i hysbysu pobl ifanc am gyfranogiad democrataidd, fel rhaglenni academi, gan awgrymu bod gwleidyddion yn gwneud gwaith allgymorth yn uniongyrchol gyda phobl ifanc mewn lleoliadau o'r fath.

#### 3.3.5.2. Canfyddiadau o ddinasyddion Cymru – mynd i'r afael â rhwystrau adnoddau

Mynegodd sawl cyfwelai gefnogaeth i'r syniad y dylai rôl cynghorydd Awdurdod Lleol fod yn swydd amser llawn â chyflog cyfatebol. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn ei gwneud yn haws i'r rhai y mae angen iddynt gydbwyso'r rôl â chyflogaeth daledig arall ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd bod y rôl yn gofyn am fwy o ymrwymiad na swydd ran-amser i lawer o gynghorwyr, gan greu mwy o heriau i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gwaith neu ofalu eraill.

> "Os ydych chi'n gynghorydd lleol, mae'r cyflog yn talu am ddau ddiwrnod o waith a hanner ac yna'ch oriau … mae'n rhaid i chi reoli hynny. Ond, wn i ddim a ydych chi erioed wedi ceisio gwneud dwy swydd ran-amser ar yr un pryd. Nid yw'n gyfystyr ag 'un swydd', ond yn hytrach un swydd a hanner neu ddwy swydd. Ac yna, os oes gennych chi deulu, hefyd. Felly, rwy'n credu bod y model dau ddiwrnod a hanner yn lletchwith iawn. Rwy'n credu y byddai'n wych petai'n gyflog amser llawn, mewn gwirionedd." (Un o ddinasyddion Cymru)

Roedd llawer o gyfweleion o'r farn y byddai cymorth ariannol i helpu gydag ymgyrchu, fel grantiau neu fwrsariaethau, yn ffordd effeithiol o annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn democratiaeth. Awgrymwyd mentrau cysylltiedig, fel trafnidiaeth gyhoeddus am ddim, hefyd.

> "Rwy'n credu, a bod yn onest, bod arian parod [cymorth ariannol ar gyfer treuliau ymgyrchu] yn beth mawr, yn enwedig yn yr economi sydd ohoni. Mae arnom angen cymaint o gymorth â phosibl, yn enwedig pobl sy'n dod o'm cefndir i nad oes gennym arian ychwanegol i'w daflu o gwmpas i wneud pethau fel hyn. Rwy'n credu y byddai hynny wir yn annog pobl, wyddoch chi, o gefndiroedd economaidd is i geisio mynd am rolau o'r fath." (Un o ddinasyddion Cymru)

Fodd bynnag, roedd un cyfranogwr o'r farn bod cymorth ariannol i ymgeiswyr sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn ateb "tymor byr" ac y byddai'n well gwario'r arian hwn ar wella ymgysylltiad democrataidd ar lefel gymunedol, fel trwy fuddsoddi mewn cynulliadau dinasyddion a dulliau democrataidd cyfranogol ac arloesol eraill. Roedd y cyfwelai'n teimlo y gallai'r newid hwn arwain at newid mwy sylfaenol i ganfyddiadau o gyfranogiad democrataidd, sy'n para yn y tymor hwy.

Awgrymodd rhai strwythurau mwy hygyrch hefyd, fel amserau cyfarfod hygyrch a strwythurau cyfarfod llai ffurfiol. Cynigiodd un cyfwelai 'rolau cynhwysiant' hefyd o fewn cynghorau a fyddai'n sicrhau bod unigolion o gefndiroedd lleiafrifol yn teimlo'n ddiogel i ymgeisio.

#### 3.3.5.3. Canfyddiadau o ddinasyddion Cymru – mynd i'r afael â rhwystrau ymateb

Ymhlith y swyddogion etholedig a'r ymgeiswyr a gyfwelwyd ar gyfer y prosiect hwn, cynigiodd y cyfranogwyr lai o atebion ar gyfer y rhwystrau a amlygwyd ynglŷn â chamdriniaeth a gelyniaeth. Galwodd un dinesydd a gyfwelwyd am sefydlu rhaglen fentoriaeth ar gyfer cynghorwyr newydd a darpar ymgeiswyr i'r cyngor ac iddi fod "yn onest gyda phobl" am y gamdriniaeth maen nhw'n debygol o'i derbyn a strategaethau i liniaru ei heffeithiau, gyda'r nod o "baratoi pobl am y gwaethaf."

# 4. Casgliad

Mae’r casgliad hwn yn dwyn canfyddiadau Pennod 3 ynghyd, gan amlygu meysydd cytundeb ac anghytundeb rhwng y grwpiau a fu’n ymwneud â’r gwaith maes: arbenigwyr ac ymarferwyr, aelodau etholedig ac ymgeiswyr, a dinasyddion. Er mwyn ei gwneud yn haws i ddarllenwyr adolygu rhannau penodol o Bennod 3 a chael dealltwriaeth ddyfnach, mae’r bennod hon yn dilyn yr un strwythur.

## 4.1. Diffinio anfantais economaidd-gymdeithasol a chyfranogiad democrataidd

Ceisiodd y bennod flaenorol ddiffinio anfantais economaidd-gymdeithasol a chyfranogiad democrataidd gyda gwybodaeth o’r adolygiad o lenyddiaeth a’r gwaith maes.

### 4.1.1. Diffinio anfantais economaidd-gymdeithasol

Roedd pob grŵp – arbenigwyr ac ymarferwyr, aelodau etholedig ac ymgeiswyr, a dinasyddion – yn cytuno’n gyffredinol â diffiniad y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ‘fyw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol na phobl eraill yn yr un gymdeithas’ (Llywodraeth Cymru, 2021a). Er enghraifft, byw mewn ardal ddifreintiedig, bod ag ychydig iawn o gynilion neu incwm neu ddim cynilion neu incwm, yn ogystal â normau cymdeithasol a diwylliannol sy’n gysylltiedig â chefndir economaidd-gymdeithasol (Mills, 2021). Pwysleisiodd arbenigwyr ac ymarferwyr, yn arbennig, bwysigrwydd ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol yn groestoriadol. Er enghraifft, cydnabod bod rhiant anabl yn gorfod talu costau ychwanegol ar gyfer gofal plant ac offer. Roedd aelodau etholedig ac ymgeiswyr yn tueddu i adlewyrchu dealltwriaeth o statws economaidd-gymdeithasol fel syniad perthynol a dynamig sy’n cael ei ffurfio gan brofiadau personol a theuluol sy’n amrywio dros amser.

### 4.1.2. Diffinio cyfranogiad democrataidd

Er eu bod yn deall bod y gwaith ymchwil hwn yn canolbwyntio ar fynediad i swyddi etholedig, pwysleisiodd cyfranogwyr ym mhob grŵp a gyfwelwyd bwysigrwydd mathau anetholiadol o ymwneud â democratiaeth, fel ymateb i ymgynghoriadau, actifiaeth gymunedol, a gwirfoddoli. Dadleuodd arbenigwyr hefyd fod ymgysylltu dinesig yn gallu gweithredu fel “llwybr” tuag at ymgeisyddiaeth. Yn ogystal, cytunodd aelodau etholedig fod ymwneud â grwpiau cymunedol neu fforymau lleol yn gallu hybu hyder a gwybodaeth, gan felly gefnogi ymgeisyddiaethau yn y dyfodol.

## 4.2. Rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd

Gan gyfeirio at waith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2019), mae’r gwaith ymchwil hwn yn categoreiddio rhwystrau economaidd-gymdeithasol rhag cyfranogiad democrataidd ar draws tri chategori: rhwystrau recriwtio, rhwystrau adnoddau, a rhwystrau ymateb.

### 4.2.1. Rhwystrau recriwtio rhag cyfranogiad democrataidd

Mae rhwystrau recriwtio'n rhwystrau sy'n atal unigolion rhag cael eu hannog, eu cefnogi, neu eu dethol i ymgeisio am swydd etholedig.

#### Gwybodaeth, profiad, a hyder

Roedd arbenigwyr ac ymarferwyr, swyddogion etholedig, a dinasyddion fel ei gilydd yn cytuno bod diffyg addysg wleidyddol gynnar ac amlygiad cyfyngedig i fywyd dinesig yn rhwystrau sylfaenol. Awgrymodd arbenigwyr fod cyllidebau ar gyfer teithiau i'r Senedd, ffug ddadleuon neu siaradwyr dinesig wedi cael eu torri mewn llawer o ysgolion difreintiedig, sy'n golygu nad yw disgyblion o ardaloedd sydd dan anfantais yn cael addysg wleidyddol cystal â'u cymheiriaid sydd â mwy o fantais economaidd-gymdeithasol. Yn unol â hyn, soniodd aelodau etholedig am "fwlch hyder", sy'n golygu bod pobl nad ydynt erioed wedi gweld gwleidyddiaeth yn cael ei modelu fel "rhywbeth y mae pobl fel fi yn ei wneud" yn annhebygol o ystyried ymgeisyddiaeth, hyd yn oed os ydynt yn amlwg yn "addas i fod yn gynghorydd". Adroddodd dinasyddion, yn enwedig oedolion iau, nad oeddent yn llwyr ddeall "sut mae'n gweithio" – o ysgrifennu papur enwebu i'r hyn y mae etholwyr yn ei ddisgwyl.

Mae'r data arolwg yn adlewyrchu'r diffyg hyder hwn oherwydd y rhwystr a nodwyd amlaf ar draws lefelau tref, plwyf, cymuned, Awdurdod Lleol a'r Senedd oedd "dim teimlo'n ddigon profiadol neu â digon o gysylltiadau" i fod yn ymgeisydd. Mae'r canfyddiad meintiol hwn yn cyd-fynd yn agos â'r dystiolaeth ansoddol gan aelodau etholedig/ymgeiswyr a dinasyddion bod diffyg rhwydweithiau gwleidyddol yn atal unigolion rhag archwilio ymgeisio am swydd etholedig.

#### Cymhlethdod strwythurau democrataidd

Pwysleisiodd arbenigwyr ac ymarferwyr fod y diffyg tryloywder canfyddedig ynglŷn â gweithdrefnau pleidiau a rheoliadau etholiadol yn atal darpar ymgeiswyr. Cytunodd aelodau etholedig ac ymgeiswyr nad yw pleidiau'n esbonio eu prosesau dethol yn glir i aelodau'r blaid na'r cyhoedd. At hynny, amlygwyd bod 'gwybodaeth fewnol', fel bod yn ymwybodol o ddeiliaid seddi sydd ar fin ymddeol, yn fraint sylweddol nad yw bob amser ar gael i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Yn gysylltiedig â hyn, roedd y rhwystrau a fynegwyd amlaf gan ddinasyddion a gyfwelwyd yn ymwneud â gwybodaeth am systemau a phrosesau, yn ogystal â rhwydweithiau. Roedd y rhan fwyaf o'r farn nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i ddeall nac ymwneud â gwleidyddiaeth etholiadol, gan ddatgan bod y prosesau'n ymddangos yn rhy gymhleth ac nad oedd gwybodaeth ar gael yn rhwydd.

#### Rhwystrau ymarferol a diwylliannol

Daeth amser, arian a thrafnidiaeth i'r amlwg droeon fel rhwystrau ymarferol sy'n atal ymgeiswyr dyheadol. Codwyd y thema hon yn amlach gan arbenigwyr ac ymarferwyr, a ddadleuodd fod cyfarfodydd Awdurdod Lleol, cyfarfodydd pleidiau gwleidyddol, a sesiynau canfasio yn gofyn am lawer o amser ac argaeledd trafnidiaeth, y mae pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn llai tebygol o feddu arnynt. Dadleuodd arbenigwyr ac ymarferwyr hefyd fod y dirywiad mewn aelodaeth ag undebau llafur wedi gwanhau llwybr a phecyn cymorth traddodiadol i wleidyddiaeth ar gyfer pobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Disgrifiodd un cynghorydd deimlo'n ofnus ynglŷn ag ymgeisio ar gyfer y Senedd, er ei fod yn weithgar yn ei blaid, oherwydd teimlad bod rolau uwch yn fwy

addas i rai “pobl ddylanwadol” yn ei blaid. Teimlwyd bod hyn yn ddwysach ar gyfer pobl sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, nad oes ganddynt wybodaeth na rhwydweithiau presennol.

### 4.2.2. Rhwystrau adnoddau rhag cyfranogiad democrataidd

Mae rhwystrau adnoddau yn gyfyngiadau sy’n gysylltiedig ag amser, cyllid, neu fynediad at gymorth sy’n atal unigolion a dangynrychiolir rhag cynnal ymgeisyddiaeth yn llwyddiannus, a hynny i raddau anghymesur.

Ar draws yr holl grwpiau a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil, cytunwyd yn gyffredinol bod diffyg amser yn gallu bod yn rhwystr sylweddol sy’n atal pobl sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol rhag cynnal ymgyrch ethol neu ddethol lwyddiannus. Dyma’r rhwystr mwyaf sylweddol a amlygwyd gan gynghorwyr ac ymgeiswyr tref, plwyf a chymuned (disgrifiodd 37% ddiffyg amser fel rhwystr) a chan gynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol (27%). Amlygwyd diffyg arian i ymgyrchu ar gyfer yr etholiad, fel costau trafnidiaeth ac argraffu taflenni, fel y rhwystr mwyaf sylweddol ar gyfer Aelodau’r Senedd ac ymgeiswyr (disgrifiodd 58% ddiffyg arian i’w wario yn ystod yr ymgyrch etholiad fel rhwystr). Ailadroddodd aelodau etholedig ac ymgeiswyr hyn mewn cyfweliadau, gan amlygu’r her ychwanegol i ymgeiswyr sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol mewn etholaethau gwledig, y mae’n rhaid iddynt dalu am gostau teithio mewn car preifat, ac ymgeiswyr annibynnol, sy’n debygol o orfod talu am lenyddiaeth yr ymgyrch eu hunain.

Ffactor allweddol arall y mae angen ei ystyried yw bod pobl sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn llai tueddol o fentro’n ariannol. Y risg fwyaf amlwg yw y gallai ymgeisydd golli ei ymgyrch etholiad ni waeth faint o amser ac arian yr ymrwymodd iddo. Fodd bynnag, nododd rhai arbenigwyr ac ymarferwyr fod y diffyg cymorth ariannol hanesyddol i ymgeiswyr Awdurdod Lleol sy’n colli eu sedd (yn wahanol i’r ‘Grant Ymaddasu’ ar gyfer y rhai sy’n colli seddi yn y Senedd neu San Steffan) yn cael effaith sylweddol ar y tebygolrwydd y bydd pobl sy’n fwy amharod i dderbyn risg sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, yn enwedig y rhai hynny â chostau ychwanegol, fel pobl anabl neu bobl sydd â chyfrifoldebau gofalu, yn cael eu hatal rhag ymgeisio am etholiad.

Mae rhwystrau adnoddau’n parhau i fod yn heriol i gynghorwyr lleol o ganlyniad i’w cydnabyddiaeth ariannol gyfyngedig. Dywedodd un cynghorydd cymuned ei fod yn cael ei dalu llai na 50c yr awr ac y disgwylir iddo ef ei hun dalu am deithio ac amser i ffwrdd o’r gwaith ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Dywedodd cynghorydd Awdurdod Lleol arall ei fod yn gweithio o leiaf 4 diwrnod yr wythnos ar fusnes y cyngor – mwy na’r 2.5 i 3 diwrnod a argymhellir – a’i fod yn gallu fforddio hynny dim ond oherwydd bod ganddo incwm arall. Roedd yr holl rwystrau adnoddau hyn yn gysylltiedig â chynrychiolaeth anghymesur swyddogion etholedig hŷn, wedi ymddeol, hunangyflogedig, a chymharol gefnog, gan fod y grwpiau hyn yn fwy tebygol o allu cynnal bod yn gynghorydd lleol yn ariannol.

### 4.2.3. Rhwystrau ymateb rhag cyfranogiad democrataidd

Mae rhwystrau ymateb yn ymddygiadau negyddol – fel gwahaniaethu, aflonyddu, neu allgáu – a wynebir gan unigolion o ganlyniad i’w nodweddion gwarchodedig neu eu statws economaidd-gymdeithasol.

Amlygodd arbenigwyr ac ymarferwyr fod ystrydebau a rhagfarn yn parhau ymhlith etholwyr a detholwyr. Gwnaethant ddisgrifio sut yr ystyriwyd nad oedd rhai grwpiau, fel pobl anabl neu unigolion heb gefndir proffesiynol statws uchel, yn meddu ar y gallu angenrheidiol i ddal swydd etholedig. Nid oedd y tybiaethau hyn bob amser yn amlwg; yn lle hynny, dywedwyd bod codau ieithyddol – fel dweud "nad yw'n gynrychioliadol o'r mwyafrif" wrth gyfeirio at rywun – yn cael eu defnyddio i gyfiawnhau gwrthwynebu dethol neu ethol ymgeisydd. Ni chafodd y gwahaniaethu cynnil hwn mewn ymgyrchoedd dethol neu ethol pleidiau eu hadleisio yn y gwaith maes gyda chynrychiolwyr etholedig ac ymgeiswyr, sy'n awgrymu naill ai nad oedd swyddogion etholedig eisiau ystyried bod eu prosesau dethol yn gynhenid ragfarnllyd neu fod prosesau dethol yn deg i ymgeiswyr sydd â nodweddion gwarchodedig a dangynrychiolir. Mae'r llenyddiaeth ar y pwnc hwn yn cyfleu darlun o wahaniaethu cynnil, yn enwedig mewn seddi cystadleuol, ond hefyd detholiadau 'ticio blwch', sy'n tanseilio cydnabod rhinweddau a chyflawniadau ymgeisydd sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol (Ashe, 2019; Murray, 2021).

Fodd bynnag, roedd yr holl grwpiau'n cytuno'n unfrydol bod gelyniaeth – ar-lein ac wyneb yn wyneb – yn atal llawer o ddarpar ymgeiswyr, yn enwedig menywod a'r rhai hynny o gefndiroedd lleiafrifol, rhag ymgeisio am etholiad. Nododd arbenigwyr fod arian yn gallu lliniaru'r risgiau hyn (er enghraifft, gosod camerâu diogelwch y cartref), tra bod pobl sydd ag adnoddau cyfyngedig yn teimlo'n arbennig o agored i niwed. Adleisiodd dinasyddion fod yr elyniaeth a'r tocsigrwydd a ddisgwylir yn rhwystr sylweddol a oedd yn eu hatal rhag ymgeisio am swydd etholedig.

## 4.3 Mynd i'r afael â rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd

Rhan allweddol o'r gwaith ymchwil hwn yw amlygu dulliau o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn rhag cyfranogiad democrataidd yn y dyfodol.

### 4.3.1. Ymdrechion blaenorol a pharhaus i fynd i'r afael â rhwystrau – canfyddiadau o'r llenyddiaeth

Mae Pennod 3 yn cynnwys trosolwg o ymdrechion blaenorol a pharhaus i fynd i'r afael â rhwystrau recriwtio, adnoddau, ac ymateb, fel y cynllun mentora ac ymgysylltu Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal, rhaglen ymgeiswyr rhai undebau llafur (e.e., Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu), y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig, a chwotâu rhywedd gwirfoddol. Mae gweddill y bennod hon yn cyfosod a chymharu safbwyntiau'r rhai a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil – arbenigwyr ac ymarferwyr, aelodau etholedig ac ymgeiswyr, a dinasyddion – ar ffyrdd o fynd i'r afael â rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd ar gyfer pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

### 4.3.2. Mynd i'r afael â rhwystrau – canfyddiadau o'r gwaith ymchwil

Anogwyd swyddogion etholedig, ymgeiswyr, dinasyddion, arbenigwyr, ac ymarferwyr i awgrymu dulliau o fynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan ymgeiswyr sy'n profi anfantais eocnomaidd-gymdeithasol yng Nghymru. Trefnwyd y rhain yn ôl 'grwpiau' o gyfranogwyr gwaith maes ym Mhennod 3, ond fe'u cyfosodir isod.

### Mynd i'r afael â rhwystrau recriwtio

Y dull a gynigiwyd amlaf o fynd i'r afael â rhwystrau recriwtio oedd allgymorth gan swyddogion etholedig, a rhannu gwybodaeth am rolau cynghorwyr lleol a phrosesau dethol ac ethol. Teimlai llawer mai'r dull gorau oedd siarad â phobl am yr hyn y mae gwahanol gyrff etholedig yn ei wneud, chwalu tybiaethau am brosesau, a'u hannog i gymryd rhan. Crybwyllwyd rhaglenni hyfforddiant a mentoriaeth ffurfiol gan ambell swyddog etholedig a llawer o arbenigwyr ac ymarferwyr fel dulliau posibl o annog recriwtio, gan gynnwys 'rhaglenni cyfeillio' gyda chynghorwyr mwy profiadol.

Yn ogystal â hyn, argymhellodd llawer o gyfranogwyr arweiniad mwy eglur i ymateb i'r diffyg tryloywder ynglŷn â phrosesau dethol ac ethol, gan gredu bod gan bleidiau gwleidyddol, CLlLC, a Llywodraeth Cymru rôl i'w chwarae wrth gynyddu tryloywder. Teimlai rhai y gellid gwneud mwy i gynyddu ymwybyddiaeth pobl o berthnasedd 'gwleidyddiaeth' i'w bywydau pob dydd, oherwydd gellid cysylltu ymddieithriad pobl â pheidio â sylweddoli sut mae prosesau democrataidd yn effeithio arnynt.

Roedd un dinesydd eisiau i gyfranogiad democrataidd y tu allan i etholiadau gael ei normaleiddio'n fwy o lawer, fel trwy gynulliadau dinasyddion, cyfarfodydd lleol, cyllidebu cyfranogol, a dulliau eraill o gynnwys y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau. Dadleuodd y gallai dulliau eraill o gyfranogiad democrataidd newid diwylliant gwleidyddiaeth leol yng Nghymru, gan wneud Awdurdodau Lleol yn alwedigaeth fwy deniadol i bawb, gan gynnwys pobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

### Mynd i'r afael â rhwystrau adnoddau

O ran rhwystrau adnoddau, roedd ambell swyddog etholedig ac ymgeisydd yn betrus o blaid y syniad o gydnabyddiaeth ariannol uwch i gynghorwyr Awdurdod Lleol neu ailstrwythuro'r rôl i fod yn amser llawn. Yn ogystal, roeddent yn credu y byddai hyn yn arwain at gynyddu disgwyliadau a gofynion y rôl, gan fod lefel y gwaith a wneir gan gynghorwyr yn amrywio'n fawr ar hyn o bryd. Roedd arbenigwyr, ymarferwyr, a dinasyddion a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn yn fwy tebygol o gefnogi cynyddu cyflog cynghorwyr Awdurdod Lleol yn bendant, er yr awgrymodd rhai y dylai hyn gael ei wneud ochr yn ochr â lleihau nifer y cynghorwyr.

Roedd safbwyntiau swyddogion etholedig ac ymgeiswyr a gymerodd ran yn amrywio o ran rhannu swydd ar gyfer swyddogion etholedig. Roedd rhai o blaid y syniad hwn, gan ddweud y gallai ganiatáu i fwy o bobl ymgeisio am etholiad, a dadlau ei fod yn gweithio'n dda mewn cyd-destunau eraill. Roedd eraill yn pryderu am ddrysu pleidleiswyr a'r posibilrwydd o ddiffyg atebolrwydd (yn enwedig ar gyfer rolau uwch), ac yn teimlo ei bod yn bwysig i etholwyr adnabod eu cynrychiolydd lleol a chael perthynas ag ef.

I fynd i'r afael â heriau cydbwyso cyfrifoldebau gwaith â gofynion ymgyrchu, cytunodd rhai swyddogion etholedig ac ymgeiswyr â'r syniad o bolisi 'hawl i ymgeisio', a fyddai'n gorfodi cyflogwyr i roi amser i ffwrdd o'r gwaith i ganiatáu i weithwyr ymgeisio am etholiad. Nododd ambell un efallai na fyddai hyn yn syml mewn gyrfaoedd lle y gallai'r diwylliant weithredu fel rhwystr, hyd yn oed os yw'r gofyniad cyfreithiol ar waith. Yn gysylltiedig â hyn, cynigiodd arbenigwyr ac ymarferwyr a dinasyddion y syniad o gronfa benodol i ddigolledu am incwm a gollwyd ar gyfer ymgeiswyr sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

> “Rwy’n credu, a bod yn onest, bod arian parod [cymorth ariannol ar gyfer treuliau ymgyrchu] yn beth mawr, yn enwedig yn yr economi sydd ohoni. Mae arnom angen cymaint o gymorth â phosibl, yn enwedig pobl sy’n dod o’m cefndir i nad oes gennym arian ychwanegol i’w daflu o gwmpas i wneud pethau fel hyn.” (Un o ddinasyddion Cymru)

Roedd arbenigwyr, ymarferwyr, a dinasyddion yn fwyaf tebygol o gefnogi cynllun ariannol ar gyfer ymgeiswyr sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Yn benodol, roedd y syniad o dalu am gost gofal plant yn arbennig o boblogaidd. Yn ogystal, roedd galwadau i’r cymorth dalu am gost trafnidiaeth, dillad ffurfiol ar gyfer digwyddiadau swyddogol, ac offer diogelwch.

**Mynd i’r afael â rhwystrau ymateb**

O ran rhwystrau ymateb, roedd safbwyntiau’r cyfranogwyr yn amrywio ar fentrau mwy rhagnodol fel cwotâu, y cyfeiriwyd atynt fel ‘gwahaniaethu cadarnhaol’ gan rai. Roedd ambell un yn credu bod y rhain wedi bod yn llwyddiannus ac y dylent barhau; fodd bynnag, roedd eraill yn credu y dylai ymgeiswyr gael eu dethol “ar sail teilyngdod” ac roeddent yn anghyfforddus â chwotâu.

Cynigiodd yr holl grwpiau yr ymgysylltwyd â nhw ar gyfer y gwaith ymchwil hwn lai o gynigion ar gyfer y rhwystrau a amlygwyd ynglŷn â chamdriniaeth a gelyniaeth. Roedd arbenigwyr ac ymarferwyr o’r farn bod angen i bleidiau gwleidyddol wneud mwy i roi sicrwydd i bobl ynghylch diogelwch, gan gynnwys bod yn fwy eglur ynglŷn â beth fydd yn cael ei wneud os bydd rhywbeth yn digwydd a’r camau a gymerir i liniaru aflonyddu.

**Rhwystrau systemig a chyfrifoldeb am newid**

Galwodd arbenigwyr ac ymarferwyr am rai newidiadau systemig, gan gynnwys cyflwyno rhannu swydd ar gyfer swyddi etholedig yng Nghymru, terfynau ar gyfnodau mewn swydd, a symud i system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar draws Awdurdodau Lleol yng Nghymru. At hynny, roedd gan swyddogion etholedig ac ymgeiswyr safbwyntiau cryf hefyd ar newidiadau systemig, gan gynnwys: i) roedd sawl un yn erbyn system etholaeth a phleidleisio newydd y Senedd, ii) symud pŵer o swyddogion y cyngor i gynghorwyr, iii) gwrthwynebu terfynau ar gyfnodau mewn swydd ar gyfer cynghorwyr Awdurdod Lleol a chymuned yn gyffredinol, a iv) rhai a oedd o blaid Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy.

Er y dadleuodd llawer o arbenigwyr ac ymarferwyr yn gryf y dylai pleidiau gwleidyddol fod yn gyfrifol am weithredu diwygiadau i fynd i’r afael â rhwystrau rhag cyfranogiad democrataidd ar gyfer pobl sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, roedd y gwrthwyneb yn wir am aelodau etholedig, ymgeiswyr, a dinasyddion. Roeddent yn tueddu i ddadlau y dylai Llywodraeth Cymru arwain y ffordd oherwydd y gallai fod yn fwy diduedd a rhoi cyfle cyfartal i bobl a chanddynt wahanol gredoau gwleidyddol, yn hytrach na’r rhai hynny sy’n gysylltiedig â phleidiau gwleidyddol mwy, sydd wedi’u hariannu’n dda yn unig. Gallai gwaith ymchwil pellach, ac efallai ymgynghoriad ar becyn ehangach o ddiwygiadau i fynd i’r afael â rhwystrau, roi mwy o wybodaeth am y pwnc hwn.

# 5. Argymhellion

Nod y gwaith ymchwil hwn oedd archwilio'r dylanwadau economaidd-gymdeithasol ar gyfranogiad democrataidd yng Nghymru, gyda phwyslais ar rwystrau economaidd-gymdeithasol rhag swyddi etholedig. Yn seiliedig ar y canfyddiadau a'r casgliadau, cynigiwyd yr argymhellion canlynol. Mae'r argymhellion yn cynnwys sawl cynnig i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru, ac mae rhai'n gofyn am gydweithio pellach gan CLlLC, Awdurdodau Lleol, a phleidiau gwleidyddol.

**Argymhellion i fynd i'r afael â rhwystrau recriwtio:**

- **Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fuddsoddi mewn cynlluniau mentora a hyfforddi fel Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal, ond dylai geisio sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n golygu y gellir gwerthuso eu heffaith yn drwyadl – er enghraifft, trwy gyflwyno elfen ar hap a chasglu data hydredol. Dylai unrhyw gynlluniau yn y dyfodol gael eu sefydlu gyda meini prawf manwl i sicrhau eu bod yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, mwy amrywiol, sy'n ymwneud llai â gwleidyddiaeth.
- **Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), cynghorau, y Comisiwn Etholiadol, pleidiau gwleidyddol a phartneriaid eraill, fel y bo'n briodol, i gyfrannu at arweiniad sydd ar gael yn gyhoeddus ac sy'n cael ei gadw'n berthnasol ac yn gyfredol ar y prosesau sy'n ofynnol i ymgeisio am etholiad i gynghorau cymuned, Awdurdodau Lleol, a'r Senedd.
- **Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid perthnasol geisio meithrin gwahanol ffyrdd o gynnwys pobl mewn democratiaeth yng Nghymru gyda'r nodau clir canlynol: i) cynnwys y cyhoedd yn fwy mewn gwneud penderfyniadau yng Nghymru, ii) cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yng Nghymru, iii) grymuso dinasyddion Cymru i deimlo'n hyderus ac yn ddigon cymwys i ymgeisio am etholiad yng Nghymru. Ar yr un pryd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried adroddiad diweddar gan y Sefydliad Materion Cymreig ar y pwnc hwn (Elias et al., 2025). Dylai mentrau gyd-fynd â strategaethau cyfranogiad cyhoeddus presennol y mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol eu sefydlu, neu ychwanegu atynt, a dylid eu gwerthuso i amlygu meysydd lle y gellid cryfhau dulliau.

**Argymhellion i fynd i'r afael â rhwystrau adnoddau:**

- **Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru, CLlLC, Awdurdodau Lleol, y Senedd, a phleidiau gwleidyddol ystyried ffyrdd o leihau rhwystrau adnoddau sy'n atal gweithgarwch gwleidyddol. Fe allai hyn gynnwys cyflwyno crèche yng nghyfarfodydd pleidiau gwleidyddol ac Awdurdodau Lleol, darparu mynediad rhithwir at holl gyfarfodydd lleol pleidiau gwleidyddol, a sicrhau y gellir cyrraedd cyfarfodydd trwy drafnidiaeth gyhoeddus.
- **Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cronfa benodol i gynorthwyo ymgeiswyr sydd â chyfrifoldebau gofalu a mynnu gwasanaethau gofal y telir amdanynt ar gyfer eraill o ganlyniad i'w hymgeisyddiaeth. Dylid lansio ymgynghoriad i archwilio manylion yr estyniad

hwn, gan gynnwys p'un ai talebau gofal yw'r dull cyflenwi cywir a ph'un a ellir digolledu gofal di-dâl yn ariannol. Dylai hyn hefyd ystyried cyllid wedi'i dargedu i wrthbwyso costau a gafwyd o ganlyniad i ymgyrchu, gan gynnwys trafnidiaeth, gwariant ychwanegol ar fwyd, ac offer diogelwch ar gyfer ymgeiswyr sy'n profi tocsigrwydd ac aflonyddu.

- **Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau pendant i fynd i'r afael ag ystrydebau a allai gyfrannu at gost cyfranogiad democrataidd, fel credoau ynglŷn â'r math o ddillad y dylai gwleidyddion eu gwisgo, neu ddisgwyliadau rhyweddol ynglŷn â cholur neu wallt ar gyfer menywod. Er y gallai ymgais o'r fath i newid ffordd o feddwl fod yn nod strategol tymor hwy, yn y tymor byr fe allai hyn gynnwys egluro codau gwisg anffurfiol yn siambr y cyngor, annog pobl sy'n gwneud gwaith allgymorth democrataidd i beidio â chydymffurfio â disgwyliadau ystrydebol, a chyhoeddi arweiniad i herio ystrydebau a thybiaethau ynglŷn â gwisg neu olwg briodol.
- **Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno "Hawl i Ymgeisio" ar gyfer cyflogeion, sy'n mynnu bod cyflogwr yn caniatáu i gyflogeion gael amser i ffwrdd o'r gwaith i ymgeisio mewn etholiadau Awdurdod Lleol ac etholiadau'r Senedd yn ystod y cyfnod ymgyrchu ffurfiol. Fe ddylai hyn gynnwys ymgysylltu ag undebau llafur, pleidiau gwleidyddol, sefydliadau busnes, a mwy. Dylai'r cwmpas gynnwys asesiad o ymarferoldeb ac effeithiau posibl ar draws ystod eang o gyflogwyr, gan gynnwys busnesau bach ac elusennau, ymhlith eraill.
- **Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru a CLlLC ymgysylltu â busnesau, y sector addysg uwch, ac eraill i amlygu sut gellir annog cyflogwyr i ystyried bod gwasanaethu cymuned fel swyddog etholedig yn sgìl gwerthfawr, a chynorthwyo cynghorwyr i gael hyfforddiant a chamu ymlaen mewn gyrfa yn y tymor hwy.
- **Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno cynllun penodol i ddigolledu ymgeiswyr am gyfran o'r incwm maen nhw'n ei golli wrth ymgeisio mewn etholiadau Awdurdod Lleol neu etholiadau'r Senedd. Er mwyn cadw costau dan reolaeth, fe allai hyn gael ei gysylltu â gofynion penodol; er enghraifft, yn etholiadau San Steffan, mae blaendaliadau'n gysylltiedig ag ennill o leiaf 5% o'r bleidlais.
- **Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fynd ati i gyflwyno 'Grant Ymaddasu'[13] ar gyfer cynghorwyr Awdurdod Lleol, yn debyg i'r model a ddefnyddir ar gyfer y Senedd.
- **Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ystyried adolygu rolau, cyfrifoldebau, a chyflogau cynghorwyr Awdurdod Lleol. Fe allai hyn gynnwys gwneud rôl cynghorydd Awdurdod Lleol yn un amser llawn gyda chyflog amser llawn, a gellid ei wneud ochr yn ochr â diwygio llywodraeth leol yng Nghymru i leihau nifer gyffredinol y cynghorwyr. Fel arall, fe allai hyn gynnwys cryfhau opsiynau rhannu swydd ar gyfer

[13] Mae'r 'Grant Ymaddasu' yn cyfeirio at daliadau pontio i Aelodau'r Senedd ac Aelodau Tŷ'r Cyffredin sy'n gadael yn seiliedig ar flynyddoedd gwasanaeth a'r swyddi a ddaliwyd. Maen nhw'n pontio'r bwlch ariannol rhwng gadael swydd etholedig a dechrau cyflogaeth newydd.

cynghorwyr Awdurdod Lleol a diffinio rolau a chyfrifoldebau cynghorwyr yn fwy clir er mwyn sicrhau nad ydynt yn teimlo bod disgwyl iddynt weithio am fwy o amser nag y cânt gydnabyddiaeth ariannol amdano.

**Argymhellion i fynd i'r afael â rhwystrau ymateb:**

- **Argymhelliad 12:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda CLlLC, y Senedd, a phartneriaid eraill i ychwanegu at y dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys galwad am dystiolaeth ac adroddiad diweddar y Gymdeithas Llywodraeth Leol (2022) trwy gynnal adolygiad penodol o'r hyn rydym eisoes yn ei wybod am beth sy'n gweithio i fynd i'r afael â gelyniaeth, tocsigrwydd, brawychu, a cham-drin swyddogion etholedig ac ymgeiswyr. Dylai'r adolygiad hwn geisio amlygu bylchau a llywio'r broses o ddatblygu ymyriadau effeithiol ar sail tystiolaeth.

# 6. Cyfeiriadau

Allen, P. (2013). Last in, first out – Gendered patterns of local councillor dropout. *British Politics*, 8(2), pp. 207–224.

Ashe, J. (2019). Political Candidate Selection: Who Wins, Who Loses, and Under-Representation in the UK. 1st edn. London: Routledge.

Awan-Scully, R. et al. (2018). Unpacking Diversity: Barriers and incentives to standing for election to the National Assembly for Wales. Wales Governance Centre.

Begum, N. & Sobolewska, M. (2024). Ticking Two Boxes, Fighting Two Battles: Intersectional Experiences of Ethnic Minority Women Councillors in UK Local Government. *Politics & Gender*, pp. 1–26.

Cairney, P. et al. (2016). Solving the problem of social background in the UK "political class": Do parties do things differently in Westminster, devolved and European elections?. British Politics, 11(2), pp. 142–163.

Cyngor Caerdydd. (2009). Recommendations of the Councillors Commission Expert Panel.

Carnes, N. & Lupu, N. (2016). Do Voters Dislike Working-Class Candidates? Voter Biases and the Descriptive Underrepresentation of the Working Class. *American Political Science Review*, 110(4), pp. 832–844.

Chaney, P. et al. (2007). Women, politics and constitutional change: the first years of the National Assembly for Wales. Cardiff: University of Wales Press.

Childs, S. and Lovenduski, J. (2013) Political Representation, in G. Waylen et al. (eds) The Oxford Handbook of Gender and Politics. 1st edn. Oxford University Press, pp. 489–513.

Cowper-Coles, M. (2020). Women political leaders: the impact of gender on democracy | King's Global Institute for Women's Leadership. King's College London.

Cracknell, R., Tunnicliffe, R., Barton, C., & Audickas, L. (2022). Social background of Members of Parliament 1979–2019 (House of Commons Library Briefing Paper No. CBP-7483). UK Parliament.

Crenshaw, K. (1991). Mapping the Margins: Intersectionality, Identity Politics, and Violence against Women of Color, *Stanford Law Review*, 43(6), p. 1241.

Curtice, J. et al. (2024) British Social Attitudes 41 | Damaged Politics?: The impact of the 2019-2024 Parliament on political trust and confidence. National Centre for Social Research.

Davies, A., Dawkins, A., & Lewis-Richards, M. (2023). Adolygiad o Beilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru. Llywodraeth Cymru.

Y Comisiwn Etholiadol. (2021). Adroddiad ar etholiadau mis Mai 2021 yng Nghymru.

Y Comisiwn Etholiadol. (2021). Senedd election: Guidance for candidates and agents.

Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru. (2024). Reform Bill Committee's consultation on the Senedd Cymru (Electoral Candidate Lists) Bill ERS Cymru written evidence.

Elias, Phillips, & Wolowic. (2025). Fostering Democratic Innovations in Wales: Lessons From Around the World. Institute of Welsh Affairs and Centre for Welsh Politics & Society Aberystwyth University.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (2019). Barriers to participation in standing for election to local government in Scotland.

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. (2019). Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

Evans, E. and Reher, S. (2020). Disability and political representation: Analysing the obstacles to elected office in the UK. International Political Science Review, 43(5), pp. 697–712.

Farrell, C. and Titcombe, S. (2016). Gender and the experiences of local elected members – a focus on Wales. Local Government Studies, 42(6), pp. 867–884.

Hallet, C. (2022). UK Covid-19 Inquiry. Module 1: The resilience and preparedness of the United Kingdom.

Hibbs, L. (2022). "I was able to take part in the chamber as if I was there" – women local councillors, remote meeting attendance, and Covid-19: a positive from the pandemic? Journal for Cultural Research, 26(1), pp. 6–23.

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. (2022). 2022 Local Elections Handbook and dataset.

Tŷ'r Cyffredin. (2010). Speaker's Conference (on Parliamentary Representation) Final Report.

Keating, M. and Cairney, P. (2005). A New Elite? Politicians and Civil Servants in Scotland after Devolution. Parliamentary Affairs, 59(1), pp. 43–59.

Kenny, M. (2015). Why aren't there more women in British politics? The Political Studies Association (PSA).

Krook, L. and Norris, P. (2014). Beyond Quotas: Strategies to Promote Gender Equality in Elected Office. Political Studies, 62(1): 2–20.

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. (2023). Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

Y Gymdeithas Llywodraeth Leol. (2022). Debate Not Hate: The impact of abuse on local democracy.

Lovenduski, J. (2005) Feminizing politics. Cambridge: Polity Press.

Lovenduski, J. (2016). The Supply and Demand Model of Candidate Selection: Some Reflections. Government and Opposition, 51(3), pp. 513–528.

Macleod, M. et al. (2014). Improving Parliament: Creating a better and more representative house. A Party Parliamentary Group Women In Parliament.

Maguire, S. (2018). Barriers to Women Entering Parliament and Local Government. Institute for Policy Research, University of Bath.

Martin, N. S. and Blinder, S. (2021). Biases at the Ballot Box: How Multiple Forms of Voter Discrimination Impede the Descriptive and Substantive Representation of Ethnic Minority Groups. Political Behavior, 43(4), pp. 1487–1510.

McAllister, L. et al. (2014). On Balance: Diversifying Democracy in Local Government in Wales'. Expert Group on Diversity in Local Government.

McAllister, L. et al. (2017). A Parliament That Works For Wales. Expert Panel on Assembly Electoral Reform.

McConnel, J. and Stevensen, S. (2019). Evaluation of diversity in democracy. Welsh Government.

Mills, C. (2021). Implementing the Socio-economic Duty: A review of evidence on socio-economic disadvantage and inequalities of outcome. Welsh Government.

Moore, D. (2023). Building Bridges: Wales' democracy – now, and for our future. Institute for Welsh Affairs.

Murray, R. (2023). It's a rich man's world: How class and glass ceilings intersect for UK parliamentary candidates. International Political Science Review, 44(1), pp. 13–26.

Norris, P. and Lovenduski, J. (1994). Political Recruitment: Gender, Race and Class in the British Parliament. 1st edn. Cambridge University Press.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) (2023). Ward data, England and Wales: Census 2021.

Owens, N. (2022). Cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr ac ymgysylltiad dinasyddion â chynghorwyr: Arolwg o gynghorwyr. Llywodraeth Cymru.

Pitkin, H. (1967). The concept of representation. University of California Press.

Quilter-Pinner, H. et al. (2022). Closing the gap: Parliament, representation and the working class. Institute for Public Policy Research.

Quintelier, E. and Hooghe, M. (2013). The Impact of Socio-economic Status on Political Participation. In: Demetriou, K. (eds) Democracy in Transition. Springer.

Rahat, G. (2007). Candidate Selection: The Choice Before the Choice. Journal of Democracy, 18(1), pp. 157–170.

Rallings, C. et al. (1998). Patterns of voting choice in multimember districts: the case of English local elections. Electoral Studies, 17(1), pp. 111–128.

Ratner, B. (2009). The correlation coefficient: Its values range between +1/−1, or do they? J Target Meas Anal Mark, 17, pp.139–142.

Robinson, C. et al. (2014). Evaluating Barriers to Entering the Assembly: What Prevents Us From Standing. National Assembly for Wales.

Senedd Cymru. (2011). Cynllun mentora Camu Ymlaen Cymru: Adroddiad gwerthuso.

Showunmi, V. and Price, J. (2021). Improving Race Equality in Leadership and Representation. Wales Centre for Public Policy.

Sillet, J. (2024). Diversity in political representation in the UK. Local Government Information Unit.

Smith, H. a Davies, I. (2019) Removing barriers to elected office for people with protected characteristics: Theory of change. Llywodraeth Cymru.

Stanford University. (n.d.). MacArthur Scale of Subjective Social Status – Adult Version. Standford University.

The Disability Policy Centre. (2022). Breaking Down Barriers: Improving Disabled Political Representation & Participation Across The United Kingdom.

Uberoi, E. and Johnston, N. (2022). Political disengagement in the UK: Who is disengaged? House of Commons Library.

Valgardsson, V. et al. (2023). Diffinio, mesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Waddilove, L. A. (2018). Exploring the Descriptive Representation of Women: The Case of the National Assembly of Wales. Undergraduate Journal of Politics and International Relations, 1(1), p. 5.

Waltz, M. and Schippers, A. (2021). Politically disabled: barriers and facilitating factors affecting people with disabilities in political life within the European Union. Disability & Society, 36(4), pp. 517–540.

Llywodraeth Cymru. (2021a). Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: canllawiau statudol.

Llywodraeth Cymru. (2021b). Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Llywodraeth Cymru. (2022). Datganiad Ysgrifenedig: Amrywiaeth mewn Democratiaeth – Diweddariad.

Llywodraeth Cymru. (2024a). Canllawiau amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig: atodiad.

Llywodraeth Cymru. (2024b). Canllawiau: Taliadau i aelodau etholedig.

Llywodraeth Cymru. (2024c). Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Llywodraeth Cymru. (2024d). Canllawiau amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig.

Llywodraeth Cymru. (dim dyddiad). Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). (2017). Arolwg Ymadael ymhlith Aelodau a Safodd i Lawr ym Mai 2017.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). (2022). Arolwg Ymadael ymhlith Cynghorwyr a Safodd i Lawr ym Mai 2022.

Williams, W. (2022). Windrush Lessons Learned Review: progress update. Home Office.

# Atodiad A: Samplu a gwybodaeth ddemograffig o arolygon

## Arolwg o ddinasyddion Cymru

- Derbyniwyd cyfanswm o **17 o ymatebion**.
- Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn byw yn Sir Benfro (29%), ac yna Gwynedd (24%) a Phen-y-bont ar Ogwr (12%). Mae eraill yn byw mewn Awdurdodau Lleol fel Caerffili, Caerdydd, Ceredigion, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, ac Abertawe.
- O ran oedran, mae 41% rhwng 35 a 44 oed, mae 29% rhwng 25 a 34 oed, mae 18% rhwng 45 a 54 oed, ac mae 12% rhwng 55 a 64 oed.
- Mae 53% o'r ymatebwyr yn uniaethu'n fenywaidd ac mae 47% yn uniaethu'n wrywaidd.
- Mae 76% yn uniaethu'n heterorywiol.
- Mae 94% o gefndir ethnig Gwyn, tra dewisodd 6% i beidio â datgelu eu hethnigrwydd.
- Adroddodd 35% fod ganddynt gyflwr neu salwch corfforol neu iechyd meddwl a oedd yn para, neu y disgwyliwyd iddo bara, 12 mis neu fwy.
- Nododd 76% nad ydynt yn darparu gofal na chymorth i rywun sydd â chyflyrau iechyd tymor hir neu anghenion cysylltiedig ag oedran.
- Adroddodd 65% nad oedd ganddynt unrhyw gyfrifoldebau rhieni.
- Mae gan 76% radd academaidd (e.e., BA, BSc, PhD, neu ddiploma/tystysgrif ôl-raddedig, mae gan 12% gymwysterau fel HNC, HND, neu BTEC Uwch, mae gan 6% Safon Uwch neu Uwch Gyfrannol, ac adroddodd 6% arall nad oedd ganddynt gymwysterau ffurfiol.
- Dewisodd 41% yr opsiwn a oedd yn disgrifio 'proffesiwn modern' (e.e., athro/athrawes, nyrs, gweithiwr cymdeithasol, sarsiant yr heddlu, dylunydd meddalwedd, artist, ac ati) – dyma'r categori galwedigaethol a ddewiswyd amlaf.
- Mae mwyafrif mawr (89%) naill ai'n berchen ar eu cartref neu'n byw gyda rhywun sy'n berchen ar yr eiddo, p'un a dalwyd amdano'n llwyr neu ei fod wedi'i forgeisio.
- Ar raddfa ysgol gymdeithasol 10 pwynt (lle mae 10 yn cynrychioli'r rhai mwyaf cefnog mewn cymdeithas ac 1 yn cynrychioli'r lleiaf cefnog), graddiodd yr ymatebwyr sefyllfa eu teulu yn 18 oed gyda sgôr gymedrig o 6.3 (ystod: 2 i 9), a'u sefyllfa bresennol gyda sgôr gymedrig o 6.9 (ystod: 3 i 9).
- Adroddodd 65% eu bod wedi rhoi o'u hamser yn wirfoddol i glybiau neu sefydliadau yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf. O'r rheiny, mae 41% yn cefnogi sefydliadau elusennol, mae 18% yn ymwneud â grwpiau ieuenctid neu ysgol, ac mae 6% yn cymryd rhan mewn grwpiau celfyddydol. Ar gyfartaledd, gwnaethant gyfrannu 10 awr yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Datganodd 59% eu bod wedi ymateb i ymgynghoriad Awdurdod Lleol neu Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd canran yr ymatebwyr a bleidleisiodd yn uchel:

- Pleidleisiodd 94% yn Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig (Gorffennaf 2024)
- Pleidleisiodd 88% yn etholiadau lleol Cymru (Mai 2022)
- Pleidleisiodd 94% yn etholiadau'r Senedd (Senedd Cymru) (Mai 2021)
- Pleidleisiodd 88% yn Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig (Rhagfyr 2019).
- Mae 18% o'r ymatebwyr yn aelodau o blaid wleidyddol.

### Arolwg o ymgeiswyr i'r Senedd

- Derbyniwyd cyfanswm o **21 o ymatebion**.
- Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn byw yn Rhondda Cynon Taf (24%), ac yna Abertawe (14%) a Chaerdydd a Chasnewydd (10% yr un). Mae eraill yn byw mewn Awdurdodau Lleol fel Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir y Fflint, Gwynedd, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Powys, a Bro Morgannwg (5% yr un).
- O ran oedran, mae 29% rhwng 45 a 54 oed, mae 29% rhwng 65 a 74 oed, mae 19% rhwng 35 a 44 oed, mae 19% rhwng 55 a 64 oed, ac roedd yn well gan 5% beidio â dweud.
- Mae 67% yn uniaethu'n wrywaidd, mae 24% yn uniaethu'n fenywaidd, ac roedd yn well gan 10% beidio â datgelu eu rhywedd.
- Roedd 81% yn uniaethu'n heterorywiol.
- Mae 76% o gefndir ethnig Gwyn. Mae atebion eraill yn cynnwys: Asiaidd, Cymro/Cymraes Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig (10%), heb ei restru (5%) a gwell gennyf beidio â dweud (10%).
- Dewisodd 29% yr opsiwn a oedd yn disgrifio "proffesiwn modern" (e.e., athro/athrawes, nyrs, gweithiwr cymdeithasol, sarsiant yr heddlu, dylunydd meddalwedd, artist, ac ati) ac adroddodd 19% fod ganddynt "alwedigaethau technegol a chrefft" (e.e., mecanydd moduron, gosodwr, arolygydd, plymwr, argraffwr, gwneuthurwr offer, trydanwr, garddwr, gyrrwr trenau). Dyma'r categorïau galwedigaethol a ddewiswyd amlaf.
- Adroddodd 33% fod ganddynt gyflwr neu salwch corfforol neu iechyd meddwl a oedd yn para, neu y disgwyliwyd iddo bara, 12 mis neu fwy.
- Nododd 67% nad ydynt yn darparu gofal na chymorth i rywun sydd â chyflyrau iechyd tymor hir neu anghenion cysylltiedig ag oedran.
- Adroddodd 67% nad oedd ganddynt unrhyw gyfrifoldebau rhieni.
- Mae gan 86% radd academaidd (e.e., BA, BSc, PhD, neu ddiploma/tystysgrif ôl-raddedig, ac adroddodd y gweddill Safon Uwch/Uwch Gyfrannol (5%), lefel O neu TGAU (5%), neu ddim cymwysterau ffurfiol (5%).
- Mae 67% naill ai'n berchen ar eu cartref neu'n byw gyda rhywun sy'n berchen ar yr eiddo, p'un a dalwyd amdano'n llwyr neu ei fod wedi'i forgeisio, mae 14% yn rhentu'n breifat, mae 14% yn rhentu gan Awdurdod Lleol neu gymdeithas dai, ac roedd yn well gan 5% beidio ag ateb.

- Ar raddfa ysgol gymdeithasol 10 pwynt (lle mae 10 yn cynrychioli'r rhai mwyaf cefnog mewn cymdeithas ac 1 yn cynrychioli'r lleiaf cefnog), graddiodd yr ymatebwyr eu sefyllfa y flwyddyn cyn iddynt gael eu hethol i Senedd neu Gynulliad Cymru gyntaf gyda sgôr gymedrig o 5.2 (ystod: 1 i 9).
- O ran ymgysylltiad gwleidyddol:
    - Dewiswyd 52% i fod yn enwebai plaid wleidyddol ar gyfer etholiad Senedd neu Gynulliad Cymru, ond ni chawsant eu hethol,
    - Mae 29% yn Aelodau presennol o'r Senedd,
    - Mae 10% wedi sefyll fel ymgeiswyr annibynnol,
    - Mae 5% yn gyn Aelodau o'r Senedd,
    - Mae 5% wedi ceisio cael eu dewis gan eu plaid, ond heb sicrhau hynny.

## Arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr Awdurdod Lleol

- Derbyniwyd cyfanswm o **53 o ymatebion**.
- Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn byw yng Nghaerdydd (11%), ac yna Casnewydd, Gwynedd, a Rhondda Cynon Taf (9% yr un), ac Abertawe a Chaerffili (8% yr un). Mae eraill wedi'u gwasgaru ar draws 13 o Awdurdodau Lleol eraill gan gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir y Fflint, Ynys Môn, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Torfaen, Bro Morgannwg, a Wrecsam.
- O ran oedran, mae'r grŵp mwyaf o ymatebwyr rhwng 55 a 64 oed (36%), ac yna rhwng 45 a 54 oed (17%) a rhwng 65 a 74 oed (17%). Mae grwpiau llai yn cynnwys 35 i 44 oed (9%), 75 oed a hŷn (11%), rhwng 25 a 34 oed (4%), a rhwng 16 a 24 oed (2%). Roedd yn well gan 4% beidio â dweud.
- Mae 57% yn uniaethu'n wrywaidd, mae 42% yn uniaethu'n fenywaidd, ac roedd yn well gan 2% beidio â datgelu eu rhywedd.
- Roedd 83% yn uniaethu'n heterorywiol.
- Mae 89% o'r ymatebwyr o gefndir ethnig Gwyn. Mae'r gweddill yn cynnwys: Du, Cymro Du/Cymraes Ddu, Du Prydeinig, neu Garibïaidd (2%), heb ei restru (8%), a gwell gennyf beidio â dweud (2%).
- Dewisodd 25% yr opsiwn a oedd yn disgrifio "proffesiwn modern" (e.e., athro/athrawes, nyrs, gweithiwr cymdeithasol, sarsiant yr heddlu, dylunydd meddalwedd, artist, ac ati), dewisodd 17% "galwedigaethau llaw a gwasanaethu arferol" (e.e., gyrrwr cerbyd nwyddau trwm (HGV), gyrrwr fan, glanhäwr, porthor, paciwr, gweithiwr peiriant gwnïo, negesydd, llafurwr, gweinydd/gweinyddes, staff bar) ac adroddodd 13% fod ganddynt "alwedigaethau technegol a chrefft" (e.e., mecanydd moduron, gosodwr, arolygydd, plymwr, argraffwr, gwneuthurwr offer, trydanwr, garddwr, gyrrwr trenau). Dyma'r categorïau galwedigaethol a ddewiswyd amlaf.
- Adroddodd 34% fod ganddynt gyflwr neu salwch corfforol neu iechyd meddwl a oedd yn para, neu y disgwyliwyd iddo bara, 12 mis neu fwy.

- Nododd 62% nad ydynt yn darparu gofal na chymorth i rywun sydd â chyflyrau iechyd tymor hir neu anghenion cysylltiedig ag oedran.
- Adroddodd 75% nad oedd ganddynt unrhyw gyfrifoldebau rhieni.
- Mae gan 72% radd academaidd (e.e., BA, BSc, PhD, neu ddiploma/tystysgrif ôl-raddedig, a ddilynir gan HNC/HND/BTEC neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt (11%), Safon Uwch/Uwch Gyfrannol (6%), lefel O neu TGAU (6%), a dim cymwysterau ffurfiol (6%).
- Mae 85% naill ai'n berchen ar eu cartref neu'n byw gyda rhywun sy'n berchen ar yr eiddo, p'un a dalwyd amdano'n llwyr neu ei fod wedi'i forgeisio, mae 9% yn rhentu'n breifat, mae 4% yn rhentu gan Awdurdod Lleol neu gymdeithas dai, ac roedd yn well gan 2% beidio ag ateb.
- Ar raddfa ysgol gymdeithasol 10 pwynt (lle mae 10 yn cynrychioli'r rhai mwyaf cefnog mewn cymdeithas ac 1 yn cynrychioli'r lleiaf cefnog), graddiodd yr ymatebwyr eu sefyllfa y flwyddyn cyn iddynt gael eu hethol i'w Hawdurdod Lleol gyntaf gyda sgôr gymedrig o 6.0 (ystod: 1 i 10).
- O ran ymgysylltiad gwleidyddol:
  - Mae 60% yn gynghorwyr etholedig ar lefel Awdurdod Lleol,
  - Dewiswyd 23% i fod yn enwebai plaid wleidyddol ar gyfer etholiad cyngor Awdurdod Lleol, ond ni chawsant eu hethol,
  - Mae 15% yn gyn gynghorwyr etholedig ar lefel Awdurdod Lleol,
  - Mae 2% wedi sefyll fel ymgeiswyr annibynnol mewn etholiad cyngor Awdurdod Lleol, ond ni chawsant eu hethol.

### Arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr tref, plwyf, neu gymuned

- Derbyniwyd cyfanswm o **22 o ymatebion**.
- Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn byw yn Wrecsam (14%), ac yna Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Conwy, Sir y Fflint, Ynys Môn, ac Abertawe (9% yr un). Mae'r ymatebwyr sy'n weddill wedi'u gwasgaru ar draws Blaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, a Bro Morgannwg (5% yr un).
- O ran oedran, mae'r grŵp mwyaf o ymatebwyr rhwng 45 a 54 oed (23%) a 65 a 74 oed (23%), a ddilynir gan bobl 75 oed a hŷn (18%). Mae grwpiau llai yn cynnwys pobl rhwng 16 a 24 oed (9%), rhwng 35 a 44 oed (9%), rhwng 55 a 64 oed (9%), a rhwng 25 a 34 oed (5%). Roedd yn well gan 5% beidio â dweud.
- Mae 50% yn uniaethu fel gwrywaidd, mae 45% yn uniaethu fel benywaidd, ac roedd yn well gan 5% beidio â datgelu eu rhywedd.
- Roedd 82% yn uniaethu fel heterorywiol.
- Mae 82% o'r ymatebwyr o gefndir ethnig Gwyn. Mae'r gweddill yn cynnwys: Du, Cymro Du/Cymraes Ddu, Du Prydeinig, neu Garibïaidd (5%), heb ei restru (9%), a gwell gennyf beidio â dweud (5%).

- Dewisodd 23% yr opsiwn a oedd yn disgrifio “Uwch reolwyr a gweinyddwyr” (sydd fel arfer yn gyfrifol am gynllunio, trefnu a chydlynu gwaith a chyllid fel: rheolwr cyllid, prif weithredwr). Dilynwyd hyn gan ddau gategori, a ddewiswyd ill dau gan 18% o ymatebwyr: “Galwedigaethau technegol a chrefft” (e.e., mecanydd moduron, gosodwr, arolygydd, plymwr, argraffwr, gwneuthurwr offer, trydanwr, garddwr, gyrrwr trenau) a “Galwedigaethau llaw a gwasanaethu lled-arferol” (e.e., gweithiwr post, gweithiwr peiriant, swyddog diogelwch, gofalwr, gweithiwr fferm, cynorthwy-ydd arlwyo, derbynnydd, cynorthwy-ydd gwerthu).
- Adroddodd 23% fod ganddynt gyflwr neu salwch corfforol neu iechyd meddwl a oedd yn para, neu y disgwyliwyd iddo bara, 12 mis neu fwy.
- Adroddodd 55% nad ydynt yn darparu gofal na chymorth i rywun sydd â chyflyrau iechyd tymor hir neu anghenion cysylltiedig ag oedran.
- Adroddodd 82% nad oedd ganddynt unrhyw gyfrifoldebau rhieni.
- Mae gan 77% radd academaidd (e.e., BA, BSc, PhD, neu ddiploma/tystysgrif ôl-raddedig, a ddilynir gan HNC/HND/BTEC neu’r hyn sy’n cyfateb iddynt (14%), Safon Uwch/Uwch Gyfrannol (5%), a lefel O neu TGAU (5%).
- Mae 77% naill ai’n berchen ar eu cartref neu’n byw gyda rhywun sy’n berchen ar yr eiddo (p’un a dalwyd amdano’n llwyr neu ei fod wedi’i forgeisio), mae 18% yn rhentu’n breifat, ac mae 5% yn rhentu gan Awdurdod Lleol neu gymdeithas dai.
- Ar raddfa ysgol gymdeithasol 10 pwynt (lle mae 10 yn cynrychioli’r rhai mwyaf cefnog mewn cymdeithas ac 1 yn cynrychioli’r lleiaf cefnog), graddiodd yr ymatebwyr eu sefyllfa y flwyddyn cyn iddynt gael eu hethol i’r cyngor tref, plwyf, neu gymuned gyntaf gyda sgôr gymedrig o 6.2 (ystod: 3 i 9).
- O ran ymgysylltiad gwleidyddol:
    - Mae 64% yn gynghorwyr ar lefel tref, plwyf, neu gymuned,
    - Mae 18% yn gyn gynghorwyr ar y lefel hon,
    - Dewiswyd 9% i fod yn enwebai plaid wleidyddol ar gyfer etholiad cyngor Awdurdod Lleol, ond ni chawsant eu hethol,
    - Mae 9% wedi ceisio enwebiad gan blaid wleidyddol, ond ni chawsant eu dewis.

# Atodiad B: Canfyddiadau o’r arolwg o ddinasyddion Cymru

## Rhwystrau recriwtio – canfyddiadau o’r arolwg o ddinasyddion Cymru


Yn ôl yr arolwg o ddinasyddion Cymru, y prif ffactor a oedd yn awgrymu y byddai’r ymatebwyr yn fwy tebygol o ymgeisio am etholiad oedd p’un a ydynt yn aelodau presennol o blaid wleidyddol.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn aelod o blaid, y rhesymau mwyaf cyffredin oedd os oedd gan wleidyddion fwy o bŵer i wneud gwahaniaeth (43%), ac os oedd ganddynt fwy o wybodaeth am beth sy’n ofynnol yn rhan o’r broses a’r llinellau amser sy’n gysylltiedig (36%). Wrth ystyried y ddau reswm a fyddai’n eu gwneud yn sylweddol fwy tebygol neu’n eithaf mwy tebygol o ymgeisio, daeth ffactorau pwysig eraill i’r amlwg. Er enghraifft, “os oedd mwy o bobl fel fi eisoes ar y cyngor” (86%) ac “os oedd enw da gwleidyddion yn gwella” (79%).


Ymhlith y rhai a ymatebodd y byddai naill ai “os oedd gan wleidyddion fwy o bŵer i wneud gwahaniaeth” neu “os oedd ganddynt fwy o wybodaeth am y broses a llinellau amser” yn cynyddu eu tebygolrwydd o ymgeisio’n sylweddol, dim ond 29% a adroddodd beidio â gwirfoddoli eu hamser i glwb neu sefydliad. Fodd bynnag, roedd 43% naill ai heb ymateb, neu’n ansicr a oeddent wedi ymateb, i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf.

O ran y rhai a oedd yn aelod o blaid wleidyddol, rhoddwyd sawl reswm i esbonio beth fyddai’n newid eu hymddygiad yn sylweddol, a phob un ohonynt gan 33% o’r ymatebwyr. Mae’r rhain yn cynnwys: i) argaeledd cronfa i dalu am gostau cyfrifoldebau gofalu ar ôl cael eu hethol; ii) bod â mwy o wybodaeth am beth sy’n ofynnol yn rhan o’r broses a’r llinellau amser perthnasol; iii) mynediad at gronfa benodol i helpu i dalu am gostau cyfrifoldebau gofalu yn ystod ymgyrchoedd etholiad; iv) os oedd gan wleidyddion fwy o bŵer i wneud gwahaniaeth; a v) os oedd enw da gwleidyddion yn gwella. Wrth ystyried rhesymau a fyddai’n cynyddu eu tebygolrwydd o ymgeisio’n sylweddol neu’n eithaf sylweddol, roedd dau gymhelliad ychwanegol yn amlwg, y crybwyllwyd y ddau gan 100% o’r ymatebwyr: “Os oedd aelod uwch o’r blaid leol (e.e., cynghorydd, cadeirydd plaid leol, neu Aelod Seneddol) yn gofyn i mi ymgeisio”, ac “Os oedd aelod cyffredin o’r blaid yn gofyn i mi ymgeisio”.

**Ffigur 14. Beth fyddai'n eich gwneud chi'n fwy tebygol o ymgeisio am etholiad? Ffynhonnell: arolwg dinasyddion (pobl nad ydynt yn aelodau o bleidiau gwleidyddol) (n = 14)**



**Ffigur 15. Beth fyddai'n eich gwneud chi'n fwy tebygol o ymgeisio am etholiad? Ffynhonnell: arolwg dinasyddion (aelodau o bleidiau gwleidyddol) (n = 3)**




## Rhwystrau adnoddau – canfyddiadau o'r arolwg o ddinasyddion Cymru


Mae'r prif rwystrau rhag ymgeisio am swydd etholedig sy'n gysylltiedig ag adnoddau yn eithaf tebyg ar gyfer dinasyddion Cymru sy'n aelodau o bleidiau gwleidyddol a'r rhai nad ydynt yn aelodau o bleidiau gwleidyddol.

O ran ymatebwyr nad ydynt yn aelod o blaid, y rhwystrau a nodwyd amlaf oedd anallu i fforddio amser i ffwrdd o'r gwaith i ymgeisio am swydd etholedig (79% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf) a chost ymgyrchu, fel argraffu taflenni (64%). Ymhlith y rhai a gytunodd ag un o'r datganiadau hyn o leiaf, y galwedigaethau a adroddwyd amlaf oedd: rolau proffesiynol modern fel athrawon, darlithwyr, nyrsys, ffisiotherapyddion, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion lles, artistiaid, cerddorion, heddweision (sarsiant neu uwch), a dylunwyr meddalwedd (29%); a ddilynwyd gan 21% yr un gan alwedigaethau clercyddol a chanolradd (e.e. ysgrifenyddion, cynorthwywyr personol, gweithwyr clercyddol, asiantiaid canolfan alwadau, nyrsys cynorthwyol, a gweinyddesau meithrin); rheolwyr canol neu iau (e.e. rheolwyr swyddfa, manwerthu, banc, bwyty neu warws, a thafarnwyr); ac uwch reolwyr a gweinyddwyr sy'n gyfrifol am gynllunio, cydlynu, a chyllid (e.e. rheolwyr cyllid a phrif


weithredwyr). Ar gyfartaledd, gosododd yr ymatebwyr hyn eu hunain ar 7.1 ar y raddfa ysgol gymdeithasol, o gymharu â 6.8 ymhlith yr holl ymatebwyr nad ydynt yn aelod o blaid a 6.9 ar draws yr holl ddinasyddion a arolygwyd (aelodau o bleidiau a'r rhai nad ydynt yn aelodau o bleidiau).

Mae aelodau o bleidiau'n adrodd am yr un prif rwystrau: mae 100% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod costau ymgyrchu'n rhwystr sylweddol, ac mae 67% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf na allent fforddio amser i ffwrdd o'r gwaith. Mae pob un o'r tri ymatebwr a gytunodd ag o leiaf un o'r rhwystrau ariannol neu amser hyn yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol modern – fel athrawon, darlithwyr, nyrsys, ffisiotherapyddion, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion lles, artistiaid, cerddorion, heddweision (sarsiant neu uwch), a dylunwyr meddalwedd. Ar gyfartaledd, graddiodd yr unigolion hyn eu hunain yn 7.3 ar y raddfa ysgol gymdeithasol.

**Ffigur 16. Beth ydych chi'n credu yw'r prif rwystrau adnoddau (amser ac arian) sy'n eich atal rhag ymgeisio am swydd etholedig? Ffynhonnell: arolwg dinasyddion (pobl nad ydynt yn aelodau o bleidiau gwleidyddol) (n = 14)**





**Ffigur 17. Beth ydych chi'n credu yw'r prif rwystrau adnoddau (amser ac arian) sy'n eich atal rhag ymgeisio am swydd etholedig? Ffynhonnell: arolwg dinasyddion (aelodau o bleidiau gwleidyddol) (n = 3)**





## Rhwystrau ymateb – canfyddiadau o'r arolwg o ddinasyddion Cymru

Mae'r prif rwystrau rhag ymgeisio am swydd etholedig sy'n gysylltiedig ag ymateb yn eithaf tebyg ar gyfer dinasyddion sy'n aelodau o bleidiau gwleidyddol a'r rhai nad ydynt yn aelodau o bleidiau gwleidyddol. Ymhlith pobl nad ydynt yn aelodau o bleidiau gwleidyddol, mae 64% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad "Rwy'n pryderu am y craffu y byddwn yn ei wynebu gan wleidyddion eraill a'r cyfryngau," ac mae 57% yn mynegi pryder am "sut byddai pobl yn ymateb i'r ffaith fy mod i'n ymgeisio." O'r rhai a gytunodd ag un o'r datganiadau hyn o leiaf, roedd y mwyafrif yn fenywod (56%) ac roedd y rhan fwyaf rhwng 35 a 54 oed (67%). Mae aelodau o bleidiau'n adrodd am yr un prif bryderon, gyda 100% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r ddau ddatganiad.

**Ffigur 18. Beth ydych chi'n credu yw'r prif rwystrau ymateb sy'n eich atal rhag ymgeisio am swydd etholedig? Ffynhonnell: arolwg dinasyddion (pobl nad ydynt yn aelodau o bleidiau gwleidyddol) (n = 14)**




**Ffigur 19. Beth ydych chi'n credu yw'r prif rwystrau ymateb sy'n eich atal rhag ymgeisio am swydd etholedig? Ffynhonnell: arolwg dinasyddion (aelodau o bleidiau gwleidyddol) (n = 3)**



Rwy'n pryderu am yr ymateb neu'r gwahaniaethu y byddwn yn ei wynebu gan y cyhoedd ac ar gyfryngau cymdeithasol
Rwy'n pryderu am y craffu y byddwn yn ei wynebu gan wleidyddion eraill a'r cyfryngau
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Cytuno'n gryf
Cytuno
Niwtral
Anghytuno
Anghytuno'n gryf